

Pobl Ifanc ac Arian

Adnodd ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc

© Developing Youth Practice Ltd

Croeso i Bobl Ifanc ac Arian!

Mae'r pecyn cymorth hwn ar eich cyfer chi os ydych yn ymarferydd ieuenctid sy'n dymuno rhoi cymorth i bobl ifanc reoli eu harian yn well. Mae'n ganllaw ymarferol ac yn adnodd llawn gweithgareddau a syniadau i'w defnyddio gyda phobl ifanc.

Rhagair gan Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol

"Rhaid i bobl ifanc, ar drothwy eu bywyd fel oedolyn, fedru rheoli eu harian yn effeithiol. Rhwng 2004 a 2011, fel rhan o Strategaeth Galluogrwydd Ariannol yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, datblygwyd "Pobl Ifanc ac Arian" i roi cymorth i ymarferwyr ieuenctid gefnogi pobl ifanc bregus fedru rheoli eu harian yn well. Bellach mae'r rhai a weithiodd ar y prosiect gwreiddiol wedi dod ynghyd i greu pecyn cymorth ar-lein a welwch fydd yn llawn syniadau ac awgrymiadau newydd i'ch cynorthwyo i gefnogi'r bobl ifanc sydd yn rhan o'ch gwaith."

Gwasanaeth Cynghori Ariannol
Mawrth 2014

Pam fod deall galluogrwydd ariannol yn bwysig i Ymarferwyr Ieuenctid?

"Fel gweithiwr ieuenctid fe gewch amrywiaeth eang o hyfforddiant ar faterion fel iechyd rhyw, cyffuriau, alcohol a diogelwch ond eto dim byd ar sut i roi cymorth i bobl ifanc reoli eu harian, er ei fod yn destun pwysig iawn iddynt yn enwedig os ydynt yn fregus."

Gweithiwr Ieuenctid
Cymru, 2010

"Roedd Hyfforddiant Pobl ifanc ac Arian yn wych ac yn llawn syniadau i brocio'r meddwl. Roedd y sesiwn yn gynhwysol ac yn ddifyr o'r cychwyn i'r diwedd. Llwyddodd yr Hyfforddwyr 'DYP' i rannu eu cyfoeth o brofiad yn ystod y diwrnod, gydag amryw o awgrymiadau da ynglŷn â sut i wireddu'r syniadau gyda phobl ifanc. I mi mae'r pecyn cymorth ac adnoddau atodol yn offeryn cyfeiriol defnyddiol iawn. Gall popeth sydd ynddo gael ei ddefnyddio gyda phobl ifanc ac i roi cymorth i eraill hefyd sydd ar fin gweithio gyda phobl ifanc ynghylch eu galluogrwydd ariannol."

Sharon Hunt
Prosiect 'Fit Money Islington' CAB 2014

A pham fod galluogrwydd ariannol mor bwysig i bobl ifanc?

"Mae pobl ifanc eu hunain yn deall pwysigrwydd rheoli eu harian, gyda dwy ran o dair ohonynt yn credu nad oes ganddynt ddealltwriaeth dda o faterion ariannol neu'n gwybod lle i fynd i gael cyngor, tra mae traean o'r farn nad yw dyled yn beth drwg."

Wedi ei godi o'r adroddiad Gr□p Hollbleidiol Seneddol ar Addysg Ariannol i Bobl Ifanc, Addysg Ariannol i Bobl Ifanc Bregus

"Mae arian yn rhan o fywyd yr arddegau. Yn hwyr neu'n hwyrach bydd y rhaid i chi fentro i mewn i fyd yr oedolyn a dysgu sut i fyw yno."

Unigolyn ifanc, 19 oed

A pham fod 'sut' yr ewch ati mor bwysig?

"Mae dysgu am arian yn rhan o'ch bywyd fel oedolyn. Yn hwyr neu'n hwyrach bydd y rhaid i chi fentro i mewn i fyd yr oedolyn a dysgu sut i fyw yno. Roedd y ffordd yr aethant ati i ddysgu hyn yn y prosiect ieuenctid yn gwneud synnwyr, cefais fy nhrin fel oedolyn felly llwyddais i ymddwyn fel un. Cefais lawer iawn o hwyl a dysgu cymaint."

Gŵr Ifanc
dros 18

Dyfyniadau o Cyflwyno sgiliau galluogrwydd ariannol: Astudiaeth beilot gyda Fairbridge West, Bryste. Adroddiad gwerthusol gan Ganolfan Ymchwil Arian Personol, Prifysgol Bryste, Adele Atkinson, Gorffennaf, 2005

Cyflwyniad



I'r pecyn cymorth

Bydd y pecyn cymorth o fudd i chi wrth gefnogi pobl ifanc i wneud penderfyniadau mwy deallus am eu harian, ac i gadw gwell rheolaeth ar eu materion ariannol i'w galluogi i ddilyn y ffordd o fyw o'u dewis. Mae'n rhoi gwybodaeth i chi, offer a gweithgareddau a fydd eu hangen arnoch er mwyn cyflwyno gweithgareddau a sesiynau galluogrwydd ariannol difyr, hyd yn oed os nad ydych wedi hwyluso cyrsiau ariannol yn y gorffennol. Mae'n tybio bod gennych ychydig o wybodaeth a chefndir eisoes wrth weithio gyda phobl ifanc ac egwyddorion gwaith gyda ieuenctid.

Mae'r pecyn cymorth yn seiliedig ar ddeunyddiau a gweithgareddau sydd wedi eu profi'n llwyddiannus ar gyfer darparu Pobl ifanc ac Arian i ymarferwyr ieuenctid ledled y prosiect 2004-2011 yn y DU. Mae'r hyfforddiant yn parhau i gael ei ddarparu gan 'Developing Youth Practice.' Bydd yr adrannau yn eich tywys drwy broses a thaith wrth ddatblygu galluogrwydd ariannol unigolyn ifanc. Gellir cynnal pob gweithgaredd yn unigol neu'n gyfunol â rhai eraill.

Mae'r pecyn cymorth mewn 3 prif ran:

Mae Adrannau 1-3 yn gosod y cyd-destun ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc ar faterion ariannol, gan amlinellu'r materion allweddol a rhannu ffactorau llwyddiant critigol gyda chefnogaeth ymchwil a phrofiad.

Adrannau 4-11 yw'r pecyn cymorth ei hun, sydd ag ystod eang o weithgareddau, cysyniadau defnyddiol a dolenni i ragor o wybodaeth y gallwch eu defnyddio wrth weithio gyda phobl ifanc ar faterion ariannol.

Mae Adrannau 12 ac 13 yn adrannau'n cyflwyno rhagor o wybodaeth, yn cynnwys lle i fynd i gael rhagor o gymorth - ar-lein neu wyneb yn wyneb, lleoedd i ymweld â nhw os bydd pobl eisiau rhagor o arweiniad.

Dyluniwyd yr adnodd fel y gallwch argraffu rhai o'r adnoddau i'w defnyddio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc, ac maent yn effeithiol fel argraffiad lliw neu raddlwyd. Mae croeso i chi hefyd gymryd y syniadau a'u haddasu i'w defnyddio gyda'ch pobl ifanc chi.

I'r Fethodoleg

Mae'r pecyn cymorth yn seiliedig ar ymarfer ac

© Developing Youth Practice Ltd

egwyddorion Gwaith Ieuenctid cydnabyddedig, er enghraifft:

- Ym mholisi ieuenctid yr Alban, mae tair nodwedd sydd wrth wraidd gwaith ieuenctid:
  - Mae pobl ifanc yn dewis cymryd rhan
  - Mae cnewyllyn y gwaith yn cychwyn o sefyllfa gyfredol y bobl ifanc
  - Mae'r bobl ifanc a'r gweithwyr ieuenctid yn bartneriaid yn y broses o ddysgu

- Mae polisi ieuenctid Gogledd Iwerddon yn galw ar weithwyr ieuenctid i gynnwys pobl ifanc wrth gynllunio a darparu rhaglenni er mwyn sicrhau bod yr hyn a gynigir yn berthnasol.
- Mewn Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion (CLILC, 2013), sy'n datgan bod pum prif golofn o waith ieuenctid: addysgu, mynegi, cyfranogi, grymuso a bod yn gynhwysol.
- Mae strategaeth 'Positive for Youth' Lloegr 2011 yn datgan bod y broses o ddatblygiad personol a chymdeithasol yn cynnwys: *Datblygu sgiliau cymdeithasol, cyfathrebu a meithrin tîm; y gallu i ddysgu o brofiad, mesurau rheoli ymddygiad, a gwneud dewisiadau da, hunan-barch, cadernid, a'r ysgogiad i ddyfalbarhau i gyrraedd y nod ac i oresgyn anawsterau*

Bu i ni gynnal adolygiad cynhwysfawr o lyfryddiaeth ryngwladol ar alluogrwydd ariannol a phobl ifanc i fwydo ein hegwyddorion a'n dulliau allweddol. Mae crynodeb o'r adolygiad ar gael yn ***www.developingyouthpractice.co.uk***

Dyma rai o'r dulliau penodol a brofwyd yn llwyddiannus fel rhan o'n hymagwedd ac a ddefnyddiwyd fel sail i'n gwaith ymarferol: MINDSPACE ac economeg ymddygiadol: Dysgu drwy Brofiad; Rhagdybiaeth o Ddewis, Rhaglennu Niwroieithyddol.

Developing Youth Practice

Developing Youth Practice (DYP) yw'r sefydliad sydd wedi arwain datblygiad y pecyn cymorth hwn. Ni yw'r un bobl a weithiodd ar brosiect gwreiddiol yr FSA, Pobl Ifanc ac Arian, gan greu pecyn cymorth ynghylch yr hyn sy'n gweithio hyfforddiant a gyrhaeddodd 15,000 o weithwyr. Fel DYP, rydym yn parhau i ddarparu hyfforddiant Pobl ifanc ac Arian i ymarferwyr ieuenctid. Fel arbenigwyr mewn ymarfer ieuenctid rydym yn darparu ystod eang o hyfforddiant ymarferol achrededig i roi cymorth i ysbrydoli creadigrwydd wrth ymgysylltu â'r bobl ifanc mwyaf heriol ac anodd eu cyrraedd.

Mae ein pwyslais ar hyrwyddo newid ymddygiad, gan gredu bod gan bob un unigolyn y gallu i newid ac i gyflawni os rhoddir y cyfleoedd a'r gefnogaeth gorau iddynt. Nod DYP yw uwchsgilio gweithwyr ieuenctid yn y technegau, gweithgareddau a'r mewnwelediad seicolegol er mwyn meithrin cysylltiadau y gellir ymddiried ynddynt ac i herio ymddygiadau negyddol. Edrychwch ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth: ***www.developingyouthpractice.co.uk***

Ynglŷn â'r awduron a'r grŵp llywio

Bu pob un ohonynt yn cydweithio ers 2004 ar alluogrwydd ariannol a phobl ifanc a chychwyn y rhaglen Pobl ifanc ac Arian, gan ddod ag amrywiaeth eang o brofiad ac arbenigedd. Bellach maent oll yn rhan o'r Consortiwm Pobl Ifanc ac Arian:

- Ruth Bradbrook: Ymarferydd a Hyfforddwr Gwaith Ieuenctid, Cyd-gyfarwyddwr Developing Youth Practice
- Louise Willis-Keeler: Ymarferydd a Hyfforddwr Gwaith Ieuenctid, Cyd-gyfarwyddwr Developing Youth Practice
- Linda Jack: Ymgynghorydd Annibynnol Galluogrwydd Ariannol
- Fran Harrison: Arbenigwr Polisi Defnyddwyr
- Frances Burton: Hyfforddwr ac ymgynghorydd annibynnol

Grŵp Cyfeirio

Diolch i'n grŵp cyfeirio sydd wedi bod o gymorth wrth roi gwybodaeth a ffurfio'r pecyn cymorth:

- Lee Phillips, Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol
- Martin Coppack, Awdurdod Ymddygiad Ariannol, mewn swyddogaeth bersonol
- Michelle Highman, Prif Weithredwr Yr Elusen Arian
- Louise MacDonald, Prif Weithredwr Young Scot
- PJ White, Golygydd yr adnodd ar-lein Youth Money
- Dr Pushpa Wood - Canolfan Addysg Ariannol ac Ymchwil, Ysgol Economeg a Chyllid, Prifysgol Massey (Seland Newydd)

Eraill

- Jennie Anderson, Gwaith dylunio treeduck.co.uk
- Catherine Davies, Prawfddarllen
- Adele Atkinson, Dadansoddwr Polisi, OECD
- Jonquil Lowe, Darlithydd mewn Cyllid Personol Adran Economeg, Y Brifysgol Agored

Gwaith dylunio www.treeduck.co.uk

Cynnwys

Manylion cyswllt

Developing Youth Practice
developingyouthpractice.co.uk

Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol
moneyadviceservice.org.uk/cy

Tudalen Gynnwys **Adran**

1. Galluogrwydd ariannol - beth yw ystyr hyn? 9
2. Pobl ifanc ac arian - beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd? 11
3. Awgrymiadau da - sut i weithio â phobl ifanc ac arian 12
4. Fframwaith gweithgaredd 14
5. Seicoleg pobl ifanc ac arian 17
6. Sut i gychwyn arni 24
7. Arian i mewn ac arian allan – a oes balans? 36
8. Gwneud i'ch arian weithio i chi - bancio a chynilo 56
9. Ffonau symudol 70
10. Galluogi pobl ifanc i wneud dewisiadau deallus ynglŷn â chynilo a benthyca 76
11. Helpu pobl ifanc i reoli dyledion 93
12. Rhagor o wybodaeth ac adnoddau 110
13. Beth sydd nesaf? Mewnosod ar waith 115
14. Llyfryddiaeth 117

Mae pob Eiddo Deallusol yn y ddogfen hon yn perthyn i Developing Youth Practice Limited.

© Developing Youth Practice Ltd

1. Galluogrwydd ariannol - beth yw ystyr hyn?

Mae'r termau 'hyddysgedd ariannol' a 'galluogrwydd ariannol' yn dueddol o gael eu defnyddio i ddisgrifio'r un peth ond galluogrwydd ariannol a ffefrir yn gynyddol yn rhyngwladol.

Yn ôl y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, diffiniad o unigolyn sydd â galluogrwydd ariannol yw:

Mae unigolyn sydd â galluogrwydd ariannol yn rhywun sydd yn cadw trefn ar ei arian, yn cynllunio ymlaen, ac yn medru gwneud penderfyniadau deallus am ei faterion ariannol, gan ddeall y risgiau a manteision dewisiadau neilltuol.

Mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol wedi adnabod 3 elfen a chanlyniadau allweddol o alluogrwydd ariannol:

- Cadw trefn ar arian h.y. byw o fewn eich gallu, a dod allan o ddyledion problemus
- Cynllunio ymlaen h.y. drwy gael digon o gynilion, bod yn barod am flynyddoedd hŷn eich bywyd, a diogelu rhag yr annisgwyl
- Gwneud penderfyniadau deallus ar gyfer dewisiadau a chynnyrch ariannol

Rydym wedi defnyddio'r fframwaith hwn drwy gydol y pecyn cymorth, gweler yr olwyn a'r disgrifiad ar dudalen 17.

Gwir ymddygiad yr unigolyn yw'r ffordd orau o farnu ei alluogrwydd ariannol. Byddai rhywun sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau i reoli ei faterion ariannol yn dda yn cael ei ystyried fel rhywun sydd yn hyddysg yn ariannol ond nid â galluogrwydd ariannol os nad yw'n defnyddio'r ddealltwriaeth hon i wneud penderfyniadau deallus. Er enghraifft, efallai y bydd rhywun yn ymwybodol o bwysigrwydd chwilio am y fargen orau cyn prynu cynnyrch neu wasanaethau ariannol, a sut i wneud hynny, ond ni ellir ei ystyried fel rhywun â galluogrwydd ariannol os nad yw'r ysgogiad ganddo i roi hynny ar waith.

Mae galluogrwydd ariannol yn golygu medru gwneud penderfyniadau rhesymol sy'n addas ar gyfer sefyllfa a dewisiadau'r unigolyn. Bydd galluogrwydd ariannol yn amrywio o un unigolyn i'r llall, yn ddibynnol ar eu hamgylchiadau ariannol. Er enghraifft, nid oes angen i unigolyn sydd ag ond ychydig o arian neu ddim o gwbl fod â galluogrwydd ariannol mewn rheoli buddsoddiadau.

Mae'r ymchwil diweddar gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol 'Bywydau Ariannol' Mawrth 2014, yn rhoi mewnwelediad i'r ffactorau sy'n dylanwadu ar lwyddiant pobl i reoli eu harian ac yn annog arferion ariannol da:

- Mae agweddau, ysgogiadau a chyfleoedd yn ogystal â sgiliau a gwybodaeth yn dylanwadu ar yr hyn a wnawn gyda'n harian a'n teimladau tuag ato.
- Mae'r gallu a'r parodrwydd i gynllunio ymlaen yn allweddol wrth bennu pa mor effeithiol yw pobl wrth reoli eu harian. Mae'r gallu i ddysgu'n dueddol o ddod gan rieni'r unigolyn.
- Gall paratoi ar gyfer digwyddiad allweddol mewn bywyd, megis prynu cartref cyntaf, fod yn ysgogiad mawr i bobl wrth ddatblygu arferion ariannol cadarnhaol a hirdymor.
- Gall dysgu i ymdopi'n ariannol gyda digwyddiadau anodd mewn bywyd, megis profedigaeth neu ysgariad, hefyd gael effaith gadarnhaol hirdymor ar arferion ariannol pobl.
- Mae'n bosib newid ymddygiadau naturiol pobl wrth reoli arian os ydynt:

  - yn cael canlyniad clir i weithio tuag ato;
  - yn cael mynediad at wybodaeth ynglŷn â'r canlyniad hwnnw, megis ei bwysigrwydd, a'r gwahaniaeth a wneir i bobl gan y canlyniad hwnnw;
  - yn cael strwythur a'r cyfarpar perthnasol i roi cymorth i bobl weithio tuag at y canlyniad delfrydol;
  - yn medru cael adborth cadarnhaol ar eu cynnydd ac yn medru osgoi teimlo'n ynysig; ac
  - yn medru teimlo eu bod yn rheoli eu sefyllfa ariannol.

Rydym wedi defnyddio'r egwyddorion hyn i fwydo'r strwythur cyffredinol, y cysyniadau allweddol a'r adnoddau o fewn y pecyn cymorth hwn i'w defnyddio gyda phobl ifanc. Mae rhagor o wybodaeth am y rhain yn adran 3 'Awgrymiadau Da' a 5 'Seicoleg Pobl Ifanc ac Arian'.

Mae'r ymchwil yn llawn ar gael yn: ***https://www.moneyadviceservice.org.uk/en/static/money bywydau***



Unwaith mae arian gen i mae'n llosgi twll yn fy mhoced.

Unigolyn ifanc, 14 oed

Tydw i erioed wedi defnyddio arian.

Unigolyn ifanc, 13 oed

Mae llawer o bobl yn meddwl nad arian yw'r peth pwysicaf. Mi fasa'n well gen i iddo beidio â bod y peth pwysicaf, cariad ydi'r peth pwysicaf, ond mae hi ar ben heb arian.

Unigolyn ifanc, 21 oed

Dyfyniadau a gymerwyd o Cyflwyno sgiliau galluogrwydd ariannol: Astudiaeth beilot gyda Fairbridge West, Bryste. Sef adroddiad gwerthusol gan Ganolfan Ymchwil Arian Personol, Prifysgol Bryste, AdeleAtkinso

2. Pobl ifanc ac arian - beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd?

Mae ymchwil diweddar yn 2013 gan MAS ar alluogrwydd ariannol holl bobl ifanc 15-17 oed yn datgelu darlun o genhedlaeth sydd wedi ei ffurfio gan y cyfnod economaidd y tyfodd i fyny ynddo – cenhedlaeth sy'n deall yr heriau sy'n ei hwynebu, sydd yn cynllunio i'r dyfodol, ond angen cymorth ar ran o'r daith honno. Dyma rai uchafbwyntiau o'r ymchwil honno:

- Mae pobl ifanc yn dangos agweddau cadarnhaol at reoli arian, gyda 74% yn dewis peidio mynd allan os na allant fforddio gwneud hynny. Serch hynny, 60% o bobl ifanc yn unig sydd yn cadw golwg ar eu gwariant o'i gymharu ag 86% o oedolion. Mae tua 50% yn ei chael hi'n anodd byw o fewn eu modd ariannol.
- Ymddengys bod rhai ymddygiadau ariannol wedi eu sefydlu erbyn 15 oed, gyda rhai 15 oed mor debygol ag oedolion i gynilo ar gyfer diwrnod glawog a gosod cyllideb a glynu iddi ar gyfer anrheg Nadolig.
- Ond mae rhai 17 oed ac oedolion ifanc 18 i 24 oed yn llai cyfforddus gyda'u harian na rhai sydd yn eu harddegau cynnar, sydd, mae'n debyg, yn adlewyrchu'r heriau o fod yn fwy annibynnol yn ariannol.
- Dengys ein hymchwil bod pobl ifanc yn debygol o efelychu – yn gadarnhaol neu'n negyddol – ymddygiadau ariannol eu rhieni.

Mae canfyddiadau'r ymchwil yn llawn ar gael yn: ***https://www.moneyadviceservice.org.uk/en/static/the-financial-capability-of-15-17-year-olds***

O ymchwil a gwblhawyd gan Barclays yn 2011 gwelwyd bod dros draean (36%) o bobl ifanc yn rhedeg allan o arian yn rheolaidd; dywedodd 27% pellach o bobl ddi-waith eu bod heb arian yn rheolaidd.

Mae rhai pobl ifanc yn fwy bregus. Cofiwch ystyried rhai nodweddion bregus neilltuol mewn perthynas â gwasanaethau ariannol ac addaswch eich dulliau i weddu â hynny. Mae Coleg Brenhinol Seiciatryddion yn cyfeirio at nifer o nodweddion ac amgylchiadau o fregusrwydd:

- Hyddysgedd neu lythrennedd isel, rhifedd isel a/neu galluogrwydd ariannol isel
- Incwm isel/ansicr
- Bod yn ddi-waith
- Bod yn gyfrifol am ofalaeth ddwys o unigolyn arall
- Bod ag anabledd corfforol
- Bod ag anawsterau iechyd meddwl
- Byw mewn tŷ rhent cymdeithasol
- Byw mewn cartref ag un rhiant

Dywed Coleg Brenhinol Seiciatryddionbodangen i ni gydnabod y gall bregusrwydd fod yn nodwedd ag effaith hirdymor neu gall fod yn gyflwr deinamig sy'n effeithio rhai defnyddwyr ar wahanol adegau – fel diweithdra neu brofedigaeth. Y materion pwysicaf yma yw graddau'r bregusrwydd ac – yn allweddol – a yw hyn yn cael ei leddfu neu ei waethygu gan weithrediadau neu ddiffyg hynny gan ddarparwyr, marchnadoedd a gwasanaethau.

Mae'n bwysig cofio hefyd bod sefyllfaoedd ar hyn o bryd yn golygu bod arian yn gysylltiedig ag amryw o agweddau eraill ar fywydau pobl ifanc a'u lles:

- **Iechyd meddwl** - Gall dyled achosi a bod yn ganlyniad problemau iechyd meddwl
- Byw'n iach - mae newid deiet ac arferion bwyta yn cael effaith ar wario
- **Tai / Byw'n annibynnol** - mae'r cyfnod pontio wrth adael cartref, gofal neu unrhyw sefydliad yn cyflwyno amryw o faterion newydd ynghylch rheoli arian
- **Cyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth** - gall ennill cyflog fod yn ysgogiad, a bydd y cyfnod pontio'n cyflwyno amryw o faterion newydd ynghylch rheoli arian.
- **Credyd Cynhwysol** - golyga hyn y bydd angen i nifer o bobl ifanc reoli eu harian yn well
- **Cyffuriau ac alcohol** - gall talu am broblem gyffuriau neu alcohol fod yn ddrud, gall rhai pobl ifanc fynd i ddyled cyffuriau
- **Troseddu** - gall prinder arian arwain at droseddu, ac unwaith y bydd rhywun yn y cylch hwn gall effeithio'n ddrwg ar ddewisiadau ariannol
- **Sgiliau sylfaenol** - rhifedd a llythrennedd - bydd diffyg sgiliau'n effeithio ar alluogrwydd ariannol unigolyn.

3. Awgrymiadau da - Sut i weithio â phobl ifanc ac arian

Dyma rai awgrymiadau da yn seiliedig ar arferion da ar yr hyn a ganfuwyd i fod yn fodd effeithiol o feithrin galluogrwydd ariannol pobl ifanc. Mae'r holl feysydd hyn a gymerwyd o'n hadolygiad o lyfryddiaeth, dolenni i'r ymchwil a chorff o dystiolaeth, ar gael i'w gweld o'n llyfryddiaeth ni ar ddiwedd y pecyn cymorth.

Mae'r berthynas yn allweddol ac yn sail i'r cyfan

Bydd pob gweithiwr ieuenctid yn cytuno mai'r peth pwysicaf oll yw'r ***berthynas*** sydd gan yr unigolyn ifanc â chi. Fel y pwysleisir gan **MINDSPACE** (gweler tudalen 18), mae'r negesydd yn hynod bwysig. Os bydd unigolyn ifanc yn ymddiried ynoch, eich bod yn deall eich gilydd ac â pherthynas barhaus â chi, byddwch mewn sefyllfa unigryw i roi cymorth iddo gyda materion ariannol yn yr un modd ag y byddwch gyda materion eraill. Drwy feithrin perthynas dda byddwch yn gwybod beth sy'n bwysig i'r unigolyn hwnnw ac felly'n llwyddo i ddeall beth sy'n ysgogi newidiadau mewn ymddygiad.

Gwerthfawrogwch bobl ifanc a'u cadw'n ganolog i'ch gwaith

Dylai unrhyw ymyrraeth fod ar ***sail gwerth*** gan gefnogi pobl ifanc i ddeall eu bod yn cael eu gwerthfawrogi oherwydd eu rhinweddau personol yn hytrach na'r hyn sydd ganddynt. Bydd yr ymarferion yn y pecyn cymorth yn rhoi cyfle arbennig i chi i ***herio*** prynwriaeth a'r diwylliant o foddhad parod sy'n llygru cymaint o fywydau. Bu i adroddiad Unicef ar les plant yn 2007 arsylwi bod prynwriaeth yn broblem ddirfawr yn y DU gyda'r rhai ar incymau isel yn fwy tebygol o brynu eitemau brand er mwyn digolledu teimladau o fod heb ddigon. Beth bynnag a wnewch, sicrhewch fod pobl ifanc ***ynghlwm*** â'r gwaith o gynllunio a darparu'ch rhaglen.

Nid yw arian yn bwnc i ymdrin ag ef yn annibynnol o unrhyw beth arall

Mae'n hanfodol dilyn ***ymagwedd gyfannol, gyson a chyfunol*** i sicrhau bod unrhyw ymyrraeth yn effeithiol. Tra bod cyrsiau mwy disylw yn briodol, mae'n bwysicach fyth integreiddio'r holl ddysgu ynglŷn ag arian i'r gwaith a wnewch gyda phobl ifanc. Fel oedolion, er y byddwn yn dueddol o roi trefn daclus ar ein bywydau, nid felly yw natur pobl ifanc, yn enwedig y rhai sydd â chefndir caotig ac yn byw bywyd felly.

Adnabod y rhai a weithiwch â nhw

Mae pobl ifanc yn wynebu nifer o heriau gwahanol ac yn ymateb i amryw o ddulliau dysgu, felly ni fydd ymagwedd ***gyffredinol i bawb*** yn llwyddo. Nid oes ffon hud; ond beth sy'n bwysig yw bod dysgu'n cael ei deilwra'n benodol i'r unigolyn ifanc, ei anghenion a'i faterion neilltuol, wrth ystyried ei ddull dysgu. Dyna pam mae hwn yn becyn cymorth yn hytrach na llawlyfr hyfforddi, gan gynnig syniadau i chi i'w haddasu ar gyfer y bobl ifanc a weithiwch â nhw, un ai fel grŵp neu fel unigolion.

Gwnewch y cyfan yn berthnasol, yn ddifyr ac yn ysbrydoledig

Fel gweithwyr ieuenctid rydych mewn sefyllfa unigryw o fedru ymateb i anghenion mewn ffordd greadigol ac ar yr adeg iawn. Meddyliwch am adegau sy'n addas fel 'adeg i ddysgu' – gall hyn fod pan fydd unigolyn ifanc yn dechrau byw'n annibynnol, neu'n cael ei benblwydd yn 18 oed gan felly gael mynediad at gredyd. Dengys tystiolaeth bod pobl ifanc yn dysgu mwy pan gânt ***brofiad ymarferol gwirioneddol*** o orfod rheoli eu harian. Byddwch yn gweithio gyda phobl ifanc ar adeg pan fyddant yn cychwyn ar y daith o fod yn annibynnol, pan ddaw materion yn ymwneud ag arian yn real yn hytrach na damcaniaethol. Felly, er enghraifft, os ydych mewn prosiect tai a gefnogir gallwch gynllunio'ch sesiynau i roi cymorth i bobl ifanc wrth iddynt ddod yn gyfrifol am dalu ffioedd gwasanaeth, cyllidebu a chymryd rheolaeth o'u materion ariannol. Cofiwch yr 'S' o MINDSPACE – beth sydd fwyaf amlwg, yn 'salient' i'r bobl ifanc a weithiwch â nhw?

Peidiwch â gwthio gormod!

Yn ogystal â'r angen i'ch ymyriadau fod yn real a pherthnasol rhaid iddynt gynnig ***dewis***. Wrth feithrin rhagor o wybodaeth a sgiliau bydd pobl ifanc yn medru gwneud penderfyniadau deallus ynghylch eu materion ariannol.

© Developing Youth Practice Ltd

Dod â budd gwirioneddol i'r presennol

Mae nifer o bobl ifanc yn byw am 'heddiw' yn unig. Fframiwch ymyriadau er mwyn i bobl ifanc weld budd y newidiadau yn awr ac yn y tymor byr. Rhaid sicrhau osgoi colled neu fudd ar unwaith i rywun fedru cael y cymorth i'w hysgogi i newid.

Gwnewch hynny eto! A chryfhewch y broses adolygu

Ar gyfer pobl ifanc na lwyddodd efallai dan y system addysg ac sy'n cael anhawster gyda dysgu ffurfiol, mae ***adolygu, ailadrodd ac atgyfnerthu*** yn allweddol ar gyfer dysgu ac ymarfer arferion ariannol da. Yn gysylltiedig â hyn yw'r angen i fod yn fodlon wrth weld pobl ifanc yn cymryd ***camau bach a chywir*** yn hytrach na disgwyl iddynt newid popeth ar unwaith a all arwain at fethiant. Mae'n well canolbwyntio ar ymdrin ag ychydig o bethau yn hytrach na boddi pobl ifanc gyda gormodedd.

Ymddygiad neu wybodaeth?

Mae ymdrin ag ***agweddau*** ac ***ymddygiad*** ymysg pobl ifanc mor bwysig â sicrhau bod ganddynt y sgiliau gwybodaeth cywir a'r ddealltwriaeth gywir. Efallai y bydd unigolyn ifanc yn deall yn iawn sut i agor cyfrif banc, darllen cyfriflen banc a chyllidebu'n ddeallus. Ond nid yw hyn yn golygu y gwna hynny. Dengys ymchwil bod pobl ifanc yn datblygu dealltwriaeth ariannol ac economaidd wrth brofi 'profiadau economaidd personol', pan 'ddaw'r adeg i orfod gwneud hynny'.

Cymorth a hyfforddiant

Ni fyddai disgwyl i chi gynnal sesiwn ar iechyd rhyw yn seiliedig ar eich profiadau eich hun – mae'r un peth yn wir ar gyfer sesiynau am arian. Bydd darparu hyfforddiant a chefnogaeth yn galluogi staff a gwirfoddolwyr i gefnogi ac ysbrydoli pobl ifanc yn effeithiol. Erbyn diwedd ei gyfnod o ddarparu hyfforddiant Pobl ifanc ac Arian o dair blynedd i ymarferwyr ieuenctid yn 2011, amlygodd yr adroddiad ymadael ddau gyflawniad arwyddocaol:

- Roedd tua 15,000 o ymarferwyr ieuenctid ledled y DU wedi mynychu hyfforddiant Pobl ifanc ac Arian. Dywedodd 93% y byddent yn argymell yr hyfforddiant i eraill.
- Roedd pobl ifanc â gwell rheolaeth o'u hamser, gan gynilo mwy, profi llai o ddyledion ac yn fwy ymwybodol o'r manteision o gynllunio ymlaen.

Mae Developing Youth Practice yn parhau i ddarparu hyfforddiant Pobl ifanc ac Arian ***www.developingyouthpractice.co.uk***. Gweler hefyd adran 12 am ragor o wybodaeth am hyfforddiant.

Sefydlu galluogrwydd ariannol

O'r gwerthusiad o raglen 'Pobl ifanc ac Arian' gwelwyd bod galluogrwydd ariannol llwyddiannus yn ddibynnol ar ei ***sefydlu*** a'i drwytho ym ***mholisïau, gweithdrefnau ac ymarferion*** sefydliadau. Golyga hyn y dylai rhywun gael y cyfrifoldeb cyffredinol drosto, dylid cynnig hyfforddiant a chefnogaeth parhaus i staff, dylid cael gweithdrefnau sy'n monitro cynnydd y bobl ifanc wrth iddynt reoli eu harian, a dylid sicrhau digon o amser ac adnoddau. Gweler adran 13 am ragor o syniadau ac astudiaethau achos ar Sefydlu galluogrwydd ariannol.

Bydd rhai gwahaniaethau ar sail rhywedd

Cofiwch fod ***rhywedd*** yn bwysig, felly ceisiwch deilwra'r hyn a wnewch er ystyriaeth i anghenion merched ifanc. ***Cadwch lygad am ddyheadau is ymysg merched ifanc o'u cymharu*** â dynion ifanc. Ceisiwch deilwra'r dulliau darparu i anghenion merched, gan ddefnyddio dylanwad modelau rôl benywaidd a dysgu a rhannu ar sail dylanwad cyfoedion. Mae'r OECD yn argymell cyfuno addysg ariannol gyda mynediad at gynnyrch ariannol ffurfiol ynghyd ag addysg entrepreneuraidd er mwyn gwella mynediad cyffredinol merched at waith.

4. Fframwaith gweithgaredd

Mae'r tabl isod yn rhestru'r holl weithgareddau a sut y gallwch eu defnyddio h.y. gyda grwpiau, ar sail 1-1, ac fel arf i annog sgwrs

Adran		Gweithgaredd	Yn addas ar gyfer ei gyflwyno i grwpiau	Yn addas ar gyfer ei ddefnyddio mewn gwaith 1-1	Gellir defnyddio deunyddiau i annog sgwrs
5. Seicoleg pobl ifanc ac arian	5.1	Sut Mae Adnabod Rhywun Sydd Yn Cadw Rheolaeth Ar Ei Arian?	√	√	
	5.2	Cytuno ac Anghytuno	√	√	
	5.3	Hudol a Hyll ynghylch arian	√		√
	5.4	Chi ac Arian	√	√	
	5.5	Goleuadau Traffig	√	√	
6. Sut i gychwyn arni	6.1	Bomiau a Thariannau	√		√
	6.2	Arian, Arian, Arian	√		√
	6.3	Wrth Fy Modd Yn Gwario Arian Ar, Casau Gwario Arian Ar	√	√	
	6.4	Mae'r Haul Yn Tywynnu Ar	√		
	6.5	Ie, Dim Gêm	√		
	6.6	Amser Ffilm	√	√	
7. Arian i mewn ac arian allan – a oes balans?	7.1	Lluniau Arian i Mewn ac Arian Allan	√	√	
	7.2	A Oes Gennych Ddigon o Arian I Wneud Y Pethau Hyn?	√	√	
	7.3	I Ble Aiff Eich Arian? - Rhan 1	√	√	
	7.4	I Ble Aiff Eich Arian? - Rhan 2	√	√	
	7.5	Dyddiaduron Gwario	√	√	
	7.6	Sut Fydda I'n Cofio Cadw Llygad Ar Fy Ngwario?	√	√	
	7.7	Beth Yw'ch Incwm?	√	√	
	7.8	Rhestrau - Pethau Hanfodol neu Bethau Heb Fod Yn Hanfodol	√	√	
	7.9	Cyllideb Syml	√	√	
	7.10	Cynyddu Incwm a Lleihau Gwariant	√	√	
8. Gwneud i'ch incwm weithio i chi	8.1	Bingo Bancio	√		√
	8.2	Ble i Gadw Fy Arian	√		√
	8.3	Dewis y Cyfrif Cywir – Ceisio Busnes	√		√
	8.4	Marterion Bancio Llosg	√		√
	8.5	Rheoli Cyfrif Banc	√	√	

© Developing Youth Practice Ltd

9. Ffonau symudol	9.1	Ffôn Symudol	√		
	9.2	Pa un yw'r Fargen orau?	√	√	
	9.3	Grand Prix Ffôn Symudol	√		√
10. Galluogi pobl ifanc i wneud dewisiadau deallus ynglŷn â chynilo a benthyca	10.1	Y Pam a'r Sut	√		√
	10.2	Cymharu Costau Credyd	√	√	
	10.3	Darllen y Print Mân	√	√	
	10.4	Uwch, Is	√	√	
	10.5	Ymwrthod y Pwysau	√	√	
11. Rhoi cymorth i bobl ifanc reoli dyledion	11.1	A yw Dyled o Bwys?	√		√
	11.2	Sut Mae Pethau'n Cychwyn Mynd O'i Le a Beth Allwn Ni Ei Wneud?	√		√
	11.3	Beth sy'n Bwysig a Beth sy'n Fater o Frys?	√	√	
	11.4	Dyledion â Blaenoriaeth a Dyledion Heb Flaenoriaeth a Goblygiadau Hynny	√	√	
	11.5	Cael Cymorth Pan Fydd Angen Hynny	√		√

Addasu gweithgareddau a chefnogi holl bobl ifanc

Mae'n bwysig ystyried anghenion a galluoedd y grŵp wrth i chi ddewis gweithgaredd. Gellir addasu unrhyw un o'r gweithgareddau yn y pecyn cymorth hwn i weithio â gwahanol grwpiau, ac mewn seisynau un-i-un. Os ydych yn addasu'r adnoddau i'w defnyddio gyda phobl ifanc ag anableddau dysgu defnyddiwch adnodd y Gwasanaeth Cynghori Ariannol ar wefan ARC:
http://arcuk.org.uk/blog/helping-young-people-with-learning-disabilities-to-understand-money/

Isod rhoddir rhai ffeithiau sylfaenol i'w cofio wrth gynnal gweithgareddau llwyddiannus gyda phobl ifanc

- Wrth roi cymorth i bobl ifanc feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth mae'n bwysig sicrhau bod y dysgu'n berthnasol, yn rhyngweithiol ac yn ddifyr. Mae hyn yn helpu i ymgysylltu â'r bobl ifanc, yn apelio'n fwy at ddysgwyr mwy ymarferol ac yn atgyfnerthu'r neges o ddysgu drwy 'wneud'.
- Dewiswch weithgareddau a fydd yn ymgysylltu â'r holl bobl ifanc; mae pob adran o'r pecyn cymorth hwn yn cynnwys rhannau sy'n addas i bob gallu.
- Mewn gweithgareddau sydd angen pobl ifanc i ysgrifennu, ystyriwch, os bydd angen, gwneud hyn ar eu rhan mewn modd nad yw'n rhy amlwg nac yn weledol.
- Yn ystod gweithgareddau lle byddwch yn rhannu'r grwpiau'n rhai llai i weithio ar dasgau penodol, mae'n beth doeth mynd o amgylch y grwpiau i wneud yn siŵr fod pawb wedi deall yr hyn sy'n ofynnol ohonynt ac yn medru gwneud hynny, a rhowch gymorth lle bydd angen hynny. Mae amryw o'r gweithgareddau yn y pecyn cymorth yn cynnwys rhestr o gwestiynau i annog ymateb.
- Os bydd rhai pobl ifanc yn gorffen yn gyflym, gofynnwch iddynt roi cymorth i eraill.
- Gall fod yn syniad da cael copi o'r taflenni a rennir sydd gennych, neu ran ohonynt, i'w roi ar siart troi a rhoi rhai enghreifftiau o'r hyn yr hoffech i'r bobl ifanc ei wneud.
- Os bydd pobl ifanc yn cael anhawster werth ysgrifennu neu dymunwch gyflymu'r sesiwn rhyw fymryn, gallwch fod wedi cwblhau rhai tasgau eisoes yn rhannol e.e. taflenni cyllideb wedi eu cwblhau'n rhannol, taflenni bingo wedi eu llenwi'n rhannol.
- Addaswch y gweithgareddau gan ddefnyddio llai o ddeunyddiau neu rai gwahanol er mwyn eu gwneud mor berthnasol â phosib i'r dysgwyr ac osgoi eu gorlwytho e.e. termau ariannol ar y daflen bingo a'r cardiau dyled a goblygiadau.
- Gallwch gael rhagor o wybodaeth i'r bobl ifanc edrych arni a'i chadw ar ôl y sesiwn fel copïau o dermau sy'n symleiddio jargon gan Cyngor ar Bopeth, a thaflenni ffeithiau eraill ar reoli arian, taflenni Undeb Credyd ac ati.

5. Seicoleg Pobl Ifanc ac Arian

Trosolwg

Bydd pobl ifanc i gyd ar gyfnodau gwahanol o ran eu sgiliau, agweddau ac ymddygiad ariannol. Mae'n hanfodol i chi roi amser i wrando a deall perthynas pob unigolyn ifanc ag arian, a'i sefyllfa bresennol. Dyna fydd yn rhoi gwybod i chi ble i gychwyn. Fel arall mae peryg y byddwn yn cefnogi pobl ifanc o safbwynt gwahanol a all gael ei yrru gan yr hyn yr ydym ni yn ei feddwl sydd orau iddyn nhw, a fydd, er ei fod am y rhesymau gorau, yn golygu na fydd unrhyw newidiadau yn cael eu cynnal ac y byddan nhw'n aml yn mynd yn ôl at eu hymddygiad blaenorol. Rhaid i'ch cefnogaeth a'ch dull fod yn gytbwys a chanolbwyntio ar yr hyn sydd ei angen, mae'r olwyn isod yn offeryn diagnostig defnyddiol i'ch helpu i wybod ble i ddechrau arni ac i ganolbwyntio eich ymdrechion a'ch ynni. Fel yr amlinellir yn Strategaeth leuenctid yr Alban "mae'r gwaith yn adeiladu ar sefyllfa gyfredol y bobl ifanc". Mae ar bobl ifanc angen cefnogaeth i'w helpu i werthuso effaith a chanlyniadau eu hagweddau presennol a'u hymddygiad a'r cyfeiriad y bydd hynny yn mynd â nhw. Bydd y gweithgareddau yn yr adran hon yn eich helpu i wneud hyn - mae'n dipyn o daith a bydd angen i chi arwain pobl ifanc ar ei hyd o gam i gam.

Amcanion

Bydd y syniadau a'r gweithgareddau isod yn eich helpu i:

- Lunio dealltwriaeth o agweddau ac ymddygiad ariannol pob unigolyn ifanc a'r rôl y mae arian yn ei chwarae yn eu byd.
- Gefnogi pobl ifanc i werthuso eu sefyllfa bresennol yn ariannol a'r cyfeiriad y mae'n eu harwain iddo.
- Gefnogi pobl ifanc i wneud dewisiadau cadarnhaol a gosod nodau ystyrlon yn ymwneud ag arian.

Yr Olwyn

Mae'r olwyn isod yn offeryn diagnostig defnyddiol i'ch arwain ac i roi gwybodaeth am y ffordd y dylech weithio a'ch ymyrraeth. Bydd pob unigolyn ifanc yn wahanol, felly bydd angen i chi addasu eich arferion a'ch ymyrraeth.

Mae'r olwyn mewn dwy ran. Yn gyntaf y cylch glas o amgylch yr ochr allan sef y 3 agwedd o allu ariannol a ddisgrifir yn gynharach yn adran 1. Yn ail yr adran felen y tu mewn sef y dylanwadau mewnol ac allanol sy'n gyrru ymddygiad:

- Sgiliau a gwybodaeth. Y sgiliau emosiynol a gwybyddol sy'n ofynnol i ymwneud â rheolaeth ariannol, a'r wybodaeth sy'n ofynnol i ganfod, deall a gwerthuso gwybodaeth i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.
- Agweddau a chymhelliad. Agweddau yw'r credoau sylfaenol a all gael dylanwad ar ymddygiad. Bydd normau cymdeithasol yn dylanwadu arnynt yn aml. Mae cymhelliad yn cyfeirio at brosesau'r ymennydd sy'n cyfarwyddo ymddygiad, gan gynnwys peirianweithiau awtomatig (anymwybodol) ac ystyriol (ymwybodol ac wedi eu hystyried).
- Cyfle. Mae hyn yn cyfeirio at y ffactorau sydd tu allan i unigolyn a all gael dylanwad ar ei ymddygiad. Gall gynnwys cyfle cymdeithasol (h.y. y rhwydweithiau sydd gan bobl, gan gynnwys eu cyfeillion a'u teulu) a'r cyfleoedd ffisegol y maen nhw'n agored iddyn nhw (er enghraifft, yr ardal maen nhw'n byw ynddi neu'r dechnoleg sydd ganddyn nhw i'w defnyddio).

© Developing Youth Practice Ltd

Datganiadau Pecyn Offer YPAM



Sut y gallwch ddefnyddio'r olwyn

Gall unigolyn ifanc fod yn cael trafferth ag arian ac yn methu talu'r biliau, neu heb ddigon i dalu am ei fwyd yn wythnosol. Yr agwedd allweddol o allu ariannol (y cylch glas allanol ar yr olwyn) y mae angen i ni ganolbwyntio arno yma 'cadw llygad ar arian' y Cwestiwn nesaf yw 'pa adran fewnol (oren ar yr olwyn) sy'n cael y dylanwad mwyaf ar eu hymddygiad?' Mae'n dibynnu i raddau helaeth ar yr unigolyn ifanc yn y sefyllfa hon. Os bydd yn gwybod bod hyn yn broblem ac am wneud rhywbeth am y peth yna canolbwyntiwch ar: Sgiliau a gwybodaeth h.y. ar sut i lunio cyllideb ac olrhain gwariant. Os na fydd yn gweld hyn yn broblem, efallai ei fod yn dal i fynd allan hefo'i ffrindiau a chael hwyl yn hytrach na gwneud rhywbeth am y peth, yna bydd angen i chi ganolbwyntio ar: agweddau a chymhelliant h.y. pam llunio cyllideb - beth yw'r manteision? Efallai bod cysylltiad â'r cyfleoedd o'i gwmpas hefyd. Os oes gan ei gyfoedion fwy o agwedd 'byw i'r eiliad' yna bydd hyn yn ddylanwad allweddol. Os yw hyn yn wir gallwch eu cyflwyno i bobl ifanc eraill sydd wedi canfod ffyrdd o gadw golwg ar eu harian.

Yn yr enghraifft uchod nid oes unrhyw bwrpas mewn gweithio ar ddatblygu sgiliau llunio cyllideb a gwybodaeth os nad oes gan yr unigolyn ifanc ddigon o gymhelliad i fod am wneud hynny. Rhaid i'r newid mewn agwedd a chymhelliad ddigwydd yn gyntaf. Er mwyn cynorthwyo i wneud i hyn ddigwydd, meddyliwch beth fydd yn cymell a dylanwadu ar y bobl ifanc yr ydych yn gweithio hefo nhw; bydd rhai o'r syniadau MINDSPACE isod yn helpu i gael dylanwad ar ddewisiadau a chynyddu'r cymhelliad.

Ar ddechrau'r adrannau gweithgaredd dilynol rydym wedi ychwanegu olwyn ac amlygu'r agwedd o allu ariannol y rhoddir sylw iddi yn yr adran. Rydym wedi gwneud hyn mewn llythrennau inc trwm o amgylch tu allan yr olwyn. Cofiwch fod pob un o'r adrannau mewnol yn berthnasol bob amser, a bydd sut i ddewis i ennyn diddordeb pobl ifanc yn amrywio.

‘Mindspace’ Beth yw Hwn a Sut y Gall Ein Helpu?

Er mwyn cefnogi pobl ifanc iddyn nhw ddod yn fwy galluog yn ariannol mae’n bwysig deall beth sy’n eu cymell ac yn dylanwadu arnyn nhw. Nid mwy o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau yw’r stori i gyd. Bydd y fframwaith ‘Mindspace’ isod yn eich helpu i wneud hyn. Mae’r holl agweddau wedi eu cysylltu â llythyren yn y gair ‘Mindspace’ Rydym wedi amlinellu’r cysyniadau allweddol isod gyda rhai syniadau ac enghreifftiau sut y gallwch ei ddefnyddio yn eich gwaith hefo pobl ifanc.

> Ni ddylid anghofio elfen seicolegol addysg ariannol, yn arbennig wrth geisio cael dylanwad ar ganlyniadau ymddygiad.

Behavioural Economics and the Psychological Aspect of Financial Education (Soman, Dilip (2011) Cyflwyniad yn y Gynhadledd Llythrennedd Ariannol OECD-FCAC yn Toronto, Canada)

M – (Messenger) Negesydd - Cawn ein dylanwadu’n fawr gan bwy sy’n dweud wrthym. A yw’r unigolyn yn rhywun ‘run fath â fi? Neu a yw’n arbenigwr cydnabyddedig?

Defnydd ymarferol: Defnyddiwch yr unigolyn neu sianel orau i ennyn diddordeb y bobl ifanc. Mewn gwaith ieuenctid y berthynas yw’r sylfaen i bopeth. *Ar bwy y bydd pobl ifanc yn gwrando a gyda phwy y byddan nhw’n barod i ymwneud? A oes gennych chi bobl ifanc y gellid eu hyfforddi fel addysgwyr cymheiriaid?* **Er enghraifft** gall hyfforddi cyfryngwyr yr ymddiriedir ynddynt mewn sgiliau gallu ariannol olygu bod negeseuon allweddol yn fwy tebygol o gyrraedd pobl ifanc gan fod ganddyn nhw berthynas yn barod. *“Dim ond pan fyddan nhw’n gwybod ei fod o bwys ganddyn nhw y mae o bwys ganddyn nhw beth ydych chi’n ei wybod”, William Glasser, Choice Theory.*

I – (Incentives) Cymhelliant - Llunnir ein hymatebion i gymhellion gan lwybrau byr meddyliol rhagweladwy fel osgoi colledion yn gryf.

Defnydd ymarferol: Er mwyn newid ymddygiad mae’n rhaid i bobl ifanc weld beth sydd yn y peth iddyn nhw. Helpwch bobl ifanc i weld y manteision amlwg, fframiwch y rhain fel cymhelliad iddyn nhw. A allwch chi ddatblygu gweithgareddau sy’n helpu pobl ifanc i weld yr enillion a’r colledion o ymddwyn mewn ffordd benodol? Cofiwch fod ein hangen i osgoi colled yn aml yn fwy grymus na’n dymuniad i ennill. Dyna pam fod tystiolaeth yn dangos nad yw cynyddu cyflog rhywun yn ymddangos yn gymhelliad mawr i wella perfformiad, ond mae ei dorri yn anghymhelliad mawr. **Er enghraifft** os byddan nhw am gael pâr newydd o esgidiau ac nad oes ganddyn nhw’r holl arian, helpwch nhw i ddeall beth fydd cyfanswm y gost petai’n rhaid iddyn nhw fenthyca’r arian. Fe allai’r esgidiau fod wedi treulio’n ddim cyn iddyn nhw orffen talu’r benthyciad. Felly efallai y bydden nhw’n gallu cynilo arian a benthyca llai. Seiliwch eich dadl ar yr hyn y bydden nhw’n ei golli yn hytrach na’r hyn y bydden nhw’n ei ennill.

Rhan arall o gymhelliant yw’r duedd naturiol i ddewis manteision bychain yn awr yn hytrach na manteision mwy yn nes ymlaen; mae gwyddonwyr ymddygiad yn galw hyn yn ‘ddisgownt hyperbolig’. Os byddaf yn cael dewis rhwng cael £10 yn fy llaw heddiw neu £12 mewn 7 diwrnod rwyf yn fwy tebygol o gymryd y £10 yn awr. Ond, os byddaf yn cael cynnig £10 mewn 7 diwrnod neu £12 mewn 8 diwrnod, rwyf yn fwy tebygol o aros y diwrnod ychwanegol. **Er enghraifft** ceisiwch ofyn i blentyn a fyddai’n hoffi un darn o felysion heddiw neu dri fory, mae’n debygol iawn y bydd yn dewis yr un yn awr. Gofynnwch i bobl ifanc roi enghreifftiau yn eu bywydau eu hunain

© Developing Youth Practice Ltd

o adegau pan fyddant wedi ymddwyn fel hyn. Beth, os rhywbeth, all fod wedi dylanwadu arnyn nhw i ymddwyn yn wahanol?

N – (Norms) Normau - Mae'r hyn y mae eraill yn ei wneud yn cael dylanwad mawr arnom.

Defnydd ymarferol: Fel y mae pob gweithiwr ieuenctid yn gwybod, mae'r hyn y mae eu cymheiriaid "pobl 'run fath â fi" yn ei wneud yn cael dylanwad mawr arnyn nhw. Defnyddiwch storïau am y modd y mae pobl ifanc wedi gwneud newidiadau. *Sut allwch chi harneisio dymuniad naturiol pobl ifanc i "fod yr un fath" i ddylanwadu ar eu hymddygiad? Ceisiwch gael y bobl ifanc i feddwl beth sy'n digwydd i bobl na fyddan nhw'n cael eu gweld fel rhai sydd 'yr un fath' (eu herlid, eu bwlio, neu eu hedmygu efallai?). A ydyn nhw wedi cael eu trin felly? Sut oedd hynny yn gwneud iddyn nhw deimlo?* **Er enghraifft** yn hytrach na phrynu potel o gôc am £1.20 y dydd o beiriant gwerthu yn yr hostel oherwydd bod pawb arall yn gwneud, fe wnaeth un unigolyn ifanc arbed £5 yr wythnos trwy brynu diodydd mewn caniau mewn bylc gyda ffrindiau yn yr archfarchnad leol, mae hynny erbyn hyn wedi mynd yn 'norm'. **Daw enghraifft arall** o economeg ymddygiad o'r diwydiant gwestai. Fe wnaeth gwesty newid hysbysiad yn eu hystafelloedd yn gofyn i bobl ail ddefnyddio eu tyweli, i un oedd yn awgrymu bod y rhai oedd yn yr ystafell cynt wedi ail ddefnyddio eu tyweli – fe wnaethant weld cynnydd o 33% yn y tyweli oedd yn cael eu hail ddefnyddio.

D – (Default) Rhagosodiadau - Rydym yn dueddol o "fynd hefo'r llif" o ddewisiadau wedi eu rhagosod.

Defnydd ymarferol: Defnyddiwch y dewisiadau diofyn i annog pobl i weithredu i newid. Pa gynhyrchion sydd â dewisiadau diofyn sy'n annog agweddau ac ymddygiad gwahanol? Gofynnwch i'r bobl ifanc feddwl pa agweddau diofyn allai eu helpu i reoli eu harian yn fwy effeithiol. **Er enghraifft:** Mae rhai cyfrifon banc yn anfon neges testun yn nodi eich balans yn ddyddiol, gall hyn helpu rhywun ifanc i gadw llygad pan na fyddai fel arall. Pan fyddwch yn cael benthyciad mewn undeb credyd mae rhan o'r ad-daliad yn mynd i gyfrif cynilo yn ddiofyn, gall hyn helpu i unigolyn ifanc ddechrau cynilo pan na fyddai fel arall.

S – (Salience) Amlygrwydd - Rydym yn cael ein denu at yr hyn sy'n newydd ac yn ymddangos yn berthnasol i ni.

Defnydd ymarferol: Gall rhoi adborth a syniadau perthnasol mewn geiriau y bydd pobl ifanc yn eu deall helpu i'w hannog i reoli arian. *Beth yw'r bachau i chi fedru codi ymwybyddiaeth y bobl ifanc yr ydych yn gweithio hefo nhw am faterion ariannol?* **Er enghraifft** trwy gynilo'r arian i brynu esgidiau newydd yn hytrach na'i fenthyg, mae'n golygu y gallwch gael 3 pâr newydd o esgidiau'r flwyddyn yn hytrach na dim ond un. Trwy wario £5 yn llai yr wythnos ar brydau cario allan mae'n golygu y byddwch yn cynilo £260 y flwyddyn sy'n golygu y gallwch fynd ar wyliau gyda'ch ffrindiau.

P –(Priming) Paratoi - Yn aml mae ciwiau isymwybodol yn dylanwadu ar ein gweithredoedd.

Defnydd ymarferol: Chwiliwch am ffyrdd i siarad am agweddau ar allu ariannol mewn sgyrsiau a gweithgareddau eraill gyda phobl ifanc i helpu i lwytho a pharatoi eu hagweddau a'u hymddygiad. *Pa ddylanwadau eraill all pobl ifanc fod yn agored iddyn nhw a all gael effeithiau positif neu negyddol? Sut allwch chi helpu pobl ifanc i ddod yn fwy gwydn i ddylanwadau marchnata a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth?* **Er enghraifft** bydd sôn am arbed arian ar gostau bwyd yn ystod sesiwn goginio yn helpu i ddylanwadu ar agweddau pobl ifanc at gynilo. Gall hyn weithio yn dda cyn sesiwn llunio cyllideb. **Enghraifft ddefnyddiol arall** yw sôn am "leoli cynnyrch" mewn ffilmiau a rhaglenni teledu – beth mae'r hysbysebwyr yn ceisio ei wneud? Gofynnwch iddyn nhw feddwl beth sydd yn eu meddiant, dillad, esgidiau rhedeg, ffonau ac ati. Beth wnaeth ddylanwadu arnyn nhw i'w prynu? A oedd yn rhywbeth yr oedd arnyn nhw ei angen ac os felly a oedd dewis arall rhatach? Os na wnaethon nhw brynu'r dewis rhatach pwy neu beth oedd yn dylanwadu arnyn nhw?

A – (Affect) Effeithio - Gall ein cysylltiadau emosiynol ddylanwadu'n rymus ar ein gweithredoedd.

Defnydd ymarferol: Cyflwynwch ganlyniadau mewn modd sy'n ymwneud â theimladau neu ddylanwadau penodol ar ymddygiad. *A ydych yn deall cysylltiadau emosiynol sydd gan y bobl ifanc yr ydych yn gweithio gyda nhw am arian? A allwch chi harneisio'r emosiynau hynny i'w helpu i ddatblygu gwell arferion ariannol?* **Er enghraifft** i helpu i gynyddu ymwybyddiaeth am effaith dyled, gall helpu sôn am effaith negyddol peidio ag ymdrin â phroblemau yn fuan. Gall rhent heb ei dalu arwain at ôl-ddyled, ac os na fydd yn cael ei datrys gall arwain at golli eich cartref a mynd yn ddigartref.

C – (Commitment) Ymrwymiadau Rydym yn ceisio bod yn gyson â'n haddewidion cyhoeddus. *Os byddwn yn gwneud ymrwymiad cyhoeddus i wneud rhywbeth rydym yn llawer mwy tebygol o gadw ato.*

Defnydd ymarferol: Rhowch anogaeth i bobl ifanc ymrwymo i weithred neu ymddygiad a gwnewch yn siŵr eu bod yn gwybod y byddwch yn eu holi am y peth wedyn. Gosodwch dargedau a nodau realistig, gorau po gyntaf y gall pobl ifanc weithredu ar y rhain. *A allwch chi helpu'r bobl ifanc yr ydych yn gweithio hefo nhw i osod nodau a gwneud ymrwymiad i gadw atyn nhw?* **Er enghraifft** defnyddiwch y gweithgaredd gosod nod goleuadau traffig sy'n ddiweddarach yn yr adran hon. Gofynnwch iddyn nhw ddweud yn uchel beth yw pob cam y maent am ei wneud a phryd, ble a sut y byddant yn ei wneud.

E – (Ego) Hunan falchder Rydym yn gweithredu mewn ffyrdd sy'n peri inni deimlo'n well amdanom ein hunain.

Defnydd ymarferol: Mae'n bwysig adeiladu'r gred mewn pobl ifanc y gallan nhw ddod yn fwy galluog yn ariannol. Bydd yn bwysig hefyd eu bod yn credu y byddan nhw'n dal i deimlo'n dda amdanyn nhw'u hunain a chael yr hyn y maen nhw ei eisiau, mewn ffyrdd sy'n costio llai neu am ddim. *Sut gallwch chi harneisio'r angen hwn er mwyn cefnogi pobl ifanc i deimlo'n dda am y ffordd y maen nhw'n rheoli eu harian?* **Er enghraifft** mae'r gweithgareddau hanfodol a heb fod yn hanfodol yn adran 7 yn rhoi llawer o gyfleoedd i bobl ifanc rannu'r ffordd y gallan nhw leihau eu taliadau ond ddal i ganfod ffyrdd i wneud iddynt deimlo'n dda. Rhannodd un unigolyn ifanc ei fod bob amser yn siopa ar amser penodol o'r dydd pan fydd y pethau sydd bron â mynd tu hwnt i'w dyddiad ar werth, mae'n teimlo fel ei fod yn tretio ei hun ond mae'n arbed llawer o arian.

Am ragor o wybodaeth am Mindspace gweler Galluogrwydd Ariannol y Deyrnas Unedig, ar wefan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, Atodiad 2.

https://www.moneyadviceservice.org.uk/cy/static/galluogrwydd-ariannol-y-du

Trwy gydol y pecyn offer hwn chwiliwch am y pwyntiau adolygu Mindspace – bydd hyn yn rhoi syniadau i chi sut y gallwch ddefnyddio ein dealltwriaeth o egwyddorion Mindspace i gael y mwyaf allan o'n gweithgareddau. Nid ydynt yn holl gynhwysol, wrth gynllunio unrhyw weithgaredd, adolygwch yr adran Mindspace a meddyliwch sut y gallwch gynnwys cwestiynau, neu siapio'r gweithgaredd, i gynnwys cymaint o agweddau ag sy'n bosibl.

> Roedd y syniadau am agweddau a meddyliau sydd tu ôl i'r ffaith fod gan bobl ifanc broblemau ariannol yn ddefnyddiol iawn, fe fyddaf yn mynd ati i wneud pethau mewn ffordd wahanol yn awr.
>
> *Uwch Gynghorydd Tai, Cyngor Dinas Bryste*

© Developing Youth Practice Ltd

51 Gweithgaredd - Sut Mae Adnabod Rhywun Sydd Yn Cadw Rheolaeth Ar Ei Arian?

Beth yw hyn?
Gweithgaredd creadigol i unigolyn neu grŵp i ddechrau archwilio agweddau ac ymddygiad pobl ifanc yn ariannol a'r rôl y mae'n ei chwarae yn eu bywydau.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Papur a beiros (mae leinin papur wal yn ddelfrydol ar gyfer creu lluniau mawr).

Sut ddylwn i redeg y gweithgaredd?
Cam 1) Cael pobl ifanc i weithio ar un llun neu eu rhannu yn grwpiau llai neu barau.

Cam 2) Gofyn i bobl ifanc "feddwl am rywun y mae'n nhw'n ei adnabod yn bersonol neu rywun enwog y maen nhw'n meddwl sy'n gallu rheoli ei arian. Nid oes raid i hwn neu hon fod yn rhywun â llawer o arian ond yn rhywun sy'n dda am sicrhau bod yr arian sydd ganddyn nhw yn eu helpu i wneud a chael y pethau sydd arnyn nhw eu heisiau a'u hangen."

Cam 3) Yna gofynnwch iddyn nhw "dynnu llun o'r unigolyn yma yn ei dŷ neu allan yn rhywle lle bydden nhw'n treulio llawer o amser. Meddyliwch sut maen nhw'n edrych? Be fydden nhw'n ei wisgo? Pa fynegiant fyddai ganddyn nhw ar eu hwyneb? Beth fydden nhw'n ei wneud? Sut fydden nhw'n teimlo tu mewn? Ble fydden nhw'n byw? Ble fydden nhw'n treulio eu hamser?"

Cam 4) Adolygu - Ar ôl i'r gweithgaredd ddod i ben gofynnwch a oes unrhyw un wedi ei synnu gan rywbeth yn y llun. A oedd yn ddefnyddiol? A wnaethon nhw ganfod rhywbeth newydd a allai fod o help iddyn nhw? Gellir cadw'r llun yma i'w archwilio ymhellach mewn gweithgareddau a sesiynau yn y dyfodol.

10 munud

Pwyntiau adolygu MINDSPACE

Negesydd – Pwy ydych chi'n feddwl allai fod wedi dylanwadu arnyn nhw? Pam?

Cymhelliant – Pa fath o gymhellion all fod wedi helpu'r unigolyn yma i reoli ei arian?

Ymrwymiadau - Pa ymrwymiadau cyhoeddus all yr unigolyn hwn fod wedi eu gwneud i'w helpu i reoli ei arian yn fwy effeithiol?

52 Gweithgaredd - Cytuno ac Anghytuno

Beth yw hyn?
Gweithgaredd symud o gwmpas i ddechrau archwilio agweddau ac ymddygiad ariannol pob unigolyn ifanc a'r rôl y mae arian yn ei chwarae yn eu bywydau. Mae hefyd yn gyfle i chwalu unrhyw chwedlau a all fod yn eu mysg.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Rhestr wedi ei pharatoi o ddatganiadau i'w defnyddio, gall y rhain amrywio gan ddibynnu ar y materion yr ydych am eu harchwilio gyda'ch pobl ifanc - gweler y rhestr isod am rai syniadau
- Digon o le i symud o gwmpas
- Papur siart fflip, beiros a Blutack

Sut ddylwn i redeg y gweithgaredd?
Cam 1) Gludwch 2 daflen o bapur i fyny ar y waliau ar ddau ben yr ystafell, un yn dweud 'cytuno' a'r llall yn dweud 'anghytuno'. Dangoswch y rhain i'r grŵp.

Cam 2) Esboniwch "Dwi'n mynd i ddarllen rhai datganiadau er enghraifft.....'. Meddyliwch am y datganiad a phenderfynu a ydych yn cytuno neu'n anghytuno. Os byddwch yn cytuno sefwch draw acw," pwyntiwch at y pen cytuno o'r ystafell "ac os byddwch yn anghytuno sefwch draw acw," pwyntiwch at ben anghytuno'r ystafell.

Cam 3) Darllenwch bob datganiad a chael pobl i benderfynu a symud. Os bydd pobl yn hofran yn y canol ceisiwch eu cael i ddangos eu hochr, ond peidiwch â gorfodi penderfyniad pobl.

5-10 munud

Pwyntiau adolygu MINDSPACE

Normau – Faint o ddylanwad y mae'ch cyfoedion wedi ei gael arnoch chi? (Er enghraifft agwedd at gael cyfrif banc, defnyddio benthyciad diwrnod cyflog).

Amlygrwydd – Faint o ddylanwad y mae'r hyn sy'n ymddangos yn newydd a pherthnasol wedi ei gael arnoch? (Mae Wonga yn enghraifft dda yma o syniad newydd yn dod yn boblogaidd yn gyflym oherwydd ei fod yn bodloni angen ar yr eiliad).

Dyma rai syniadau ar gyfer datganiadau:

- Mae'n hanfodol cynllunio eich gwariant bob wythnos i sicrhau bod gennych ddigon o arian ar gyfer popeth sydd arnoch ei angen
- Nid yw'n ddiogel cludo arian parod, ac fe ddylai bod cyfraith i wahardd hynny
- Mae banciau yn fannau cyfeillgar yn llawn o bobl sydd am helpu
- Mae'n bwysig iawn cael cyfrif banc os byddwch yn ceisio cynilo
- Mae'n well benthyca arian gan eich ffrindiau na banciau neu fenthycwyr ar y trothwy
- Ni ddylai cyfrifon banc adael i chi fynd i orddrafft
- Mae'n well anwybyddu unrhyw lythyrau am ddyledion sydd heb eu talu, fedran nhw ddim eich gorfodi i dalu
- Mae Undebau Credyd yn ddewis gwych yn lle banciau
- Mae'n well cynilo ac aros am bethau na benthyg arian
- Mae siopa yn gwneud i chi deimlo'n well os byddwch chi wedi cael diwrnod gwael
- Mae cael yr % APR isaf yn golygu eich bod yn cael y fargen orau ar gynnyrch
- Mae benthyciadau diwrnod cyflog fel Wonga yn syniad da

© Developing Youth Practice Ltd

5.3 Gweithgaredd - Hudol a Hyll Am Arian

Beth yw hyn?
Gweithgaredd symud o gwmpas i ddechrau archwilio agweddau ac ymddygiad ariannol pob unigolyn ifanc a'r rôl y mae arian yn ei chwarae yn eu bywydau.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Lle diogel i symud o gwmpas
- Balwnau
- Siartiau fflip, Blutack a beiros
- Beiros, papur neu gerdyn, Post-its a beth bynnag y gallwch ei ganfod i gysylltu â'r gweithgaredd yr ydych yn ei wneud gyda'r grŵp

Sut ddylwn i redeg y gweithgaredd?
Cam 1) Chwythwch 3 neu 4 balŵn. Gludwch 2 daflen o bapur i fyny ar y waliau ar ddau ben yr ystafell, un yn dweud 'hudol' a'r llall yn dweud 'hyll'. Dangoswch y rhain i'r grŵp.

Cam 2) Esboniwch i'r grŵp "mae rhai pethau yr ydym yn eu hoffi am arian y byddwn ni, ar gyfer y gweithgaredd yma yn eu galw yn 'hudol' a rhai pethau nad ydym yn eu hoffi am arian, y byddwn ni'n eu galw yn 'hyll' ar gyfer y gweithgaredd yma. Yn ystod y gweithgaredd yma byddwn yn cael cyfle i feddwl am y rhain." Fe allai fod o help cael rhai enghreifftiau a fydd yn rhai byw i'r grŵp.

Cam 3) Esboniwch mai "yr amcanion yw i'r grŵp weithio gyda'i gilydd i gadw'r balwnau oddi ar y ddaear, yn ystod y gweithgaredd yma mae'n rhaid i bob unigolyn fynd at bob siart fflip ac ysgrifennu rhywbeth hudol am arian a rhywbeth hyll am arian. Bydd angen i chi ei gymryd yn eich tro fel bod digon o bobl yn y canol i gadw'r balwnau yn yr awyr."

Cam 4) Gwiriwch fod pawb yn deall a dechrau arni. Wrth i'r grŵp gadw'r balwnau yn yr awyr mae'n syniad da dal i ofyn iddyn nhw ysgrifennu pethau ar y siartiau fflip. Rhowch ddigon o amser i bawb ysgrifennu rhywbeth ond peidiwch â gwneud y gweithgaredd yn rhy hir gan y bydd yn colli egni; mae'n syniad da cyfrif i lawr at y diwedd.

Cam 5) Adolygu - Unwaith y bydd y gweithgaredd ar ben gofynnwch i bawb edrych ar y taflenni a gwneud unrhyw sylwadau sy'n amlwg iddyn nhw. Unrhyw syrpreis? Cadwch y drafodaeth i fynd am gyn hired ag sydd gennych a chyn hired ag y mae'n ddefnyddiol. Dewiswch rai o'r pwyntiau i ehangu arnyn nhw ac i holi mwy o gwestiynau amdanyn nhw.

Pwyntiau adolygu MINDSPACE

Effaith – sut mae ein hemosiynau yn effeithio ar ein teimladau am arian? (yn ymwneud â'r 'hudol' a'r 'hyll').

Hunan falchder – archwilio ymhellach, yn arbennig yng nghyswllt yr hudol – beth allwn ni ei wneud yn wahanol yng nghyswllt arian i wneud i ni deimlo yn dda amdanon ein hunain?

5.4 Cwis Chi ac Arian

Beth yw hyn?
Cwis hwyl i gael pobl i feddwl am ba mor dda ydyn nhw gydag arian ac agweddau y gallan nhw fod angen dysgu mwy amdanyn nhw. Cynlluniwyd y cwis i'w ddefnyddio mewn sefyllfa un i un neu grŵp, ac mae'n offeryn dadansoddi anghenion gwych i chi gael gwybod eu hagweddau presennol a'u hymddygiad ariannol.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Taflen gwis a'r daflen atebion isod
- Beiros

Sut ddylwn i redeg y gweithgaredd?
Cam 1) Gwnewch yn siŵr fod gan bawb gopi o'r cwis a thaflen atebion. Esboniwch "Dyma gwis i chi feddwl pa mor dda ydych chi hefo arian. Fe fyddaf i'n darllen y cwestiynau a byddwch chi'n rhoi tic yn y blwch sy'n gweddu orau. Does yna ddim atebion cywir nac anghywir, ewch am yr un sy'n dod i'ch pen."

Cam 2) Gallwch addasu'r cwis ar sail pwy yr ydych yn gweithio gydag ef a gall fod yn fan cychwyn rhagorol ar gyfer sgyrsiau. Gellir ail-ymweld â'r cwis mewn sesiynau mentor yn y dyfodol a'u hailadrodd i adolygu newidiadau.

Cam 3) Mewn grŵp mawr, ar ôl i bawb orffen, gallwch gael pobl i siarad am eu hatebion mewn parau. Gall hyn arwain at y gweithgaredd gosod nodau isod. tudalen 5.5.

Awgrym da

Byddwch yn barod i unigolyn ifanc roi sgôr dda iawn iddo'i hun am lawer o bethau y byddech chi'n dweud 'angen gweithio ar hyn'. Peidiwch â cheisio cael y person ifanc i newid ei ateb i weddu i'ch barn chi. Y rhan bwysig o'r gweithgaredd hwn yw ei fod yn eich helpu i ddeall eu barn am eu sefyllfa bresennol. Bydd hyn yn rhoi gwybodaeth bwysig i chi am ble y mae angen i chi ganolbwyntio eich gwaith a pha mor barod i newid yw'r unigolyn ifanc. Efallai eich bod yn gweithio gyda phobl ifanc sydd 'yn barod am newid' neu sydd, efallai, mewn argyfwng (h.y. yn drallodus, gweler isod). Mae hyn yn golygu eu bod yn gwybod bod problem neu nad yw rhywbeth yn gweithio a'u bod am wneud rhywbeth am y peth. Yn y sefyllfa yma, eich rôl chi fydd eu cefnogi a'u galluogi i gael yr hyn sydd arnyn nhw ei eisiau. Ar y llaw arall, efallai eich bod yn gweithio gyda phobl ifanc nad ydyn nhw'n 'barod am newid'. Maen nhw'n gyfforddus ac yn teimlo fod popeth yn iawn fel y mae. Yn y sefyllfa yma, eich rôl chi yw galluogi'r bobl ifanc yma i fod am gael rhywbeth gwahanol. Mae'r dywediad isod yn ceisio costrelu'r hyn yr ydych chi, fel gweithiwr cefnogi, yn ceisio ei wneud:

> "Rhoi cysur i'r rhai trallodus neu beri trallod i'r rhai cysurlon!"

Ar ôl i chi sefydlu eich man cychwyn yna fe fyddwch yn gwybod ble y byddwch yn mynd. Peidiwch â gwthio pethau yn rhy fuan, gan y bydd pobl ifanc naill ai yn gwthio yn ôl neu'n gwthio i ffwrdd ac fe allech golli'r berthynas dda sydd rhyngoch.

© Developing Youth Practice Ltd

Cwis Chi ac Arian

Pa mor dda ydych chi am:
1. Gadw llygad ar eich arian – beth sy'n dod i mewn, beth sy'n mynd allan ac ar beth yr ydych yn gwario?
2. Rheoli eich gwariant, fel eich bod yn gwneud yn si□r eich bod yn prynu'r pethau pwysig yn gyntaf a hefyd ddim yn mynd i ddyled?
3. Gwybod pa filiau sy'n rhaid eu talu yn gyson fel rhent a biliau ffôn, a'r costau y mae byw yn eich cartref eich hun yn eu tynnu?
4. Cael y fargen orau ar bethau fel cytundeb ffôn symudol, prynu bwyd yn wythnosol ac ati?
5. Cynilo arian ar gyfer y pethau yr ydych am eu prynu yn y dyfodol neu rhag ofn y bydd arnoch angen arian ar gyfer argyfwng?
6. Gwybod beth all ddigwydd os byddwch yn mynd i ddyled neu os na fyddwch yn cynilo at y dyfodol?
7. Gwybod ble i fynd i gael gwybodaeth a chyngor ar faterion ariannol, gan gynnwys cyngor ar reoli dyled?

Cwis Chi ac Arian: Taflen Ateb

Rydym i gyd yn well am wneud rhai pethau ariannol nag eraill - ticiwch y blychau a gweld eich sgôr.

Sgôr	1	2	3	4	5
Wynebau	☺ ☺	☺	😐	☹	☹ ☹
Sylwadau	Da Iawn	Da	OK	Gallwn fod yn well	Angen gweithio ar hyn
1.					
2.					
3.					
4.					
5.					
6.					
7.					
Wynebau	☺ ☺	☺	😐	☹	☹ ☹

© Developing Youth Practice Ltd

5.5 Gweithgaredd – Goleuadau Traffig

Beth yw hyn?
Ffordd weithredol a chreadigol o ddechrau gosod nodau ystyrlon am arian sydd wedi eu cynllunio i droi dyheadau yn weithredu.

Beth sydd arnaf ei angen?
Taflenni gosod nodau fel isod a beiros.

Sut ddylwn i redeg y gweithgaredd?
Cam 1) Gan adeiladu ar rai o'r syniadau o weithgareddau blaenorol, yn arbennig y gweithgareddau dadansoddi angen, gwahoddwch unigolyn ifanc i feddwl am rywbeth ar gyfer pob un o'r goleuadau. Rhywbeth y mae am beidio ei wneud (coch) er enghraifft, stopio cerdded heibio McDonalds ar y ffordd adref, rhywbeth i ddechrau ei wneud (melyn) er enghraifft, dechrau siopa bwyd gyda Sarah oherwydd ei bod hi'n dda iawn am gael ei holl fwyd am yr wythnos am £10, a rhywbeth i ddal ati i'w wneud (gwyrdd) er enghraifft, dal i fynd i weld Nain bob dydd Sul i gael cinio achos mae'n braf ei gweld ac mae hi'n fy nysgu sut i goginio.



Awgrymiadau defnyddiol ar osod nodau

Rhaid i nodau fod yn:

- Syml a chyraeddadwy
- Mesuradwy, manwl, cywir
- Ar unwaith – angen medru cychwyn ar unwaith
- Cynhwysol – mae'r person ifanc yn rhan o'i greu a'i gyflawni
- Rhai y gellir eu hailadrodd
- Un y bydd yn ymroi iddo
- Yn gadarnhaol – cynllun dechrau, nid cynllun stopio

Pwyntiau adolygu MINDSPACE

Rhagosodiad - Yr hyn all helpu i'w gwneud hi'n haws i chi gadw at y cynllun – er enghraifft os yw'n fater o dalu biliau ar amser – Debydau Uniongyrchol?

Paratoi – Beth yn eich isymwybod all eich atal rhag llwyddo? Er enghraifft hysbysebion, arogl coffi, eich amgylchedd?

Hunan falchder – Sut fyddwch chi'n teimlo os byddwch yn llwyddo? Sut fyddwch chi'n teimlo os byddwch yn methu?

6. Sut i gychwyn arni

Trosolwg

Weithiau mae'n anodd gwybod sut i ddechrau siarad efo pobl ifanc ynglŷn ag arian; gall fod yn bwnc mor sych ac un i'w osgoi ganddynt. Mae'r adran hon yn cynnwys amryw o ffyrdd i geisio cychwyn y trafodaethau hyn mewn modd hwyliog a difyr. Datblygwyd nifer o'r syniadau a'r gweithgareddau gan ddulliau a gweithgareddau sy'n ysgogi pobl ifanc ac sy'n llwyddo mewn ffordd hwyliog i wneud iddynt gymryd sylw.

Amcanion

Bydd y syniadau a'r gweithgareddau isod yn eich helpu i:

- Gael pobl ifanc i ymgysylltu mewn materion sydd ynghlwm ag arian mewn ffordd hwyliog a chreadigol
- Canfod unrhyw beth ynglŷn â'u sefyllfa bresennol all sbarduno sgwrs am eu cynlluniau ariannol i'r dyfodol
- Cychwyn deall agweddau ac ymddygiad ariannol cyfredol pob unigolyn ifanc a'r rôl y mae arian yn ei chwarae yn eu bywydau.

Gweithgareddau

Isod cynigir rhai gweithgareddau i chi roi cychwyn arni, mae'n bwysig ystyried anghenion a galluoedd y grŵp wrth i chi ddewis gweithgaredd. Gellir addasu unrhyw un o'r gweithgareddau yn y pecyn cymorth hwn i weithio â gwahanol grwpiau ac un i un.

61 Gweithgaredd - Bomiau a Thariannau

Beth yw hyn?
Gweithgaredd hwyliog a llawn egni ar gyfer grŵp, yn gysylltiedig ag arian.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Digon o le diogel i symud o gwmpas

Sut ddylwn i redeg y gweithgaredd?
Cam 1) Codwch bawb ar eu traed a gofyn iddynt "ddewis 2 o bobl o'r grŵp; peidiwch â gadael i neb arall wybod pwy ydyn nhw. Ar gyfer y gweithgaredd hwn bydd un ohonynt yn fom a'r llall yn darian."

Cam 2) Egluro "pan fydda i yn gweiddi 'ewch' pwrpas y gêm yw cadw'ch tarian rhyngoch chi a'ch bom heb ddatgelu pwy ydyn nhw. Bydd angen i chi barhau i symud er mwyn cael eich diogelu gan y darian a bydd pawb arall yn symud hefyd."

Cam 3) Gwnewch yn siŵr eich bod yn gosod ffin i bawb aros oddi mewn iddi, a dywedwch wrth bobl y byddwch yn cyfrif i lawr at sero a bydd angen i bobl sefyll yn llonydd bryd hynny a stopio.

Cam 4) Gwiriwch fod pawb yn deall a gwaeddwch "ewch".

Cam 5) Parhewch â'r gweithgaredd am rai munudau neu hyd nes y teimlwch y dylid stopio. Cyfrwch i lawr o 10 i 1 ac yna gwaeddwch 'stop'.

Cam 6) Gofynnwch "Pwy sy'n ddiogel y tu ôl i darian?" ac yna pwyntiwch at eich tarian a phwyntiwch at eich bom."
Gallwch gynnal hyn ragor o weithiau gan gael pawb i ddewis bom a tharian wahanol.

Cam 7) Adolygu - Wedi i chi orffen gofynnwch i bobl am eu barn ar y gweithgaredd a beth yw'r gymhariaeth ag arian? Gofynnwch i bobl feddwl beth yw'r bomiau a beth yw'r tariannau mewn perthynas ag arian? Sut mae aelodau eich grŵp yn chwythu eu harian yn deilchion a sut maent yn ei ddiogelu a'i gadw?

3-10 munud

Pwyntiau adolygu MINDSPACE

Cymhelliant – Pa dariannau fyddai o gymorth wrth geisio osgoi'r temtasiwn pleser?

Normau – Petai un o'r bomiau yn, neu'n medru cynrychioli'r angen i fod fel pawb arall, treuliwch amser yn trafod hyn. Sut allai aelodau o'r grŵp osgoi hyn? A oes ffyrdd o fod fel pawb arall sydd yn costio llai? A oes pethau y gallant eu gwneud gyda'i gilydd i atal pwysau gan gyfoedion a gan hysbysebion?

Hunan falchder – Pa dariannau fyddai o gymorth iddynt fedru cael hunan-barch?

6.2 Gweithgaredd - Arian, Arian, Arian

Beth yw hyn?
Gweithgaredd hwyliog a llawn egni ar gyfer grŵp, yn gysylltiedig ag arian.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Digon o le diogel i symud o gwmpas
- Arian siocled, fferins wedi'u lapio neu ddarnau punt go iawn

Sut ddylwn i redeg y gweithgaredd?
Cam 1) Codwch bawb ar eu traed a rhoi darn o arian siocled i bawb, gan ofyn iddynt i beidio â'i fwyta eto!

Cam 2) Eglurwch "rhowch yr arian siocled yng nghledr eich llaw agored a rhowch eich llaw y tu ôl i'ch cefn. Rhaid i'ch llaw aros yn agored drwy gydol y gêm" gallwch helpu'r grŵp drwy ddangos sut i wneud hyn wrth siarad.

Cam 3) Eglruwch "Y nod yw cael cymaint â phosib o arian siocled pobl eraill, gan ddiogelu eich un chi. Rhaid i unrhyw arian siocled a gewch gael ei roi yng nghledr eich llaw gyda'r darn gwreiddiol hefyd. Os collwch eich arian siocled chi'ch hun cewch aros yn y gêm drwy geisio cael arian gan eraill. Os bydd darn o arian yn syrthio i'r llawr gall unrhyw un ei fachu."

Cam 4) Gwnewch yn siŵr eich bod yn gosod ffin i bawb aros oddi mewn iddi, a dywedwch wrth bobl stopio pan fyddwch yn gweiddi "stop".

Cam 5) Gwiriwch fod pawb yn deall a gwaeddwch "ewch".

Cam 6) Parhewch â'r gweithgaredd am rai munudau neu hyd nes y teimlwch y dylid stopio, a gwaeddwch "stop". Galwch bawb yn ôl i ffurfio cylch gan ofyn i bawb ddangos faint o arian sydd ganddynt. Gofynnwch i bawb rannu'r darnau siocled ymysg pawb. Rhannwch y cyfoeth! Gallwch gynnal y gêm unwaith eto ond y tro hwn gyda'r siocled arian yn nwylo pobl yn agored ac o'u blaenau.

Cam 7) Adolygu - gofynnwch i bobl am eu barn ar y gweithgaredd a beth yw'r gymhariaeth ag arian? Gofynnwch i bobl feddwl am y pethau sy'n cymryd eu harian? Sut all pobl ddiogelu eu harian? Gall y gweithgaredd hwn arwain hefyd at sgyrsiau ynglŷn â materion cydraddoldeb ac anghydraddoldeb oherwydd bydd gan rai pobl lawer iawn o arian ac eraill heb ddim. Gallwch ofyn "sut mae hynny'n teimlo? A yw hynny'n deg? A yw hyn yn debyg i fywyd go iawn? Beth yw teimladau'r rhai sydd wedi cael llawer iawn o arian ynglŷn â rhannu'r arian hwnnw?"

3-10 munud

Pwyntiau adolygu MINDSPACE

Cymhelliant – siarad am deimladau ynghylch ennill a cholli arian – beth yw effaith hyn ar ein hymddygiad? Er enghraifft, beth wnaeth pobl er mwyn osgoi colli arian? A oedd hynny'n golygu twyllo? I ba eithafon yr aiff rhai pobl er mwyn medru ennill rhagor?

Hunan falchder – gofynnwch i'r rhai a elwodd am eu teimladau am eu hunain? Beth yw teimladau'r rhai sydd wedi colli allan, am eu hunain? Sut allai hyn effeithio ar ein hymddygiad mewn bywyd go iawn – er enghraifft os collwn ein swydd, neu ein harian?

© Developing Youth Practice Ltd

6.3 Wrth fy modd yn gwario arian ar...

Beth yw hyn?
Gweithgaredd er mwyn cael pawb i gyflwyno ei hun yn sydyn i weddill y grŵp, wedi ei drefnu i gael pobl i feddwl ac i siarad am eu harian.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Papur a phensel i wneud nodyn o hoff bethau a chas bethau

Sut ddylwn i redeg y gweithgaredd?
Cam 1) Gosodwch y grŵp mewn cylch yn sefyll neu'n eistedd.

Cam 2) Eglurwch "mewn munud byddaf yn gofyn i bawb ddweud ei enw a sôn am rywbeth yr ydych wrth eich bodd yn gwario eich arian arno a rhywbeth rydych yn casáu gwario eich arian arno. Fe gewch ychydig o amser i feddwl cyn i ni gychwyn arni". Cadwch lygad ar y grŵp, byddwch yn barod i helpu unrhyw un sy'n cael anhawster.

Cam 3) Gwiriwch fod pawb yn barod ac yna dechreuwch gan ofyn i bawb yn ei dro ddweud ei enw a sôn am rywbeth maent wrth eu boddau'n gwario eu harian arno a rhywbeth maent yn casáu gwario eu harian arno. Weithiau mae'n ddefnyddiol ysgrifennu nodyn o atebion pawb er eich defnydd chi yn unig neu ar siart troi. Gall hyn fod yn ddefnyddiol wrth adnabod themâu a chyfeirio'n ôl mewn sesiynau a thrafodaethau pellach.

Cam 4) Wedi i bawb roi cynnig arni, gan gynnwys chithau hefyd, gofynnwch i'r grŵp a amlygwyd unrhyw themâu? A oes rhai ffeithiau mwynhau a chasáu sy'n gyffredin? Pam fod pobl yn mwynhau gwario ar rai pethau ond nid ar eraill? Fel arfer bydd biliau, ffioedd a threthi'n sgorio'n uchel ar y rhestr 'gasáu', a dillad a gwyliau'n sgorio'n uchel ar y pethau a 'fwynheir'. Dywed rhai pobl nad ydynt yn mwynhau gwario arian ar unrhyw beth!

Pwyntiau adolygu MINDSPACE

Amlygrwydd – Ystyriwch a yw'r pethau sy'n ein denu gan eu bod yn newydd ac yn berthnasol yn cael effaith ar ein dewisiadau gwario?

Paratoi – Pa bethau all ddylanwadu arnom heb i ni sylweddoli hynny hyd yn oed? Er enghraifft, cipolwg sydyn ar hysbyseb Macdonalds ar y bws, rhywun yn sôn am ei ffôn newydd ac ati. Rhowch gymorth i'r bobl ystyried hyn eu hunain.

Hunan Falchder – Sut mae gwario ar y pethau yr ydym yn eu mwynhau yn cael effaith ar ein teimladau, da neu ddrwg? Sut all pobl eto fyth gael y pethau maent yn eu mwynhau am bris rhatach?

6.4 Gweithgaredd - Mae'r Haul Yn Tywynnu Ar...

Beth yw hyn?
Gweithgaredd llawn hwyl sy'n rhoi cymorth i bobl ddod i adnabod ei gilydd ac wedi ei gynllunio i gael pobl i ddechrau meddwl a siarad am arian.

Beth sydd arnaf ei angen?
- ylch o gadeiriau, un yn llai na'r nifer sydd yn y grŵp

Sut ddylwn i redeg y gweithgaredd?
Cam 1) Gofynnwch i'r grŵp eistedd mewn cylch ar gadeiriau, gydag un gadair yn brin. Gyda grŵp o ddeg byddwch angen naw cadair. Mae'r un sydd heb gadair yn sefyll yn y canol, gwirfoddolwch chi i wneud hyn i ddechrau.

Cam 2) Eglurwch "Dwi'n mynd i ddweud 'mae'r haul yn tywynnu ar bawb sydd....' ac ychwanegwch rywbeth ynglŷn ag arian e.e. 'pawb sydd â chyfrif banc'. Os yw'r datganiad yn wir amdanoch chi, rhaid i chi sefyll a bydd angen i bawb sydd yn sefyll gan gynnwys yr unigolyn yn y canol ddod o hyd i sedd.

Cam 3) Gan fod un cadair yn brin, bydd rhywun bob amser yn gorfod sefyll. Rhaid i'r unigolyn sefyll yn y canol a chyhoeddi'r datganiad nesaf "mae'r haul yn tywynnu ar bawb sydd.....", gan ychwanegu rhywbeth arall ynglŷn ag arian e.e. "sydd yn gwario arian ar "fynd allan gyda'u ffrindiau" neu "bawb sydd â chytundeb ffôn symudol", ac unwaith eto bydd pob unigolyn priodol yn sefyll i fyny ac yn gorfod cyfnewid seddau. Efallai y bydd angen i chi awgrymu ambell bwnc i'r rhai sydd yn y canol, gallwch ysgrifennu rhestr ar siart troi y gall pobl ddewis ohonynt.

Cam 4) Gwnewch hyn nifer o weithiau ac yna ychwanegwch "os yw'r unigolyn yn y canol yn dweud 'llawer iawn o arian', ac yna rhaid i BOB UN OHONOM symud i sedd arall, ac ni chewch ond symud i'r sedd agosaf atoch.

5-10 munud

> Dwi nawr yn defnyddio'r gweithgaredd mae'r haul yn dal i dywynnu yn fy sesiynau gwaith grŵp, mae'n ffordd mor arbennig a gwahanol i ddenu pobl ifanc, gellir ei addasu ac mae'n gymaint o hwyl! Mae'r bobl ifanc wrth eu boddau â hyn hefyd!

Swyddog Cynhwysiant Ariannol, Metropolitan Trust

© Developing Youth Practice Ltd

6.5 Gêm Ie Na

Beth yw hyn?
Gweithgaredd llawn hwyl mewn parau neu un i un wedi ei gynllunio i gael pobl i ddechrau meddwl a siarad am arian.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Dim byd penodol, gellir ei gynnal yn unrhyw le

Sut ddylwn i redeg y gweithgaredd?
Cam 1) Mewn grŵp, rhowch bobl mewn parau. Eglurwch "mae hon yn union fel y gêm ie na y mae pobl wedi ei chwarae o'r blaen neu ei gweld ar y teledu efallai."

Cam 2) Gofynnwch i bob pâr benderfynu pwy yw 'A' a phwy yw 'B'. Bydd o gymorth fan hyn i ofyn i bawb sydd yn 'A' i godi eu dwylo ac yna gofyn i bawb sydd yn 'B' wneud yr un fath er mwyn gwirio bod pawb wedi deall.

Cam 3) Eglurwch "bydd pob un ohonoch yn cymryd eich tro yn gofyn cwestiynau i'r llall. Wrth ateb rhaid i chi osgoi dweud ie neu na. Bydd 'A' yn gofyn y cwestiynau yn gyntaf, a rhaid i "B" ateb heb ddweud 'ie' neu 'na'. Mae ysgwyd eich pen yn cyfrif fel 'na' a nodio fel 'ie', felly rhaid osgoi gwneud hynny hefyd. Ni all 'B' oedi neu ailadrodd atebion fel 'wn i ddim, wn i ddim , wn i ddim'! Mae gennych funud wedi i mi ddweud 'ewch' ac yna byddaf yn gofyn i chi gyfnewid rolau. Yna bydd 'B' yn gofyn y cwestiynau a rhaid i 'A' eu hateb. Pan ddaw eich tro i chi i ateb, os byddwch yn dweud ie neu na, peidiwch â phoeni, cyfrwch faint o weithiau y gwnaethoch hynny a dal ati. Trefnwch hyn fel bod pobl yn gofyn cwestiynau sydd yn canfod ychydig yn rhagor am ei gilydd ac am arian. Rhowch rai enghreifftiau a fydd yn addas i'r grŵp.

Cam 4) Gwiriwch fod pawb yn barod ac yna gwaeddwch "ewch" a dechreuwch y cloc. Gadewch i'r gweithgaredd redeg am funud ac yna stopiwch a chyfnewid, cynnal am funud arall ac yna stopio eto. Casglwch bawb at ei gilydd a chael eu sylw.

Cam 5) Gofynnwch i bobl roi eu llaw i fyny os bu iddynt lwyddo i osgoi ateb 'ie' neu 'na'. Gofynnwch iddynt sut y llwyddwyd i wneud hyn.

Cam 6) Adolygu - gofynnwch i'r grŵp am eu barn ar y gweithgaredd a beth yw'r gymhariaeth ag arian? Gofynnwch i bobl feddwl beth yw'r cwestiynau anodd ynghylch arian? Pa bynciau sy'n cael atebion 'ie' a pha rai sy'n cael 'na'? A oes rhai pethau eraill y gallent ddweud 'ie' neu 'na' ar eu cyfer yn fwy aml?

2-3 munud

6.6 Amser Ffilm

Beth yw hyn?
Defnyddio rhannau byrion o ffilmiau i greu sgwrs ynglŷn ag arian.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Dull o ddangos y ffilmiau - gliniadur, neu daflunydd a seinyddion

Sut ddylwn i redeg y gweithgaredd?
Cam 1) Gwyliwch y ffilmiau yn y dolenni isod ymlaen llaw a dewiswch un addas yn ddibynnol ar y math o grŵp yr ydych yn gweithio â nhw.

Cam 2) Dangoswch y fideos o bobl ifanc yn siarad am arian er mwyn annog sgwrs h.y. a ydynt yn cytuno/anghytuno gyda'r hyn a ddywedwyd, beth yw eu barn nhw?

Mae amrywiaeth o bobl yn eu harddegau yn siarad am arian:

www.moneyadviceservice.org.uk/en/categories/teenage-voices-on-first-financial-decisions

Mae'r ffilmiau hyn yn ddefnyddiol i'w defnyddio gyda phobl ifanc sydd hefyd yn rieini:

www.youtube.com/watch?v=LouZUkSdfcc&list=PLzJI8W1q5m7onYQm6VZf13uq43ghWZoVj

5-10 munud

Crynodeb

Mae'r adran hon wedi dangos sut y gallwch addasu gweithgareddau cyfarwydd i bobl ifanc a'u cysylltu â materion ariannol. I wneud y mwyaf ohonynt, fe awgrymwn i chi:

- Addasu gweithgareddau yr ydych eisoes yn eu defnyddio, fe welwch po fwyaf y byddwch yn meithrin eich ymwybyddiaeth ynglŷn â phobl ifanc ac arian, y mwyaf o ddolenni a welwch.
- Gofio bob amser nad oes ateb cywir neu anghywir i'r cwestiynau adolygol, y peth gwerthfawr yw caniatáu'r bobl ifanc roi eu barn ar arian yn eu bywydau, sydd yn rhoi cyfle i chi feithrin eich dealltwriaeth ohonynt.
- Ceisiwch ymgysylltu â'r bobl ifanc yn gyntaf ac yna canolbwyntio ar y dysgu drwy greu'r cysylltiadau ag arian
- Ac, efallai, yn bwysicach na dim, mwynhewch!

© Developing Youth Practice Ltd

7. Arian i mewn ac arian allan – a oes balans?

Trosolwg

Mae cyllidebu yn rhywbeth y gwyddom y dylem ac y gallem ei wneud, ond a ydym yn gwneud hynny? Mewn gwirionedd, ychydig iawn o bobl sydd wrthi er bod amryw o syniadau a gweithgareddau i roi cymorth i bobl lunio cyllideb. Gall cefnogi pobl ifanc i amlinellu'n wirioneddol o ble daw eu harian ac ar beth mae'n cael ei wario, gael effaith ddramatig a sylweddol. Yn aml iawn dim ond drwy wneud hyn y gellir dwyn perswad ar bobl ifanc i fynd ati i wneud rhywbeth ynghylch eu harian, a'u cymell i dderbyn yr wybodaeth a datblygu sgiliau ymarferol o gyllidebu.

Bydd angen i chi wneud ychydig o waith paratoi i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â phwysigrwydd cyllidebu, gan felly herio eu hagweddau a'u hymddygiadau. Yna dilynwch broses ymarferol cam wrth gam (fel yr amlinellir isod) i roi cymorth i bobl ifanc feithrin eu gwybodaeth a'u sgiliau a chadw llygad ar eu gwariant.

Mae'r gweithgareddau yn yr adran hon mewn trefn syml gan ddilyn y 6 cam cyllidebu a amlinellir isod. Er bod yna broses gyllidebu cam wrth gam, bydd eich man cychwyn yn dibynnu ar y bobl ifanc sy'n gweithio gyda chi; bydd angen i chi gael eich llywio gan eu hanghenion a'u sefyllfaoedd cyfredol.

Amcanion

Bydd y syniadau a'r gweithgareddau isod o gymorth i bobl ifanc:

- Eu dysgu i ddeall o ble daw eu harian a chyfrifo a oes ganddynt ddigon ohono
- Gwerthuso arferion gwario cyfredol a chanfod beth yw'r eitemau hanfodol a'r rhai nad ydynt yn hanfodol, er mwyn rhoi cymorth i gadw dau ben llinyn ynghyd
- Datblygu fframwaith cam wrth gam i greu cyllidebau realistig i roi cymorth i gadw dau ben llinyn ynghyd, i gynllunio i'r dyfodol a chadw llygad ar wariant
- Datblygu gwybodaeth ac ymddygiadau i roi cymorth i bobl ifanc leihau eu treuliau a'u gwariant er mwyn iddynt fedru cynilo i'r dyfodol neu pan fyddant wirioneddol angen yr arian

Camau Cyllidebu

- **Cam 1 - Cael Amcangyfrif o'ch Gwariant**

Wrth gyfrifo cyllideb, y cam cyntaf yw cyfrifo ar beth yr ydych yn gwario'ch arian. Cam cychwynnol cyflym fydd hwn i roi cymorth wrth amlygu pwysigrwydd cadw llygad ar eich arian.

- **Cam 2 - I Ble Aiff Eich Arian?**
  Y cam nesaf yw canfod a yw'ch amcangyfrif yn gywir, ac i gyfrifo'n union ar beth yr ydych yn ei wario yn ystod yr wythnos sydd i ddod.

- **Cam 3 - Beth yw eich Incwm Presennol?**
  Y cam nesaf yw sefydlu'n union beth yw eich incwm ar hyn o bryd. A yw'n ddigon?

- **Cam 4 - Hanfodol neu Heb Fod Yn Hanfodol?**
  Y cam nesaf yw edrych ar beth yr ydych yn gwario'ch arian ar hyn o bryd ac ystyried a yw'n hanfodol neu beidio. A oes ffyrdd y gallwch dorri'n ôl ac arbed arian drwy wario llai?

- **Cam 5 - Cyllideb Syml**
  Defnyddiwch y wybodaeth o'r camau uchod i gyfrifo cyllideb syml, drwy ddefnyddio'r ddalen ar y dudalen isod. A yw'r cyfanswm yn gywir? A oes arian yn weddill ar gyfer y dyfodol neu pan fyddwch wirioneddol ei angen?

- **Cam 6 - Targedau Gwariant**
  Nid gwario cymaint â phosib yw diben hyn; y nod yw sicrhau bod gennych ddigon o arian ar gyfer y pethau pwysicaf, gan beidio â rhedeg allan o arian neu orfod benthyca. Yn ogystal, y nod yw gweld a oes gennych ddigon o arian ar gyfer rhywbeth arbennig neu pan fyddwch wirioneddol ei angen.



7.1 Gweithgaredd Lluniau Arian i Mewn ac Arian Allan

Beth yw hyn?
Gweithgaredd creadigol i grŵp neu unigolyn i roi cymorth i bobl ifanc ystyried o ble daw eu harian ac ar beth mae'n cael ei wario, a rôl yr arian hwnnw yn eu bywydau.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Papur a beiros

Sut ddylwn i redeg y gweithgaredd?
Cam 1) Gofynnwch i'r bobl ifanc ystyried "o ble daw eu harian ac ar beth mae'n cael ei wario. Beth yw'r holl ffynonellau posib o incwm? Beth yw'r holl bethau y gallai pobl fod angen gwario arian arnynt?" Gwnewch ddarlun gyda syniadau pawb yn debyg i'r un a welir isod

Cam 2) Gallwch wneud hyn fel grŵp yn gyntaf ac yna cael pobl i ddarlunio un sy'n briodol iddyn nhw'n bersonol. Bydd hyn o gymorth wrth baratoi ar gyfer y broses gyllidebu mewn gweithgaredd diweddarach. Gellir cadw'r llun hwn i'w archwilio ymhellach mewn gweithgareddau a sesiynau yn y dyfodol.

Cam 3) Adolygu - Mae rhai syniadau ar gyfer cwestiynau adolygu wedi eu cysylltu â'r gweithgareddau cyllidebu, ar ddiwedd yr adran hon ar dudalen 53.

10-15 munud

Pwyntiau adolygu MINDSPACE

Amlygrwydd – Faint o'u gwariant gaiff ei ddylanwadu gan eu tynfa at bethau newydd – y ffôn diweddaraf, neu ffasiwn?

Paratoi – A oes unrhyw beth yn yr isymwybod sydd yn dylanwadu ar eu gwariant?

Hunan falchder – A yw gwario arian yn gwneud iddynt deimlo'n dda'n bersonol? A yw'r teimlad hwn yn para? (Siaradwch



© Developing Youth Practice Ltd


Sefydlodd taid gronfa ymddiriedolaeth, pob mis caf arian
tacsi
mae fy nhad yn gweithio fel gyrrwr tacsi
Hedi talu
Hedi talu
mae mam yn gweithio mewn swyddfa
mam a dad
Siop Elusen
Sêl ymlaen yn awr
Cyflogau ar gyfer dydd Llun
DLA
Gofal a symudedd
Cymorth tai
S L M M I G S
1 2 3 4 5 6
7 8 9 10 11 12 13
14 15 16 17 18 19 20
21 22

7.2 A Oes Gennych Ddigon o Arian i Wneud Y Pethau Hyn?

Beth yw hyn?
Gweithgaredd i unigolion neu grŵp i annog pobl ifanc i fod yn onest am eu sefyllfa ariannol, ac i ystyried a oes ganddynt ddigon o arian i wneud yr holl bethau y bu i ni feddwl amdanynt yn y gweithgaredd uchod neu'r holl bethau maent yn dymuno neu angen eu gwneud.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Dalen gyda thabl fel isod a beiros

Sut ddylwn i gynnal y gweithgaredd?
Cam 1) Gan ddefnyddio'r tabl isod gofynnwch i bobl ifanc "feddwl am bob eitem, ac a oes ganddynt ddigon o arian ar gyfer bob un, yna rhowch 'ie' neu 'na' yn y golofn ar yr ochr dde." Gall y tabl gynnwys eitemau o weithgaredd 7.1 neu rai eraill y mae pobl ifanc yn dymuno eu hychwanegu sydd yn berthnasol iddynt. Gallwch gyflwyno'r syniad fel grŵp, a chael unigolion i gwblhau un eu hunain.

Cam 2) Adolygu - unwaith y bydd pawb wedi gorffen ac os yw pawb yn gyfforddus, anogwch drafodaeth am yr hyn a ysgifennwyd ganddynt. Yn ddibynnol ar amser ewch drwy bob eitem neu dewiswch ambell eitem a gofyn beth a ysgrifennwyd gan bawb. Anogwch pobl i ddweud sut maent yn gwneud yn siŵr fod ganddynt ddigon ar gyfer rhai pethau. Mae rhai syniadau ar gyfer cwestiynau adolygu wedi eu cysylltu â'r gweithgareddau cyllidebu, ar ddiwedd yr adran hon ar dudalen 53.

Gellir cadw'r llun hwn i'w archwilio ymhellach mewn gweithgareddau a sesiynau yn y dyfodol.

10-15 munud

Ar beth y gwariaf fy arian?	A oes gennyf ddigon OES neu NAG OES?
Talu biliau	
Prynu rhywbeth newydd	
Ad-dalu dyledion	
Cynilo ar gyfer y dyfodol	
Rhoi cymorth i ffrindiau a theulu	
Mwynhau bywyd	

Datblygir y gweithgaredd hwn gan adnoddau a rennir gan Dr Pushpa Wood Canolfan Addysg Ariannol ac Ymchwil, Ysgol Economeg a Chyllid, Prifysgol Massey (Seland Newydd)

© Developing Youth Practice Ltd

7.3 I Ble Aiff Eich Arian? - Rhan 1

Beth yw hyn?
Gweithgaredd sydyn i gael pobl ifanc i gychwyn amcangyfrif eu gwariant. Mae hwn yn weithgaredd cychwynnol da i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cadw llygad ar bethau a'i bod hi'n anodd gwneud hynny os na fyddwch yn cadw cofnod rhywsut, sy'n cael ei gynnwys yn y pecyn cymorth a gweithgareddau cadw llygad.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Papur a beiros

Sut ddylwn i gynnal y gweithgaredd?
Cam 1) Yn gyntaf rhowch ddarn o bapur a beiro i bawb, a gofyn "rhowch gynnig ar amcangyfrif faint yr ydych wedi ei wario mewn arian parod (nid ar gerdyn neu daliadau banc) yn ystod y 3 diwrnod diwethaf ac ysgrifennwch yr ateb i lawr.

Cam 2) Yna eglurwch "trowch y ddalen bapur drosodd a rhestrwch bopeth yr ydych wedi ei wario yn ystod y 3 diwrnod diwethaf, beth oedd cost pob eitem, mor agos ag y gallwch amcangyfrif." Yna gofynnwch i bobl adio'r cyfan, gan gynnig roi cymorth iddynt - nid prawf mathemateg yw hwn wedi'r cwbl!

Cam 3) Yna gofynnwch i bobl gymharu'r cyfanswm gyda'u hamcangyfrifon cyffredinol.

Cam 4) Adolygu - Pa mor agos oedd pawb? A oedd eu hamcangyfrif gwreiddiol yn uwch neu'n is na'r cyfanswm a gyfrifwyd? Unrhyw syrpreis? Beth sy'n cael ei amlygu iddynt yn y gweithgaredd hwn? Amlygwch y ffaith ei bod hi'n anodd iawn gwybod i ble'r aiff eich arian os na fyddwch yn cadw llygad arno, a chysylltwch hyn â gweithgareddau diweddarach ynglŷn â chanfod sut i wneud hyn e.e. dyddiaduron gwario. Mae rhai syniadau ar gyfer cwestiynau adolygu wedi eu cysylltu i weithgareddau cyllidebu i'w cael ar ddiwedd yr adran hon tudalen 53.

> Rwy'n defnyddio hyn i gael pobl i feddwl am ba mor anodd yw hi i gadw llygad ar arian heb ddefnyddio offeryn ymarferol. Unwaith y byddwn wedi gwneud y gweithgaredd sydyn hwn mae'r bobl ifanc yn fwy tebygol o wrando i gael gwybod sut i wneud hynny. Rhywsut mae angen iddynt wybod ei fod yn gam cynaf pwysig.

Gweithiwr Datblygu, Fit Money, Islington

7.4 Gweithgaredd I Ble Aiff Eich Arian? - Rhan 2

Beth yw hyn?
Yn unol â gweithgaredd 7.3, nod y gweithgaredd hwn hefyd yw cael pobl ifanc i amcangyfrif eu gwariant gan amlygu pwysigrwydd cadw llygad. Mae'n parhau i fod yn weithgaredd cychwynnol sydyn ac mae'n fwy addas ar gyfer sesiwn un i un.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Taflen 'I Ble Aiff Eich Arian?' isod a beiros

Sut ddylwn i gynnal y gweithgaredd?
Cam 1) Defnyddiwch y ddalen isod a gofynnwch i bobl ifanc amcangyfrif neu ddyfalu faint maent yn ei wario ar bob eitem bob wythnos, pythefnos neu fis a rhowch gymorth iddynt wneud hynny. Dewiswch gyfnod amser sy'n gweithio orau ar gyfer yr unigolyn ifanc. Gall hyn fod yn beth all ei gofio orau neu ei gyfrifo orau, neu wedi ei gysylltu i amledd derbyn ei brif incwm. Mae angen i hwn fod yn weithgaredd sydyn ac mae'n ymwneud â'u cael i amcangyfrif a dyfalu, felly bydd angen i chi eu hannog yn frwdfrydig i roi cynnig arni a pheidio â phoeni am unrhyw ansicrwydd. Y cam nesaf yw canfod pa mor agos ydyn nhw. Gallwch ychwanegu eitemau i'r rhesi gwag os ydynt yn bethau maent yn gwario eu harian arnynt sydd heb eu cynnwys ar y rhestr.

Cam 2) Gofynnwch iddynt adio'r cyfanswm, a gofyn ai hyn yw faint sy'n dod i mewn ganddynt bob wythnos, pythefnos neu fis?

Cam 3) I ganfod pa mor agos yw eu hamcangyfrifon mewn gwirionedd gallwch eu hannog i fynd â'r ddalen adref a nodi pob gwariant yn y colofnau priodol dros y dyddiau/ wythnos/ pythefnos nesaf ac yna dychwelyd gyda'r ddalen i drafod a cheisio llunio cyllideb realistig. Cymrwch lungopi o'r ddalen er mwyn i chi gael cadw un. Neu defnyddiwch un o'r syniadau cadw llygad isod.

Cam 4) Adolygu - pan ddaw'r unigolyn ifanc yn ôl gyda'r copi sy'n cynnwys y gwir gyfansymiau wedi eu cwblhau, adolygwch lwyddiant y broses honno. Mae rhai syniadau ar gyfer cwestiynau adolygu wedi eu cysylltu i weithgareddau cyllidebu i'w cael ar ddiwedd yr adran hon ar dudalen 53.

10 munud

> Rydym yn defnyddio'r gweithgaredd hwn o hyd, mae'n ffordd wych i gael pobl ifanc i ddechrau meddwl ynglŷn â ble'r aiff eu harian a dechrau'r broses o gyllidebu. Yn aml wrth i ni wneud hyn ac adio cyfanswm y gwariant a amcangyfrifwyd mae'r swm yn aml yn uwch na'u hincwm wythnosol, sydd yn amhosib! Bwyd yw'r peth mwyaf cyffredin y mae pobl ifanc yn ei amcangyfrif yn anghywir o ran gwariant. Mae'r gweithgaredd hwn o gymorth mawr iddynt ddeall pwysigrwydd cadw llygad ar arian a chyllidebu

Astudiaeth Achos o 16-25 Independent People, Gweithiwr Prosiect Cashpoint

© Developing Youth Practice Ltd

I Ble Aiff Eich Arian?

Cyllidebu - amcangyfrifir a gwir wariant

Treuliau	Estimated	Actual
Rhent		
Cynhaliaeth Plant		
Y Dreth Gyngor		
Costau siop golchi dillad		
Cinio/byrbrydau		
Benthyciadau/Dirwyon		
Sigaréts ac ati		
Ffôn Symudol / Llinell Sefydlog		
Trwydded deledu		
Tafarn/Sinema ac ati		
Tâl Gwasanaeth		
Bwyd/Cartref		
Cynilion		
Dillad i chi		
Alcohol yn y cartref		
Nwy		
Dillad y plant		
Symudol		
Anifeiliaid anwes		
Gofal Plant		
Cardiau Credyd/Siop		
D□r		
Presgripsiynau		
Rhyngrwyd/Sky ac ati		
Cinio Ysgol		
Trydan		
Apiau/iTunes		
Gweithgareddau Plant/Mynd Allan		
Bod yn Aelod o Gampfa		
Penblwydd/Nadolig/Gwyliau		
Gemau Cyfrifiadurol		
Gofal Plant		
Cylchgronau/Papurau Newydd		
Costau Bws/Trên		

Diolch i Weithwyr Cash Point yn Independent People 16-25 am ddiweddaru'r ddalen hon.

7.5 Gweithgaredd - Dyddiaduron Gwario

Beth yw hyn?

Adnodd ymarferol i roi cymorth i bobl ifanc gadw llygad ar eu gwariant a chanfod i ble aiff eu harian mewn gwirionedd. Mae hwn yn weithgaredd i unigolyn i'w osod a'i adolygu mewn grŵp gyda phobl ifanc yn rhannu eu syniadau er mwyn helpu ei gilydd.

Beth sydd arnaf ei angen?

- Y ddalen ddyddiadur isod a beiros

Sut ddylwn i gynnal y gweithgaredd?

Cam 1) Siaradwch ychydig am bwysigrwydd cadw llygad ar wariant, y gellid ei gysylltu â thrafodaethau o weithgareddau blaenorol a sut gall hyn fod o gymorth iddynt gyfrifo sut i leihau gwariant o bosib er mwyn medru cadw dau ben llinyn ynghyd a chynilo ychydig i'r dyfodol.

Cam 2) Defnyddwich y ddalen ddyddiadur isod a gofynnwch i'r bobl ifanc gymryd copi a chadw llygad ar eu gwariant am gyfnod penodol o amser. Gofynnwch iddynt nodi eu holl wariant yn y colofnau perthnasol ac yna dychwelyd gyda'r ddalen i drafod ac i lunio cyllideb realistig.

Cam 3)Gall pobl ifanc ei chael hi'n anodd cadw cofnod o'u gwariant am wythnos. Anogwch bobl i feddwl am y ffordd orau i wneud hyn: ar ddiwedd bob diwrnod, ar adegau neilltuol yn ystod y dydd neu bob tro y byddant yn gwario ar rywbeth. Gall rhai ddewis nodi eu gwariant ar ddarn o bapur sgrap ac yna'i drosglwyddo i'r ddalen ddyddiadur. Dewis arall yw cadw derbynneb o bopeth a warir ganddynt. Neu defnyddiwch ap ffôn fel y spendometer yn ***www.themoneycharity.org.uk/resources*** Mae'n beth doeth cael trafodaeth gyda nhw ynglŷn â sut a pha bryd y byddant yn gwneud hyn. Gweler gweithgaredd 7.6 i gael cymorth ar hyn.

Cam 4) Adolygu - pan ddaw'r unigolyn ifanc yn ôl gyda'r copi sy'n cynnwys y gwir gyfansymiau wedi eu cwblhau, adolygwch lwyddiant y broses honno. Mae rhai syniadau ar gyfer cwestiynau adolygu wedi eu cysylltu i weithgareddau cyllidebu i'w cael ar ddiwedd yr adran hon ar dudalen 53.

10 munud

Pwyntiau adolygu MINDSPACE

Normau – A yw eraill yn dylanwadu ar eich gwariant?

Effeithio – Sut mae eich emosiynau'n effeithio ar eich gwariant?

Hunan falchder – Sut ydych chi'n teimlo'n bersonol pan fyddwch yn gorwario?

© Developing Youth Practice Ltd

I Ble Aiff Eich Arian?

Dalen Ddyddiadur: Ceisiwch nodi beth rydych yn ei wario bob diwrnod

Dydd Llun	Dydd Gwener
Dydd Mawrth	**Dydd Sadwrn**
Dydd Mercher	**Dydd Sul**
Dydd Iau	**Cyfanswm gwariant/ unrhyw beth yn weddill?**
	Cyfanswm a wariwyd = Unrhyw beth yn weddill?

76 Gweithgaredd - Sut Fydda I'n Cofio Cadw Llygad Ar Fy Ngwario?

Beth yw hyn?
Gweithgaredd creadigol i gr□p neu unigolion i roi cymorth i bobl ifanc fod yn ddyfeisgar yn eu dull o gadw llygad ar eu gwariant er mwyn iddynt ddod o hyd i ddull sy'n addas ar eu cyfer.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Papur a beiros

Sut ddylwn i gynnal y gweithgaredd?
Cam 1) Gofynnwch i'r gr□p awgrymu'r gwahanol ffyrdd y gallant feddwl amdanynt i roi cymorth i gofio beth a wariwyd ganddynt. A ydynt ym ymwybodol o ba ddulliau y gallai pobl eraill eu defnyddio? Ysgrifennwch y rhain ar siart troi, gan wneud darluniau tra byddwch wrthi i helpu'r broses. Efallai y bydd angen i chi helpu rhai pobl ifanc i feddwl, gweler y syniadau isod.

Cam 2) Gofynnwch i bob unigolyn ifanc pa un fyddai fwyaf addas ar eu cyfer nhw, a pha un yr hoffen nhw roi cynnig arno dros y dyddiau nesaf/ wythnos tan eich sesiwn nesaf
Cam 3) Adolygwch lwyddiant y broses pan fyddwch yn cwrdd /cynnal y sesiwn y tro nesaf. Mae rhai syniadau ar gyfer cwestiynau adolygu wedi eu cysylltu â gweithgareddau cyllidebu i'w cael ar ddiwedd yr adran hon ar dudalen 53..

Datblygir y gweithgaredd hwn gan adnoddau a rennir gan Dr Pushpa Wood Canolfan Addysg Ariannol ac Ymchwil, Ysgol Economeg a Chyllid, Prifysgol Massey (Seland Newydd)

Sut Fydda I Yn Cofio?

- Prynu llyfr ac ysgrifennu gwybodaeth i lawr wrth i mi fynd
- Defnyddiwch ap ffôn *http://themoneycharity.org.uk/resources/#spendometer*
- Defnyddio cyfriflen fy ngherdyn credyd i fy helpu
- Defnyddio fy manc ar-lein i fy helpu
- Defnyddiwch y Dyddiadur Gwariant ar ddalen tudalen 43
- Cadw pob derbynneb
- Rhoi nodyn atgoffa ar fy ffôn ar gyfer diwedd y dydd neu'r wythnos

© Developing Youth Practice Ltd

7.7 Gweithgaredd - Beth Yw'ch Incwm?

Beth yw hyn?
Trafodaeth yn gysylltiedig â rhai o'r gweithgareddau isod i roi help i bobl ifanc wybod beth yw eu hincwm cyfredol ac i roi cychwyn ar ganfod ffyrdd i gynyddu'r incwm hwn.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Papur a beiros

Sut ddylwn i gynnal y gweithgaredd?
Cam 1) Defnyddiwch syniadau o weithgaredd 7.1 uchod lle bu i'r grup adnabod ystod o ffynonellau incwm. Gofynnwch a fedrant yn awr feddwl am ragor? Os yw'r darlun o'r gweithgaredd hwn gennych gallwch ychwanegu unrhyw syniadau newydd.

Cam 2) Yna gofynnwch i bob unigolyn ifanc ysgrifennu i lawr neu ddarlunio'r rhai sydd yn real iddyn nhw ar hyn o bryd. Defnyddiwch y ddalen isod ar dudalen 48 i gael cymorth gyda hyn neu gall pobl ifanc greu un eu hunain. Cyfrifwch o hyn beth yw eu hincwm bob wythnos/ pythefnos/ mis.

Cam 3) Adolygu - gofynnwch "a yw hyn yn ddigon? Neu a ydych yn rhedeg allan o arian neu'n benthyca arian yn aml?" Efallai bydd un testun yn ymwneud â lleihau gwariant y bydd y gweithgareddau isod o gymorth i chi. Elfen allweddol arall yma yw gweld a allant gynyddu eu hincwm. Os byddant yn cynnig syniadau bydd angen i chi roi cymorth iddynt eu hymchwilio ymhellach a'u datblygu i fod yn nodau gwirioneddol a phwrpasol. Ar gyfer pobl ifanc sy'n cael budd-daliadau mae'n beth doeth bob amser gwirio i weld a ydynt yn hawlio'r hyn sy'n ddyledus iddynt.

Mae cyfrifiannell budd-dal ar-lein ar gael yn ***www.turn2us.org.uk/search.aspx?terms=benefit+calculator***

Mae rhai syniadau ar gyfer cwestiynau adolygu wedi eu cysylltu i weithgareddau cyllidebu i'w cael ar ddiwedd yr adran hon ar dudalen 53.

10-15 munud

78 Gweithgaredd - Hanfodol neu Heb fod yn hanfodol - Rhestrau

Beth yw hyn?
Gweithgaredd symud o gwmpas gwych gyda grŵp neu unigolion a ddyluniwyd i feithrin dealltwriaeth ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng gwariant hanfodol a heb fod yn hanfodol. Mae'r gweithgaredd o gymorth hefyd wrth wneud y syniad o wario hanfodol neu heb fod yn hanfodol yn berthnasol i brofiadau personol pobl ifanc ac i edrych ar ffyrdd o gwtogi ar wariant a chychwyn cynilo.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Digon o le i symud o gwmpas
- Dalen 'Hanfodol neu Heb fod yn hanfodol' isod
- Siart troi a beiros

Sut ddylwn i gynnal y gweithgaredd?
Cam 1) Bydd angen i chi gael 2 ddarn mawr o bapur ac ar un ysgrifennwch 'hanfodol' ac ar y llall 'heb fod yn hanfodol'. Gludwch y ddau ar y wal gyferbyn â'i gilydd ar naill ochr i'r ystafell.

Cam 2) Eglurwch "mae rhai pethau y gwariwn ein harian arnynt yn hanfodol. Rhaid i ni eu cael ac ni allwn fyw hebddynt, fel bwyd. Nid yw pethau eraill yn hanfodol. Rydym yn dymuno rhai pethau, ond gallwn fyw hebddynt, neu ddisgwyl amdanynt, fel pethau i'w lawrlwytho, dillad ac offer. Bydd gan bob un ohonom farn wahanol ynglŷn â'r hyn sy'n hanfodol ac fel arall, ond mae'n bwysig deall y gwahaniaeth os ydym am wella ein gallu o gyllidebu ein harian."

Cam 3) Eglurwch "Rwyf amddarllen allan eitemau o restr a bydd angen i chi fel unigolion benderfynu a yw'n eitem hanfodol neu heb fod yn hanfodol i chi wario eich arian arni. Nid oes ateb cywir neu anghywir na rheolau caeth, bydd gan bawb yn yr ystafell hon syniadau gwahanol ac nid oes dim o'i le ar hynny." Hefyd, eglurwch "mae ffens weiren bigog yn y canol felly ni all neb eistedd ar y ffens, rhaid iddynt benderfynu un ffordd neu'r llall."

Cam 4) Darllenwch allan yr eitemau a chael pobl i'w hystyried a symud i un ai ochr 'hanfodol' neu 'heb fod yn hanfodol' o'r ystafell. Gofynnwch rai cwestiynau i roi cymorth i ymchwilio barn ac argraffiadau pobl ynghylch gwahanol eitremau. Gall y drafodaeth fod yn ddefnyddiol iawn wrth i bobl ifanc ddysgu oddi wrth ei gilydd. Bydd angen i chi reoli'r drafodaeth yn ofalus a sicrhau bod pawb yn parchu ei gilydd. Weithiau daw syniadau da iawn i'r amlwg ynglŷn â ffyrdd defnyddiol o gwtogi ar wario ar yr amryw eitemau. Unwaith eto, mae'n beth doeth i chi roi cymorth yn hyn o beth a gofyn rhai cwestiynau.

Cam 5) Adolygu - mae'n beth doeth rhoi pwyslais yr adolygiad fan hyn ar newidiadau i arferion gwario. Mae rhai syniadau ar gyfer cwestiynau adolygu wedi eu cysylltu â gweithgareddau cyllidebu i'w cael ar ddiwedd yr adran hon ar dudalen 53.

10-15 munud

Pwyntiau adolygu MINDSPACE

Normau – Wrth benderfynu a yw rhywbeth yn hanfodol neu beidio, i ba raddau y dylanwadir arnoch gan yr angen i ddilyn y drefn a bod fel y gweddill?

Effeithio – Pa gysylltiadau emosiynol sy'n dylanwadu ar eich penderfyniadau ynghylch a yw rhywbeth yn hanfodol neu beidio?

Hunan falchder – A yw eich penderfyniad ynghylch yr hyn sy'n wariant hanfodol yn cael ei ddylanwadu ar sut y teimlwch yn bersonol yn sgil y gwariant hwnnw?

© Developing Youth Practice Ltd



Addasiadau i'r gweithgaredd hwn 7.8

Trefnu cardiau

Gwnewch set o gardiau gydag eitemau yn y 'daflen Hanfodol neu Heb fod yn Hanfodol' a gofyn i bobl ifanc drefnu'r eitemau'n 2 dwmpath yn dibynnu a ydynt yn rhai hanfodol neu heb fod yn hanfodol.

Ticio blwch

Defnyddiwch y 'daflen Hanfodol neu Heb fod yn Hanfodol' a gofyn i bobl ifanc a ydynt yn rhai hanfodol neu heb fod yn hanfodol iddyn nhw.

Gallwch hefyd alw 'costau goroesi' hanfodol a 'chostau byw' heb fod yn hanfodol.

Hanfodol neu Heb fod yn hanfodol?

Efallai bydd angen i chi egluro ystyr rhai o'r rhain.

Treuliau	Hanfodol	Heb fod yn Hanfodol
Rhent		
Cynhaliaeth Plant		
Y Dreth Gyngor		
Costau siop golchi dillad		
Cinio/byrbrydau		
Benthyciadau/Dirwyon		
Sigaréts ac ati		
Ffôn Symudol / Llinell Sefydlog		
Trwydded deledu		
Tafarn/Sinema ac ati		
Tâl Gwasanaeth		
Bwyd/Cartref		
Cynilion		
Dillad i chi		
Alcohol yn y cartref		
Nwy		
Dillad y plant		
Symudol		
Anifeiliaid anwes		
Gofal Plant		
Cardiau Credyd/Siop		
D□r		
Presgripsiynau		
Rhyngrwyd/Sky ac ati		
Cinio Ysgol		
Trydan		
Apiau/iTunes		
Gweithgareddau Plant/Mynd Allan		
Bod yn Aelod o Gampfa		
Penblwydd/Nadolig/Gwyliau		
Gemau Cyfrifiadurol		
Gofal Plant		
Cylchgronau/Papurau Newydd		
Costau Bws/Trên		

© Developing Youth Practice Ltd

7.9 Gweithgaredd - Cyllideb Syml

Beth yw hyn?
Gweithgaredd unigol y gellir ei gyflwyno mewn grŵp a ddyluniwyd i roi cymorth i bobl ifanc greu cyllideb syml a chyfrifo a ydynt yn tanwario, gorwario neu a oes ganddynt unrhyw beth i'w gynilo i'r dyfodol neu pan fyddant wirioneddol angen yr arian.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Y ddalen isod a rhai beiros

Sut ddylwn i gynnal y gweithgaredd?
Cam 1) Defnyddiwch yr wybodaeth o gamau blaenorol ynghyd â ffigyrau incwm i gyfrifo cyllideb syml, gan ddefnyddio'r ddalen amlinellol isod.

Cam 2) Adolygu - unwaith y byddwch wedi edrych drwy'r ffigurau mae'n bwysig canfod a yw'r cyfan yn gywir. A oes balans? A oes mwy yn mynd allan nag sy'n dod i mewn? Ewch yn ôl ac adolygu'r treuliau, a'r hyn sy'n hanfodol ac heb fod yn hanfodol? A oes mwy yn mynd allan nag sy'n dod i mewn? Unrhyw beth yn weddill i'w gynilo? Mae rhai syniadau ar gyfer cwestiynau adolygu wedi eu cysylltu i weithgareddau cyllidebu i'w cael ar ddiwedd yr adran hon ar dudalen 53.

Cam 3) Soniwch a dangoswch y ddalen gyllidebu lawnach isod iddynt 'Rhoi Trefn ar Arian' ynghyd ag offer ar-lein defnyddiol arall. offer gweler ***www.moneyadviceservice.org.uk/en/categories/budget-planner*** Gweithiwch ar y rhain gyda phobl ifanc pan fyddant yn barod i wneud hynny. Mae'n beth da gweithio'n raddol at y rhain ac egluro'r manteision o wneud hyn a'r hyn y gallant elwa ohono yn y tymor byr drwy wneud hynny. Treuliwch amser yn mynd trwy'r gyllideb gyda nhw a byddwch yn barod i gyfarfod â nhw i drafod cynnydd ac i dreulio amser i addasu'r gylideb.

10 munud

Pwyntiau adolygu MINDSPACE

Cymhelliant - pa gymhelliant (o safbwynt enillion a cholledion) all fod o gymorth i chi lynu at gyllideb?

Ymrwymiadau – i bwy allwch chi ofyn am gymorth i lynu at eich cyllideb. A allwch chi ymrwymo i'ch gweithiwr ieuenctid neu i'r grŵp hwn?

Hunan falchder – A fyddwch chi'n teimlo'n well yn bersonol os llwyddwch i lynu at eich cyllideb?

Cyllideb Syml

1. Dechreuwch gyda'r cyfanswm o arian sydd gennych bob wythnos ac ysgrifennwch hynny yn y blwch hwn

Cyfanswm o arian
£

2. Amcangyfrifwch y swm fydd ei angen arnoch i'w wario ar bethau pwysig ac ysgrifennwch hynny yn y blwch hwn

Pethau hanfodol
£

3. Nawr tynnwch yr ail gyfanswm o'r cyntaf a rhowch swm yr arian sy'n weddill yn y blwch hwn Dyma faint o arian sydd gennych ar ôl i'w wario

Balans
£

4. Penderfynwch ar yr eitemau eraill a brynwch nad ydynt yr un mor bwysig a rhowch amcangyfrif o gyfanswm yn y blwch hwn

Pethau Heb fod yn Hanfodol
£

5. Pan dynnwch y swm olaf o'r un uchod yr hyn fydd gennych yn weddill fydd yr arian y gallwch ei ddefnyddio mewn ffyrdd eraill. Efallai y gallech gynilo ychydig

Gweddill sydd ar gael
£

© Developing Youth Practice Ltd

Rhowch drefn ar Arian

Gwnewch hyn yn wythnosol, bob pythefnos, neu'n fisol i gyfateb ag amledd yr incwm

Incwm	Bob wythnos	Bob pythefnos	Bob mis
Cyflogau			
Arian poced			
Budd-daliadau			
Incwm arall			
Incwm arall			
CYFANSWM YR INCWM			
Treuliau	**Bob wythnos**	**Bob pythefnos**	**Bob mis**
Rhent			
Cynhaliaeth Plant			
Y Dreth Gyngor			
Costau siop golchi dillad			
Cinio/byrbrydau			
Benthyciadau/Dirwyon			
Sigaréts ac ati			
Ffôn Symudol / Llinell Sefydlog			
Trwydded deledu			
Tafarn/Sinema ac ati			
Tâl Gwasanaeth			
Bwyd/Cartref			
Cynilion			
Dillad i chi			
Alcohol yn y cartref			
Nwy			
Dillad y plant			
Symudol			
Anifeiliaid anwes			
Gofal Plant			
Cardiau Credyd/Siop			
Dŵr			
Presgripsiynau			
Rhyngrwyd/Sky ac ati			
Cinio Ysgol			
Trydan			
Apiau/iTunes			
Gweithgareddau Plant/Mynd Allan			
Bod yn Aelod o Gampfa			
Penblwydd/Nadolig/Gwyliau			
Gemau Cyfrifiadurol			
Gofal Plant			
Cylchgronau/Papurau Newydd			
Costau Bws/Trên			
CYFANSWM GWARIANT			
BETH SYDD YN WEDDILL?			

7.10 Gweithgaredd - Cynyddu incwm a lleihau gwariant

Beth yw hyn?
Dyma weithgaredd gwych mewn grŵp i roi cymorth i rannu syniadau ynglŷn â sut gall pobl ifanc gynyddu incwm yn gyfreithlon a lleihau treuliau heb orfod roi heibio'r pethau angenrheidiol a dymunol. Gall fod o gymorth gwirioneddol i sicrhau bod pobl ifanc yn cadw dau ben llinyn ynghyd.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Papur siart troi a beiros

Sut ddylwn i gynnal y gweithgaredd?
Cam 1) Lluniwch dabl gwag ar ddarn o siart troi fel yr un yn y llun isod.

Cam 2) Gofynnwch i bobl am yr holl syniadau y gallant feddwl amdanynt i gynyddu incwm, efallai y bydd angen i chi wirio eu bod yn addas ac yn gyfreithlon. Ac yna gofynnwch am yr holl ffyrdd o leihau treuliau. Nodwch bob un ar y siart troi.

Cam 3) Adolygu - Mae'n beth doeth rhoi pwyslais yr adolygiad fan hyn ar y pethau y gallant ac y byddant yn eu cyflawni. Mae rhai syniadau ar gyfer cwestiynau adolygu wedi eu cysylltu i weithgareddau cyllidebu i'w cael ar ddiwedd yr adran hon ar dudalen 53.

15 munud

Cynyddu arian sy'n dod i mewn

gwaith	chwilio am y fargen orau
budd-daliadau	bwyd a goginiwyd gartref
credydau treth	beth sydd am ddim
teulu	
grantiau a bwrsarïau	
gwerthu pethau	

Lleihau arian sy'n mynd allan

© Developing Youth Practice Ltd

Crynodeb Adran

Uchod ceir fframwaith cam wrth gam a chyfres o weithgareddau a ddyluniwyd i gefnogi pobl ifanc i gadw llygad ar eu gwariant, cynllunio ymlaen, ac i gadw dau ben llinyn ynghyd. Mae'r awgrymiadau da a'r cwestiynau o'r adolygiad isod yn ddefnyddiol ar gyfer yr holl weithgareddau uchod.

Awgrymiadau da

Gall fod o gymorth i ddechrau i gael unigolion i weithio ar luniau neu gyllidebau ar gyfer rhywun enwog neu ffug gydag amgylchiadau byw tra gwahanol e.e. gyda swydd, yn byw yn ei dŷ ei hun, gyda phlant. Bydd yr hyn a ddewiswch yn dibynnu ar yr ymwybyddiaeth y dymunwch ei feithrin. Unwaith y byddant wedi gwneud hyn yna gofynnwch iddynt ddewis un sydd yn cyfateb orau â nhw eu hunain a chychwyn ei bersonoli.

Anogwch bobl ifanc i ychwanegu eu categorïau eu hunain i'r dalenni cyllidebu a'r gweithgareddau uchod. Po fwyaf perthnasol fydd hyn iddyn nhw y mwyaf tebygol y byddant o ymgysylltu.

Weithiau mae o gymorth cael rhai dalenni cyllideb nad ydynt yn balansio'n llwyr, cael y bobl ifanc i weithio drwyddynt a phenderfynu beth sydd angen ei newid er mwyn sicrhau cyllideb sy'n balansio. Mae hyn o gymorth wrth feithrin sgiliau defnyddiol heb iddo gyffwrdd yn ormodol ar sefyllfaoedd personol i ddechrau arni.

Cwestiynau adolygu defnyddiol

Fel gyda phob adolygiad nid oes ateb cywir nag anghywir a gall y drafodaeth ddatblygu mewn sawl cyfeiriad - cofiwch mai prif nod yr adran hon yw rhoi cymorth i bobl weld bod rhai dulliau o reoli eu gwariant ar gael nad oeddent wedi eu hystyried o'r blaen.

- A wnaeth unrhyw beth eich synnu?
- A oedd yn ddefnyddiol? Os felly, beth oedd yn ddefnyddiol?
- A wnaethon nhw ganfod rhywbeth newydd a allai fod o gymorth iddyn nhw?
- Ar gyfer beth yr hoffech chi gael rhagor o arian?
- Sut aeth hi?
- Pa mor gywir oedd eich amcangyfrifon? Unrhyw syrpreis?
- A wnaethoch chi orwario neu danwario?
- Os bu i chi orwario, o ble y llwyddoch chi ddod o hyd i'r arian ychwanegol?
- Ydych chi'n credu y gallech chi gwtogi ar unrhyw beth?
- Os bu i chi danwario, beth wnaethoch chi gyda'r arian a oedd yn weddill?

Mae gan wefan Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol yr adnoddau canlynol sydd o gymorth wrth gyllidebu:

- Gwiriad Iechyd Ariannol yn ***www.moneyadviceservice.org.uk/en/tools/health-check***
- Cyfrifiannell Cynilo yn ***www.moneyadviceservice.org.uk/en/tools/savings-calculator***
- Cynllunydd cyllideb yn ***www.moneyadviceservice.org.uk/en/tools/budget-planner***
- Cyfrifiannell torri'n ôl yn ***www.moneyadviceservice.org.uk/en/tools/cut-back-calculator***
- Cyfrifiannell ymestyn arian yn ***www.moneyadviceservice.org.uk/en/tools/money-stretcher***

Mae gan wefan Yr Elusen Arian yr adnoddau canlynol sydd o gymorth i chi wrth gyllidebu:

- Cyfrifydd cyllideb yn ***www.themoneycharity.org.uk/advice-information/create-budget/***
- Ap ffôn spendometer yn ***www.themoneycharity.org.uk/resources/***

8. Gwneud i'ch arian weithio i chi - Bancio a Chynilo

Trosolwg

Bydd ar bobl ifanc sydd am symud tu hwnt i ymdrin ag arian parod yn unig angen rhyw ffurf ar gyfrif banc neu swyddfa'r post. Bydd cyfrif yn helpu i gadw at gyllideb, talu biliau, derbyn incwm (cyflogau neu fudd-daliadau), cynilo a chryfhau hanes credyd. Mae nifer o gyfrifon gwahanol ar gael ac mae'n bwysig dewis un sy'n bodloni eu hanghenion penodol.

Amcanion

Bydd y syniadau a'r gweithgareddau isod yn eich helpu i:

- Gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth pobl ifanc am fancio
- Eu cefnogi i ddewis, agor a rheoli cyfrifon banc
- Annog agweddau at gynilo a chynilo o ran ymddygiad trwy wybod ble i gynilo, a chadw eu harian yn ddiogel



© Developing Youth Practice Ltd

8.1 Gweithgaredd Bingo Bancio

Beth yw hyn?
Gall un o'r rhwystrau a all atal rhywun rhag dewis a rheoli cynnyrch ariannol fel cyfrif banc fod yn rhywbeth mor syml a pheidio â deall y termau ariannol a ddefnyddir. Dyluniwyd y gweithgaredd fel cyflwyniad i bwnc bancio, ac mae'n ffordd dda i wirio ac adeiladu ar wybodaeth pobl ifanc am rai o'r geiriau a'r ymadroddion bancio cyffredin. Gall rhai o'r geiriau a ddefnyddir am fancio (ac arian yn gyffredinol) ymddangos fel iaith dramor ond mae'n iaith y gellir ei dysgu neu ei chyfieithu, a bydd y gweithgaredd yma yn helpu i rannu gwybodaeth a chynyddu ymwybyddiaeth a gwybodaeth pobl ifanc.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Taflen bingo tudalen 56
- Y cardiau geiriau bach ar dudalen 57 wedi eu torri a'u rhoi mewn bag
- Diffiniadau o dermau bancio ar dudalen 58 ar gyfer pob un o'r bobl ifanc

Sut ddylwn i redeg y gweithgaredd?
Cam 1) Rhowch daflen bingo i bob unigolyn neu bâr. Gofynnwch iddyn nhw ddewis 5 gair neu derm o'r rhestr ar waelod y dudalen ac ysgrifennu un ym mhob un o'r 5 blwch gwyn ar y grid.

Cam 2) Rhowch y cardiau bach mewn bag. Gofynnwch i berson ifanc ddewis cerdyn a'i ddarllen, gyda help os bydd angen. Bydd unrhyw un sydd wedi dewis y gair/term hwnnw ar gyfer ei grid bingo yn cael ei groesi allan.

Cam 3) Gofynnwch i'r grŵp a oes unrhyw un yn gwybod ystyr y gair/term a thrafodwch.

Cam 4) Yr enillydd yw'r unigolyn cyntaf i groesi'r holl dermau/geiriau allan.

Cam 5) Rhannwch y daflen ddiffiniadau. Ewch trwy ystyron y geiriau/termau ar y cardiau sy'n weddill. Gan ddibynnu ar y grŵp gallwch roi diffiniadau 3 i'w defnyddio yn ystod y gweithgaredd. Nid prawf yw hwn!

Cam 6) Adolygu - "beth oedd yn wybodaeth newydd am dermau bancio? Unrhyw syrpreis? Sut fydd hyn yn ddefnyddiol?"

20-25 munud

Hawlfraint gan Gyngor ar Bopeth – addaswyd o ddeunyddiau yn y pecyn hyfforddwr gallu ariannol 'sesiynau blasu i ddefnyddwyr'



Bingo Termau Bancio!



Dewiswch bum eitem o'r rhestr isod. Ysgrifennwch un o'r eitemau ym mhob un o'r blychau gwyn uchod. Os bydd y gair yn cael ei alw yn ystod y gêm, rhowch groes trwyddo!

Pob lwc!

1. Debyd Uniongyrchol
2. Cyfrif banc sylfaenol
3. Llog
4. Undeb credyd
5. Archeb sefydlog
6. PIN
7. Gorddrafft
8. Yswiriant diogelu taliadau
9. Cerdyn debyd
10. Cyfrif cyfredol
11. ATM
12. Cyfrif jar jam
13. APR
14. Benthyciad personol heb ei warantu

© Developing Youth Practice Ltd

Cardiau bingo

APR	Cerdyn debyd
Cyfrif jar jam	Yswiriant diogelu taliadau
ATM	Debyd Uniongyrchol
Cyfrif banc sylfaenol	Cyfrif cyfredol
Gorddrafft	Llog
Benthyciad personol heb ei warantu	Archeb sefydlog
Undeb credyd	PIN

Diffiniadau o rai termau ariannol cyffredin

APR
Yn golygu'r Gyfradd Ganrannol Flynyddol. Dyma sy'n dweud wrthych beth fydd cost benthyciad, gan ystyried y llog y byddwch yn ei dalu ac unrhyw daliadau eraill. Gallwch ddefnyddio APR i gymharu cost un benthyciad ag un arall, er enghraifft, mae benthyciad gydag APR o 15% yn fwy drud nag un gydag APR o 11%.

ATM
Mae ATM yn golygu peiriant arian awtomatig. Fe'u gelwir yn beiriannau arian hefyd. Gallwch eu canfod mewn mannau fel banciau, canolfannau siopa a gorsafoedd rheilffordd. Er mwyn medru defnyddio ATM bydd arnoch angen cerdyn tynnu arian a rhif adnabod personol (PIN).

Cyfrif banc sylfaenol
Gwasanaeth gan fanc neu gymdeithas adeiladu sy'n gadael i chi dalu arian i mewn, cael arian allan a thalu biliau. Ni fydd yn gadael i chi wario mwy nag sydd gennych yn eich cyfrif, felly nid oes perygl y byddwch yn mynd i orddrafft a thynnu taliadau gorddrafft.

Undeb credyd
Cymdeithas gynilo gydweithredol nid er elw sy'n rhoi benthyciadau i'w haelodau ar gyfraddau llog isel ac yn annog cynilo.

Cyfrif cyfredol
Cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu sy'n eich helpu i reoli eich arian, talu eich biliau, derbyn arian a chadw arian yn ddiogel. Bydd ganddo fwy o wasanaethau na chyfrif banc sylfaenol, er enghraifft, efallai y byddwch yn medru benthyca arian. Gallwch ddefnyddio rhai dros y ffôn neu'r rhyngrwyd.

Cerdyn debyd
Cerdyn plastig y gellir ei ddefnyddio yn lle arian parod wrth brynu pethau. Mae'r swm sy'n cael ei wario yn cael ei gymryd (debydu) yn awtomatig trwy gyfrifiadur o'ch cyfrif. Pan fyddwch yn defnyddio'ch cerdyn mewn peiriant arian parod neu'r rhan fwyaf o siopau, bydd gofyn i chi ddarparu PIN i gadarnhau'r trafodiad. Mae rhai cardiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar bellach yn caniatáu i chi dalu am eitemau hyd at £20 drwy ddal eich cerdyn yn agos at ddarllenydd cardiau arbennig heb orfod rhoi eich PIN. Gelwir hyn yn dechnoleg ddigyswllt. Mae arwydd arbennig i nodi lle gallwch chi dalu fel hyn, a bydd gan eich cerdyn symbol tebyg arno er mwyn i chi wybod y gellir ei ddefnyddio fel hyn.

Debyd Uniongyrchol
Cyfarwyddyd i'ch banc i ryddhau arian yn awtomatig o'ch cyfrif banc i dalu bil cyson. Mae hyn yn ddefnyddiol ar gyfer biliau aml sydd am swm gwahanol bob tro, er enghraifft, biliau ffôn, nwy neu drydan. Rydych yn trefnu hyn gyda'ch cyflenwr ac yn rhoi manylion y banc iddynt.

Llog
Y wobr (arian ychwanegol) y byddwch yn ei chael am gadw eich arian mewn banc neu gymdeithas adeiladu, er enghraifft. Hefyd y gost y byddwch yn ei thalu pan fyddwch yn benthyca arian trwy gytundeb benthyciad neu gredyd.

Cyfrif jar jam
Math o gyfrif sy'n eich helpu i reoli eich arian trwy gadw arian'gwario' a thalu biliau ar wahân.

© Developing Youth Practice Ltd

Gorddrafft
Os ydych yn gwario mwy o arian nag sydd yn eich cyfrif cyfredol fe fyddwch yn mynd i orddrafft. Gallwch ofyn i'r banc os gall drefnu i fenthyca arian i chi am gyfnod byr. Gelwir hyn yn orddrafft a drefnwyd. Rydych yn talu cyfradd log y cytunwyd arni ar y gorddrafft. Os byddwch yn mynd i orddrafft heb ofyn i'r banc ymlaen llaw, fe allan nhw wrthod talu eich sieciau a chodi cyfradd log uchel arnoch ar yr arian sy'n ddyledus gennych iddyn nhw.

Yswiriant diogelu taliadau
Yn cael ei alw weithiau yn "ddiogelu benthyciad" neu yn cael ei grynhoi yn "PPI" sy'n talu eich ad-daliadau benthyciad neu ddyled petai rhai problemau yn codi – er enghraifft, os na fyddwch yn gallu gweithio oherwydd salwch, neu os byddwch yn cael eich diswyddo.

PIN
Rhif Adnabod Personol - rhif cyfrinachol, y byddwch yn ei ddefnyddio gyda cherdyn peiriant arian. Byddwch yn ei deipio i mewn ac mae'r ATM yn gwirio bod y rhif cerdyn a'r PIN yr un fath.

Archeb sefydlog
Dull o dalu symiau cyson o'ch cyfrif banc yn awtomatig. Byddwch yn rhoi cyfarwyddyd i'ch banc dalu arian drosoch chi i berson neu gwmni. Eich cyfrifoldeb chi fydd newid y taliad os bydd angen ei newid.

Benthyciad personol heb ei warantu
Arian a fenthycir, er enghraifft, gan fanc, nad yw'n cael ei warantu yn erbyn eich cartref. Gall y benthyciwr gymryd camau yn eich erbyn i gael taliad os nad ydych yn talu'r arian yn ôl fel y cytunwyd.

Cyfriflenni banc
Mae'r rhain yn dangos popeth sy'n mynd i mewn ac allan o'ch cyfrif, a beth sydd ynddo ar bwynt penodol mewn amser. Gyda rhai cyfrifon gallwch weld hyn ar-lein, a gallwch gael neges testun yn nodi eich balans yn ddyddiol neu yn wythnosol a all eich helpu i reoli eich arian.

Rhagor o wybodaeth: ***www.adviceguide.org.uk/england/search.htm?query=jargon+buster***
www.moneymatterstome.co.uk/glossary.htm

8.2 Gweithgaredd - 'Ble i Gadw Fy Arian'

Beth yw hyn?
Dyluniwyd y gweithgaredd hwn i gael pobl ifanc i feddwl ble maen nhw'n cadw eu harian a beth yw'r manteision / anfanteision sydd i'r dull hwnnw. I gadw person ifanc yn ddiogel rhaid iddyn nhw 'bwyso a mesur' yr holl ddewisiadau.

Mae diogelwch y person ifanc yn holl bwysig. Os yw'r gweithgaredd hwn i gael ei redeg mewn grŵp rhaid i'r gweithiwr gymryd cyfrifoldeb am drefnu'r gweithgaredd hwn mewn cyd-destun 'trydydd' person, fel nad yw'r unigolyn ifanc yn trafod ble mae'n cadw ei arian yn agored os nad ydi hynny mewn cyfrif. Dylai'r atebion fod yn enghreifftiau o leoedd lle gall rhywun ifanc gadw ei arian.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Tafol neu daflen o bapur siart fflip gyda llun o dafol arnyn nhw. Mae'r manteision ar un ochr a'r anfanteision ar yr ochr arall
- Blociau Jenga os byddwch yn defnyddio tafol yn hytrach na siart fflip
- Papurau Post-it
- Delweddau wedi eu lamineiddio o fanc, swyddfa bost, poced, matras, waled, ffrindiau / teulu ac ati
- Papur siartiau fflip a beiros

Mae'r cardiau wedi eu lamineiddio yn cynrychioli nifer o fannau, mae'r fatras yn cynrychioli rhywle cuddiedig gartref.

Sut ddylwn i redeg y gweithgaredd?

Cam 1) Gofynnwch i'r bobl ifanc pa un o'r dewisiadau sydd ar gael fyddai'r lle cyntaf y byddai rhywun ifanc yn ei ddewis i gadw ei arian? Ar ôl iddyn nhw wneud eu dewis, gofynnwch i'r unigolyn ifanc / pobl ifanc ysgrifennu (neu fe allech chi ysgrifennu ar eu rhan), restr o fanteision ac anfanteision ar gyfer y dewis hwnnw ar bapurau post-it - un syniad i bob post-it. Ar ôl i'r rhain gael eu cwblhau glynwch bapur post-it wedi ei lenwi wrth flocyn Jenga, gwnewch hyn i bob papur post-it. Gofynnwch i'r unigolyn ifanc pa un fydd drymaf, yr ochr mantais neu anfantais. Rhowch y blociau ar yr ochr berthnasol i'r dafol a gweld. Ailadrodd gyda'r dewisiadau i gyd.

Cam 2) Ysgrifennwch y tabl isod ar ddarn o bapur siart fflip ac wrth i'r gweithgaredd fynd yn ei flaen llenwch y siart fflip i gofnodi'r gweithgaredd yn weledol:

Dewis	Cyfanswm y fantais	Disadvantage total (how many blocks)	Likelihood to use? 1 (never) – 5 (always)

Cam 3) Adolygwch gyda'r person ifanc, beth fydd ef neu hi yn sylwi arno? Sut fyddai hynny'n cael dylanwad ar ei benderfyniad ar sut i gadw ei arian?

3-10 munud

Pwyntiau adolygu MINDSPACE

Negesydd – Pwy fyddai orau gan y bobl ifanc i dderbyn gwybodaeth ganddo am y syniad o gael cyfrif banc, a sut i gael un? Weithiau mae'n dda mynd i fanc gyda'r unigolyn ifanc i'w helpu i agor cyfrif ac eirioli ar ei ran i gael y cyfrif gorau ar ei gyfer.

Rhagosodiad – Beth yw rhai o nodweddion rhagosodedig cyfrif banc? Er enghraifft trwy ddebyd uniongyrchol awtomatig a negeseuon testun awtomatig yn crynhoi'r cyfrif neu yn olrhain gwariant.

Paratoi – A oes dylanwadau yn yr isymwybod ar ein penderfyniadau o ran ble y byddwn yn cadw ein harian? A yw pobl ifanc yn gwneud yr hyn y mae eu teulu a'u ffrindiau yn ei wneud gan mai dyna sy'n cael ei drafod o'u cwmpas a'r hyn y maen nhw'n ei ddysgu?

© Developing Youth Practice Ltd

8.3 Dewis y Cyfrif Cywir – Ceisio Busnes

Beth yw hyn?
Mae gwahanol fathau o gyfrifon, y cyfan gyda'u manteision a'u hanfanteision a'r peth pwysig yw dewis yr un sy'n gweddu orau i chi. Cynlluniwyd y gweithgaredd hwn i fod yn ffordd greadigol o gynyddu gwybodaeth pobl ifanc am y gwahanol fathau o gyfrifon sydd ar gael i'w helpu i ddewis pa un i'w ddefnyddio.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Y tabl isod ar y prif fathau o gyfrifon
- Papur siart fflip a beiros

Sut ddylwn i redeg y gweithgaredd?
Cam 1) Rhowch gopi o'r tabl ar y mathau o gyfrifon i bawb. Rhannwch y bobl ifanc yn 4 grŵp, pob un yn cymryd un math o gyfrif - cyfrif banc sylfaenol, cyfrif banc cyfredol, cyfrif swyddfa'r post ac undeb credyd. Bydd gan bob grŵp 20 munud i baratoi cyflwyniad gwerthu 3 munud ar y math o gyfrif a gawsant. Dywedwch wrthyn nhw y gallan nhw chwarae rôl, dawnsio, canu, llunio poster neu ddim ond cyflwyno'r wybodaeth ond COFIWCH mwyaf creadigol a hwyliog yn y byd fydd y cyflwyniad y mwyaf tebygol fyddwn ni o fod ei eisiau! Mae ganddynt 20 munud i baratoi eu cyflwyniad. Yn ystod yr amser hwn ewch o gwmpas y grwpiau a gwneud yn siŵr eu bod yn glir am y darnau allweddol o wybodaeth am eu math o gyfrif.

Cam 2) Pob grŵp yn cyflwyno yn eu tro. Rhowch yr un faint o amser i bob grŵp ac annog pawb i gymeradwyo ar ôl pob cyflwyniad. Gofynnwch i eraill yn y grŵp a oes ganddyn nhw gwestiynau, efallai y bydd angen i chi wirio eu bod yn deall a phwysleisio'r pwyntiau allweddol.

Cam 3) Dewisol ac yn dibynnu ar yr amser - I'w wneud hyd yn oed yn fwy realistig fel cyflwyniad gwerthu gallwch awgrymu y gallai'r grwpiau eraill feirniadu rhai o'r mathau o gyfrifon. Gwnewch yn siŵr fod hyn yn cael ei wneud ar ôl y cyflwyniad gwerthu, a rhowch amser penodol, er enghraifft 3 munud arall. Mae hyn yn cynnig y fantais o drafod y manteision a'r anfanteision sydd i'r gwahanol fathau o gyfrifon.

Cam 4) Adolygu - atgoffwch y bobl ifanc bod gwahanol fathau o gyfrifon, y cyfan gyda'u manteision a'u hanfanteision a'r peth pwysig yw dewis yr un sy'n gweddu orau i chi. Gofynnwch i'r bobl ifanc ddweud neu nodi'r pethau allweddol y maen nhw wedi eu dysgu am y gwahanol fathau o gyfrifon, gall hyn arwain at ofyn pa un fyddai'n gweddu orau iddyn nhw.

30 munud

> Mae'r gweithgaredd gwerthu yn ffordd hwyliog o helpu i gyflwyno gwybodaeth i bobl ifanc a fyddai'n ddigon diflas fel arall. Pan fyddaf wedi ei ddefnyddio maen nhw wastad yn cael syniadau gwych.

Gweithiwr Ymgysylltu Arweiniol, Learning Partnership West

Y prif fathau o gyfrifon

Mae yna bethau sydd yn dda i'w gwybod wrth ddewis ac agor cyfrif i sicrhau eich bod yn cael yr hyn sydd arnoch ei angen ac na fyddwch yn gorfod talu taliadau diangen.

Cyfrif banc sylfaenol

Ar gyfer rheoli arian o ddydd i ddydd. Gallwch dalu sieciau i mewn, a chyflogau neu fudd-daliadau trwy drosglwyddiad electronig. Ni roddir llyfr sieciau, ond gallwch dynnu arian mewn peiriannau. Gallwch sefydlu Debydau Uniongyrchol ac weithiau gallwch sefydlu archebion sefydlog (gweler yr eirfa). Ni chynigir gorddrafft – neu, ar y mwyaf, clustog o £10. Un fantais fawr yw nad oes angen gwiriadau credyd fel arfer.

Cyfrif cyfredol

Ar gyfer rheoli arian o ddydd i ddydd. Mwy o nodweddion na chyfrif banc sylfaenol. Gallwch ddefnyddio rhai dros y ffôn neu'r rhyngrwyd. Mae cyfrifon arbennig ar gyfer plant a myfyrwyr. Mae cyfrifon sy'n cydymffurfio â Sharia, sy'n gweithredu o fewn egwyddorion Islam ac felly mae iddynt strwythur gwahanol i gyfrifon confensiynol ar gael mewn rhai ardaloedd.

Cyfrif cynilo (neu adnau)

Ar gyfer cadw arian nad oes ei angen ar unwaith, i'w gadw'n ddiogel ac i ennill llogau. Yn dda ar gyfer cynilo i gael dodrefn, gwyliau neu ar gyfer argyfyngau, er enghraifft. Y prif ddewis ar wahân i gyfrifon banc yw cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post ac, mewn rhai lleoedd a gan ddibynnu ar gymhwyster, Undebau Credyd.

Cyfrif cerdyn Swyddfa'r Post

Gellir ei ddefnyddio i dderbyn budd-dal, pensiwn y wladwriaeth a thaliadau credyd treth yn unig. Ni ellir talu unrhyw daliadau eraill, fel cyflog, iddo. Gellir tynnu arian allan, am ddim, mewn unrhyw gangen Swyddfa'r Post gan ddefnyddio cerdyn plastig a PIN. Nid oes angen unrhyw wiriadau credyd.

Undebau Credyd

Sefydliad sy'n eiddo i'w aelodau ac yn cael ei redeg ganddynt ar gyfer ei aelodau. Maent i gyd yn cynnig cyfrifon cynilo a benthyca i aelodau. Mae'r rhan fwyaf hefyd yn cynnig yswiriant diogelu benthyciadau, a chynnyrch yswiriant eraill. Mae rhai o'r rhai mwyaf hefyd yn cynnig rhyw ffurf ar gyfrif banc cyfredol neu sylfaenol. Mae aelodau Undeb Credyd yn rhannu rhywbeth yn gyffredin, fel byw yn yr un ardal neu weithio i'r un cyflogwr neu berthyn i'r un undeb, eglwys neu gymdeithas arall.

Cyfrifon jar jam

Mae rhai banciau ac undebau credyd hefyd yn cynnig cyfrifon 'jar jam', am ffi fechan fel arfer, sy'n eich helpu i reoli eich arian trwy gadw arian 'gwario' a thalu biliau ar wahân. Bydd yr arian sy'n dod i mewn i'ch cyfrif yn cael ei rannu yn gyfrifon llai neu 'jariau' i dalu eich biliau a bydd yr arian sydd ar ôl i'w wario yn cael ei gadw mewn cyfrif 'gwario' ar wahân.

© Developing Youth Practice Ltd

Gwasanaethau a Nodweddion	Cyfrif cyfredol	Basic bank account	Credit Union account	Post Office ® card account
Yn derbyn taliadau budd-dal	√	√	√	√
Yn derbyn cyflogau	√	√	√	×
Yn caniatáu taliadau awtomatig - ee Debydau Uniongyrchol ac archebion sefydlog	√	√	yn cael eu cynnig gan rai	×
Cyfleuster gorddrafft	√	× Mae rhai cyfrifon yn cynnig gorddrafft bychan (£10-£15)	×	×
Cerdyn arian parod gyda PIN ar gyfer peiriant arian	√	√ Gall gael ei gyfyngu i beiriannau'r darparwr yn unig	yn cael eu cynnig gan rai	√ Dim ond ei ddefnyddio yn Swyddfa'r Post
Cerdyn debyd	√	Weithiau	×	×
Llyfr siec	√	×	×	×
Angen gwiriadau credyd wrth agor y cyfrif	√	×	×	×
Ffioedd a thaliadau	Ffioedd a llog yn cael eu codi ar orddrafft. Cosbau am archebion sefydlog neu Ddebyd Uniongyrchol sydd yn cael eu dychwelyd.	Codi cosb am archebion sefydlog neu Ddebyd Uniongyrchol sydd yn cael eu dychwelyd fel arfer.	Weithiau	Dim ffioedd.

Gwiriwch wybodaeth cyfrif penodol i gael mwy o fanylion. Rhaid gwirio manylion Undeb Credyd gan eu bod yn amrywio o un undeb credyd i'r llall

Hawlfraint gan Gyngor ar Bopeth – addaswyd o ddeunyddiau yn y pecyn hyfforddwr gallu ariannol 'bancio effeithiol 1 - dewis ac agor cyfrif'

8.4 Pynciau Llosg Bancio

Beth yw hyn?
Mae llawer o bethau all weithredu fel rhwystrau rhag agor cyfrifon a phethau defnyddiol i'w gwybod i helpu i reoli cyfrifon. Mae'r gweithgaredd yn dynodi pedwar pwnc llosg sy'n effeithio ar bobl ifanc yn gyson ac fe'i cynlluniwyd i rannu gwybodaeth a chynyddu dealltwriaeth am y rhain. Gallwch addasu'r gweithgaredd i gynnwys pynciau bancio eraill sy'n effeithio ar bobl ifanc. Nid oes disgwyl i chi fod yn arbenigwr ar faterion bancio ond fe ddylech fod yn hyderus i ateb cwestiynau sylfaenol a medru cyfeirio eich dysgwyr at ragor o wybodaeth.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Papur siart fflip a beiros
- Taflen wybodaeth isod

Sut ddylwn i redeg y gweithgaredd?
Cam 1) Esboniwch "mae pedwar pwnc llosg am fancio a defnyddio cyfrifon banc":

1. Taliadau banc
2. Prawf o gyfeiriad
3. Taliadau peiriannau arian
4. Cael dyddiadau yn iawn ar gyfer Debydau Uniongyrchol

Cam 2) Rhannwch y daflen wybodaeth am 'bynciau llosg bancio' a rhoi'r bobl ifanc mewn grwpiau o 3 neu 4. Esboniwch y bydd gan bob grŵp 15 munud i ddylunio a gwneud poster a fwriadwyd ar gyfer pobl ifanc eraill i roi gwybodaeth am eu 'pwnc llosg'. Bydd angen i bob grŵp ddewis pwnc gwahanol. Atgoffwch nhw y dylai gael effaith felly bod lluniau yn hytrach na geiriau yn dda, a llawer o liw. Pan fyddan nhw'n gwneud hyn ewch o gwmpas y grwpiau i wirio eu bod yn deall y pwnc a'r wybodaeth ar y daflen. Os oes gennych liniadur neu dabled gyda chyswllt â'r Rhyngrwyd gallwch gael golwg ar rai gwefannau defnyddiol.

Cam 3) Ar 15 munud gwiriwch fod pawb wedi cael digon o amser, gallwch ymestyn yr amser os oes digon wrth gefn. Nesaf, rhannwch y posteri, gallwch wneud hyn trwy naill ai adael i bobl ifanc gerdded o gwmpas i weld posteri ei gilydd, neu ofyn i bob grŵp yn ei dro ddangos poster o'r tu blaen.

Cam 4) Gofynnwch "Beth yw'r pynciau bancio allweddol? A oes 'na rai eraill nad ydynt wedi eu cynnwys yn y posteri?" Daw nifer o gyfrifon banc â thâl erbyn hyn gan gynnig rhai cynhyrchion fel yswiriant am ddim. Mae hwn yn bwnc llosg arall i'w archwilio gan fod rhai pobl ifanc yn talu ddwywaith am bethau, ac efallai nad ydyn nhw'n siŵr beth mae eu hyswiriant yn ei gynnwys.

30 munud

© Developing Youth Practice Ltd

Pynciau Llosg Bancio

Taliadau banc

Bydd banciau yn codi tâl ar bobl am bethau fel Debyd Uniongyrchol heb ei dalu, sieciau yn bownsio a gorddrafftiau heb ganiatâd. Gall y taliadau fod yn gymaint â £35 y tro.

Gall banciau ad-dalu taliadau os gofynnir iddyn nhw, ond fe all gymryd cryn amser ac ymdrech.

Mae gwybodaeth ddefnyddiol ar wefan Cyngor ar Bopeth
www.adviceguide.org.uk/england/debt_e/debt_banking_e/how_bank_accounts_work.htm

Prawf o gyfeiriad ar gyfer cyfrif newydd

Wrth agor cyfrif banc newydd, gofynnir i bobl am brawf adnabod a chyfeiriad. Mae hyn oherwydd rheolau'r llywodraeth am wyngalchu arian (sy'n ymwneud â throseddau a therfysgaeth). Gall y prawf fod yn: drwydded yrru, pasbort, cyfriflen banc ddiweddar, tystysgrif geni, bil nwy neu drydan diweddar, llythyrau am fudd-daliadau yr ydych yn eu derbyn neu fod ar y rhestr etholwyr. Gweler rhagor o enghreifftiau yn:
www.moneyadviceservice.org.uk/en/articles/identity-requirements-for-basic-bank-accounts

Mae'r cyfarwyddyd i'r banciau yn dweud y gallan nhw fod yn hyblyg o ran pa ddogfennau y byddant yn eu derbyn i brofi pwy yw rhywun a'i gyfeiriad, er enghraifft llythyr gan weithiwr ieuenctid, hostel neu goleg ond efallai na fydd canghennau unigol mor hyblyg. Weithiau, gallwch ddarbwyllo canghennau i gymryd gwahanol fathau o brawf o gyfeiriad.

Taliadau peiriannau arian

Mae rhai peiriannau yn codi tâl am gael arian allan, ond ni fydd eraill. Os bydd peiriant yn codi tâl, fe fydd tua £1.50 fel arfer faint bynnag sy'n cael ei dynnu allan.

Dylai peiriannau sy'n codi tâl roi gwybodaeth arnyn nhw eu bod yn codi tâl. Gall y wybodaeth yma fod mewn llythrennau bychain! Cyn i chi gael eich arian dylech hefyd gael rhybudd ar y sgrin y bydd tâl am ddefnyddio'r peiriant.

Y dewisiadau eraill fyddai defnyddio arian yn ôl mewn siopau, modurdai ac ati (efallai y bydd raid i chi wario swm penodol i fedru gwneud hyn) neu ddefnyddio peiriant nad yw'n codi

Gwneud pethau'n iawn gyda Debyd Uniongyrchol

Bydd llawer o bobl yn gorfod talu taliadau i'r banc am fod eu debydau uniongyrchol (neu archebion sefydlog) yn mynd allan ddiwrnod neu ddau cyn i'r arian fynd i mewn, yn hytrach na diwrnod neu ddau ar ôl hynny.

Wrth sefydlu Debyd Uniongyrchol, mae'n well dewis dyddiad sy'n gweddu i'ch llif arian, er enghraifft, rhai dyddiau ar ôl i chi dderbyn eich budd-daliadau.

8.5 Gweithgaredd - Rheoli Cyfrif Banc

Beth yw hyn?
Yn ogystal â chefnogi rhywun ifanc wrth ddewis ac agor cyfrif banc gallwch hefyd ei annog i reoli'r cyfrif trwy ei wirio yn gyson. Bydd hyn o gymorth i gadw llygad ar eu harian a chael dau ben llinyn ynghyd a hefyd sicrhau bod unrhyw gamgymeriadau neu weithgaredd twyllodrus ar y cyfrif yn cael eu gweld a'u cywiro.

Amcanion
Bydd y gweithgaredd yma yn helpu pobl ifanc i:
- Ddynodi ystod o ffyrdd y gallan nhw fonitro eu cyfrif banc a dewis yr un sy'n gweddu orau iddyn nhw
- Ymarfer rheoli bancio ar-lein neu wirio cyfriflenni papur

Beth sydd arnaf ei angen?
- Papur siartiau fflip a beiros
- Gliniadur gyda chyswllt â'r rhyngrwyd neu enghreifftiau o gyfriflenni ffug

Sut ddylwn i redeg y gweithgaredd?
Cam 1) Gofynnwch i'r grŵp faint ohonyn nhw sydd â chyfrif banc a sut y byddan nhw'n gwirio beth sy'n mynd ymlaen yn y cyfrif h.y. beth sy'n mynd i mewn a beth sy'n mynd allan. Nodwch y syniadau ar siart fflip ac yna ychwanegu unrhyw syniadau eraill gan y grŵp ar sut y gallan nhw wneud hyn. Os bydd angen promtiau fe allan nhw feddwl beth mae eu teulu a'u ffrindiau yn ei wneud. Gallwch ychwanegu unrhyw beth fydd ar goll; dylai'r rhestr derfynol gynnwys cyfriflenni balans wrth beiriannau arian, cyfriflenni papur yn y post, cyfriflenni ar-lein a negeseuon testun a anfonir i'w ffôn. Gofynnwch i'r grŵp beth yw mantais gwybod beth sy'n mynd ymlaen. Dylech eu cael i ddweud ei bod yn helpu i gadw llygad ar arian fel na fyddwch yn mynd i anawsterau ac mae hefyd yn helpu i gynllunio ar gyfer pethau, a gweld camgymeriadau a gweithgaredd twyllodrus.

Cam 2) Os oes gennych liniadur a chyswllt rhyngrwyd gall y bobl ifanc gael cyfle i ddefnyddio ffugiwr bancio ar-lein yn www.moneymatterstome.com
Fel arall gallwch fynd â chyfriflenni banc ffug gyda chi a gofyn iddyn nhw weithio mewn grwpiau bach i ganfod gwybodaeth o'r cyfriflenni fel a yw'r unigolyn mewn gorddrafft (a beth mae hyn yn ei olygu), beth oedd y peth drutaf y maen nhw wedi ei brynu, pa filiau y maen nhw'n eu talu trwy Ddebyd Uniongyrchol (a beth yw Debyd Uniongyrchol) ac ati.

Cam 3) Adolygwch yr hyn a ddysgwyd trwy ofyn beth sydd wedi eu synnu neu sydd wedi bod o fwyaf o ddiddordeb iddyn nhw.

30 munud

© Developing Youth Practice Ltd

9. Ffonau symudol

Trosolwg

Mae ffonau symudol yn rhan bwysig o fywyd pobl ifanc. Mae nifer fawr o wahanol fargeinion am ffonau ar gael, rhai gyda thactegau gwerthu caled iawn ac fe all pobl ifanc fynd i anhawster yn fuan iawn trwy gymryd contract nad yw'n addas i'w hanghenion a chael biliau uchel iawn am ddefnyddio gormod o funudau ac ati.

Amcanion

Bydd y syniadau a'r gweithgareddau isod yn eich helpu i:

- Cynyddu gwybodaeth pobl ifanc am bopeth y mae arnyn nhw angen ei wybod a'i ystyried wrth gael ffôn i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth.
- Archwilio'r camau gwag all godi ynglŷn â nifer o'r bargeinion ffôn.
- Pwysleisiwch bwysigrwydd cadw golwg ar y munudau.

Diolch i Weithwyr Cefnogaeth yn Independent People 16-25 a helpodd ddatblygu'r adran hon.



Mae rhai pobl ifanc yn cyrraedd sefyllfa lle mae ganddyn nhw fwy nag un contract ffôn, oherwydd eu bod yn cymryd ail gontract allan os byddan nhw'n colli ffôn, neu maen nhw'n cymryd contractau allan i'w ffrindiau sy'n methu cael contract oherwydd bod ganddyn nhw gofnod credyd gwael neu hanes o dwyll

1625 Independent People, Gweithiwr Cefnogi Tai

9.1 Gweithgaredd - Ffôn symudol

Beth yw hyn?
Cynlluniwyd y gweithgaredd hwn i helpu pobl ifanc i feddwl beth yw eu hanghenion a medru dewis y fargen ffôn symudol iawn iddyn nhw. Mae'n helpu i atgyfnerthu'r pethau allweddol sydd arnyn nhw angen eu gwybod wrth ddewis contract ffôn symudol trwy eu cael i gofio ac ailadrodd y wybodaeth.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Papur siart fflip a beiros
- Papurau A4

Sut ddylwn i redeg y gweithgaredd?
Cam 1) Ar ddarn mawr o bapur tynnwch lun syml o ffôn symudol yn y canol ac o'i chwmpas tynnwch luniau i gynrychioli'r prif bethau y mae arnoch angen meddwl amdanyn nhw wrth ddewis bargen ffôn symudol - gweler y rhestr isod am rai syniadau. Ar gyfer y gweithgaredd hwn mae'n well cadw'r lluniau yn syml a sylfaenol fel bod pobl ifanc yn medru eu copïo yn rhwydd.

- Cost y ffôn ei hun
- Faint o funudau siarad
- Faint o gyswllt Rhyngrwyd
- Cost negeseuon testun/faint o negeseuon testun am ddim
- Cost galw llinellau sefydlog
- Cost rhent llinell
- Costau galwadau i rwydweithiau eraill
- Apiau ar gael a'u pris

Cam 2) Rhannwch y bobl ifanc yn dimau o 4 a rhoi hanner tudalen A4 i bob un a beiros.

Cam 3) Defnyddiwch y llun yr ydych wedi ei baratoi yng ngham 1 ac esbonio "Dwi'n mynd i ddangos llun y gwnes i ei dynnu yn gynharach, y sialens yw i bob tîm ei gopïo ar y darn o bapur yr wyf wedi ei roi i chi. Y ffordd y byddwch yn gwneud hyn yw y bydd un aelod o bob tîm yn dod i'r tu blaen ac yn cael 2 funud i edrych ar y llun. Fe fyddan nhw'n mynd yn ôl at eu timau ac yn ceisio tynnu llun popeth y byddan nhw'n ei gofio ar y papur mewn 2 funud. Yna bydd yr ail unigolyn o bob tîm yn gwneud yr un fath, yna'r trydydd ac yna'r pedwerydd (os oes llai na 4 yn y tîm gall rhywun fynd ymlaen yr eilwaith). Y tîm buddugol yw'r un gyda'r darlun mwyaf cywir."

Cam 4) Rhowch rai munudau i'r timau benderfynu sut y byddan nhw'n ymdrin â'r her yma. Gwiriwch eu bod nhw i gyd yn deall ac yn gwybod pwy sy'n mynd yn gyntaf, yna dechreuwch ar y gêm.

Cam 5) Pan fydd yr amser ar ben rhowch yr holl luniau i fyny a dewis enillydd/enillwyr

Cam 6) Adolygu - codwch drafodaeth am yr hyn sy'n bwysig i'w ganfod am ffonau symudol er mwyn cael y fargen orau. Fe allwch chi hefyd drafod rhai o'r tactegau gwerthu sy'n cael eu defnyddio a sut i ymdrin â'r rhain a beth yw eich hawliau e.e. cyfnod o 14 diwrnod i newid eich meddwl os byddwch yn prynu'r ffôn dros y ffôn a ble i gael rhagor o wybodaeth fel: ***www.adviceguide.org.uk/england/search.htm?query=mobile+phone+contracts***

Rhagor o wybodaeth ddefnyddiol am dalu am eich ffôn a'i hyswirio yn: ***www.moneyadviceservice.org.uk/en/articles/paying-for-and-protecting-your-phone***

9.2 Gweithgaredd - Grand Prix Ffôn Symudol

Beth yw hyn?
Yn aml gall pobl ifanc gael eu 'gyrru' gan y dymuniad i gael ffôn benodol yn hytrach na ffôn a chynllun prisio i bwrpas ac sy'n bodloni eu hanghenion penodol. Wrth gyrraedd y llinell derfyn a chael ffôn, gall person ifanc yn aml gael ei ddal mewn marchnad gyflym a chystadleuol, sy'n golygu y gallai wneud camgymeriad costus gyda chanlyniadau sylweddol. Bydd annog pobl ifanc i arafu ac ystyried yr holl ffactorau wrth brynu yn lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn gwneud llanastr o'r pryniant. Mae'r gweithgaredd hwn yn cynrychioli'r dymuniad sy'n gyrru rhywun ifanc i gael ffôn yn gyflym a pha 'bit stops' sy'n rhaid eu trefnu i atal y car (pryniant y ffôn symudol) rhag troelli allan o reolaeth.

Beth sydd arnaf ei angen?
Yr adnoddau cychwynnol sydd eu hangen yw:

- 1 trac gydag ardal 'pit stop'
- 2-4 o geir
- Oriawr amseru
- Cardiau 'pit stop' – Sydd â chyfres o gwestiynau arnyn nhw y mae angen i'r person ifanc eu hystyried - gweler isod am rai syniadau

Gallwch wneud y gweithgaredd yma mor greadigol â phosibl neu mor sylfaenol ag sydd angen. Os bydd amser ac adnoddau yn cyfyngu arnoch gallwch ddefnyddio darn o bapur siart fflip a char tegan. Gall hwn weithio mewn cyd-destun grŵp neu un i un. Cynlluniwch gwrs a gwnewch o mor anodd ag y dymunwch. Os oes gennych amser, arian a'r dymuniad defnyddiwch geir y gallwch eu rheoli a naill ai mat gyda chwrs wedi ei amlinellu arno (gellir prynu'r rhain am £15 yn Argos neu ar-lein) neu gwnewch gwrs gyda sialc y tu allan. Cynhyrchwch fflagiau 'pit stop' gyda chyfres o gwestiynau arnyn nhw, dyma'r cwestiynau:

- Talu Wrth Fynd neu Gontract?
- Talu Wrth Fynd: Sut fyddwch chi'n talu? Pa mor aml?
- Contract: Pa gyfrif banc? A oes gennych ddigon o arian i dalu'r costau sylfaenol a'r rhai ychwanegol?
- Sawl munud, neges testun a faint o ddata fyddwch chi'n eu defnyddio?
- Beth yw'r cynllun gorau yr ydych wedi dod o hyd iddo hyd yn hyn?
- Sut allwch chi arbed arian?
- A fydd arnoch angen yswiriant? Faint fydd hyn yn ei gostio?

Pwyntiau adolygu MINDSPACE

Normau – Pwy sy'n dylanwadu arnom wrth ddewis ffôn symudol?

Cymhelliant – Beth yw'r cymhelliant y mae cwmnïau ffôn symudol yn eu defnyddio i'n cael ni i brynu eu cynnyrch? Beth allwn ni ei ennill a beth allwn ni ei golli gyda'r rhain?

Amlygrwydd – Faint o ddylanwad y mae bod eisiau'r fersiwn ddiweddaraf o ffôn yn ei gael yn hytrach na'r ffôn a'r cynllun gorau i'n pocedi?

© Developing Youth Practice Ltd

Sut ddylwn i redeg y gweithgaredd?
Rhedwch y gweithgaredd gan esbonio bod y dasg hon i fod yn hwyl a fydd yn gwella eu sgiliau gyrru a phrynu ffôn symudol. Mae eu tasg yn syml, cwblhau un cylch yn yr amser cyflymaf posibl!

Cam 1) Gofynnwch i'r person ifanc gael ei gar o gwmpas y cylch yn yr amser cyflymaf. Rhedwch y gweithgaredd, ac ar gyfnodau penodol chwifiwch y fflag 'pit stop' a gofyn un cwestiwn ar y tro, dilynwch y dilyniant o gwestiynau a amlinellir uchod. Ar ôl i'r cylch ddod i ben ac i'r cwestiynau gael eu gofyn, gofynnwch i'r person ifanc a ydyn nhw'n meddwl y gallan nhw ei wneud yn gyflymach? Os gallan nhw, rhedwch y gweithgaredd yn union yr un fath â'r tro cynt. Os byddan nhw'n dweud na, gofynnwch pam ddim?

Cam 2) Rhedwch y gweithgaredd eto a chymharu'r amser â'r tro cyntaf, gobeithio y bydd yr amser wedi gwella. Gofynnwch i'r person ifanc, "sut oedd hynna'n teimlo? Beth wnaethoch chi yn wahanol o'i gymharu â'r tro cyntaf?"

Cam 3) Gofynnwch eto a ydyn nhw'n meddwl y gallan nhw ei wneud yn gynt? Os gallan nhw, rhedwch y gweithgaredd yn union yr un fath â'r tro cynt. Os byddan nhw'n dweud na, gofynnwch pam ddim? Gallwch ddal ati i ailadrodd hwn gymaint o weithiau ag sy'n addas ag yn ddefnyddiol.

Cam 4) Adolygwch - archwiliwch sut y gwnaeth pethau newid bob tro; gobeithio y byddan nhw'n cydnabod eu bod yn gwybod mwy o'r atebion i'r cwestiynau bob tro. Clowch trwy esbonio gorau yn y byd y byddwn ni'n gwybod yr atebion i'r cwestiynau yma, cyflymaf yn y byd y gallwn ni orffen y ras.

Cam 5) Esboniwch fod prynu ffôn symudol a chynllun prisio fel grand prix,y llinell derfyn yw cerdded allan o'r siop gyda ffôn yn eich llaw, ond os na fyddwn ni'n aros wrth y 'pit stops' angenrheidiol gall ein car (y cynnyrch y byddwn yn ei brynu) droelli allan o reolaeth ac fe allwn ni golli'r ras trwy gael damwain. Esboniwch fod y dasg yn dal yr un fath, gorffen y cylch yn yr amser cyflymaf. Ond i wneud y peth yn fwy o her, pan fydd y faner yn chwifio rhaid i'r car ddod i mewn i'r 'pit' i ateb y cwestiwn ac yna gall ddychwelyd i'r trac.

30-40 munud

Awgrym da

Mae'n werth holi pobl ifanc a yw'r tariff y maen nhw'n ei dalu yn addas iddyn nhw mewn gwirionedd.
"Roedd un person ifanc yr oeddwn i'n gweithio hefo hi yn dechrau mynd i ddyled felly fe es i drwy ei chyllideb hefo hi a gwirio i ble'r oedd yr arian yn mynd. Y broblem allweddol oedd y contract ffôn symudol. Fe wnaethon nhw ei sefydlu ar gynnig dechreuol o £25 y mis am 100 munud, negeseuon testun a lawrlwythiadau diderfyn. Roedd yn byw ar wahân i'w mam ac yn siarad llawer iawn ar y ffôn. Roedd hi'n mynd dros y cyfyngiad yn aml, y rhan fwyaf o fisoedd roedd hyn yn tua £80. Fe wnes i siarad â'r cwmni ffôn ac esbonio'r sefyllfa, wrth lwc fe wnaethon nhw wrando a newid ei chontract i un â munudau diderfyn sy'n £35 y mis, ac mae'n arbed £50 y mis iddi."

1625 Independent People,
Gweithiwr Prosiect Cashpoint

9.3 Gweithgaredd - Pa un yw'r fargen orau?

Beth yw hyn?
Mae'r gweithgaredd hwn yn helpu pobl ifanc i ystyried yr holl wybodaeth y mae arnynt angen meddwl amdani a'i chymharu wrth benderfynu ar ba ffôn symudol i'w dewis.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Ystod o daflenni neu argraffu lluniau sgrin o ddewisiadau a bargeinion ffôn symudol. Mae Money Saving Expert yn ffynhonnell dda ***www.moneysavingexpert.com***

Sut ddylwn i redeg y gweithgaredd?
Cam 1) Gofynnwch i'r bobl ifanc weithio mewn grwpiau bychain o 3 neu 4, pob un â 2 i 4 o daflenni yn nodi gwahanol ddewisiadau ffôn, gan ddibynnu ar anghenion y grŵp.

Cam 2) Esboniwch "mae gennych 20 munud i gael golwg trwy'r wybodaeth sydd gennych a phenderfynu ar y fargen orau i rywun sydd eisiau 60 munud o amser siarad, dim cyfyngiad ar negeseuon testun a lawrlwythiadau". Yn ystod yr amser hwn ewch o gwmpas y grwpiau i wirio eu bod yn deall ac i'w cefnogi yn ôl yr angen. Sicrhewch eu bod yn meddwl am:
- Gost y ffôn ei hun
- Cost y munudau siarad
- Cost cyswllt Rhyngrwyd
- Cost negeseuon testun/faint o negeseuon testun am ddim
- Cost galw llinellau sefydlog
- Cost rhent llinell
- Costau galwadau i rwydweithiau eraill
- Apiau ar gael a'u pris

Cam 3) Ar ddiwedd yr amser, gofynnwch i bob grŵp rannu'r hyn y maen nhw wedi ei ganfod.
Cam 4) Adolygu - "beth wnaeth helpu i gymharu'r gwahanol fargeinion? Unrhyw syrpreis? Beth sydd wedi bod yn ddefnyddiol i'w ganfod a sut all hyn helpu wrth ddewis ffôn symudol?"

Am ragor o wybodaeth am fargeinion ffôn ewch i ***www.moneysavingexpert.com***

30-40 munud

© Developing Youth Practice Ltd

10. Galluogi Pobl Ifanc i Wneud Penderfyniadau Deallus ynglŷn â Chynilo a Benthyca

Trosolwg

Mae llawer iawn o bwysau ar bobl ifanc i fenthyca arian er mwyn cael pethau ar unwaith yn hytrach na disgwyl amdanynt ac mae sawl cyfle iddynt fedru gwneud hynny, a llawer o'r rheiny ar gyfraddau uchel o log (mewn rhai achosion hyd at 5000% APR) fel darparwyr benthyciadau diwrnod cyflog ar y stryd fawr yn lleol a chwmnïau sy'n darparu benthyciadau dros y ffôn. O'n profiadau gwelir bod rhai pobl ifanc yn credu bod yr APR uwch yn fargen well; mae'r adran hon yn rhoi cymorth i feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth er mwyn i bobl ifanc wneud penderfyniadau mwy deallus.

Amcanion

Bydd y syniadau a'r gweithgareddau isod yn eich helpu i:

- Archwilio'r rhesymau dros fenthyca a chynilo.
- Meithrin gwybodaeth ar y dulliau gorau o gynilo a benthyca a lle i ddod o hyd i'r wybodaeth.
- Meithrin ymwybyddiaeth o gost benthyca a sut i gymharu costau gan wahanol ddarparwyr benthyciadau.
- Hyrwyddo'r feddylfryd o gynilo rhagor a benthyca llai er mwyn helpu i gadw dau ben llinyn ynghyd.

Gwybodaeth allweddol ar gyfer yr adran gyfan - APR (cyfradd ganrannol flynyddol) yw'r ffi a godir am fenthyca. Mae'n ein helpu i gymharu bargeinion h.y. bydd APR uwch yn costio mwy i ni.

© Developing Youth Practice Ltd

Olwyn galluogrwydd ariannol



Mae benthyca'n costio mwy

Defnyddiwch yr enghraifft dros y ddalen i roi cymorth wrth ddangos hyn, gallwch drafod hyn neu ei egluro'n ysgrifenedig ar siart droi.

Mae'n costio arian fel arfer i fenthyca, yn ddrud iawn yn aml. Ystyriwch sefyllfa lle mae gennych ddyled o £1000 ar eich cerdyn credyd ar gyfradd llog (APR) o 25.9% y flwyddyn.

Rydych yn ad-dalu'r lleiafswm bob mis 3% neu £5, p'un bynnag sydd fwyaf. Yn y mis cyntaf byddwch yn talu 3% o £1,000 = £30.

Mae'r £30 yn cael ei dynnu o'ch bil nesaf. Ond byddai llog yn cael ei ychwanegu – ychydig llai nag £20. Felly bydd y ddyled wedi'i lleihau o rhyw £10.

Byddai'n cymryd tua 18 o flynyddoedd i chi ad-dalu'r balans cyfan. Byddai cyfanswm yr holl daliadau tua £2,500, h.y. £1,500 yn fwy nag a fenthycwyd yn wreiddiol.

Gweler dolen y Gwasanaeth Cynghori Ariannol isod am gyfrifiannell benthyca:
https://www.moneyadviceservice.org.uk/en/tools/loan-calculator

Fel gydag amryw o gyfrifianellau ar-lein eraill mae'r offeryn hwn yn gofyn i chi roi'r swm a fenthycwyd, y gyfradd ganrannol flynyddol a chyfnod y benthyciad a bydd yn cyfrifo'r ad-daliadau a chyfanswm y llog a dalwyd.

10.1 Gweithgaredd - Y Pam a'r Sut

Beth yw hyn?
Mae'r gweithgaredd hwn yn cyflwyno'r syniadaeth bod gennym ddewisiadau wrth ddelio â'n harian a sut i gael pethau. Gallwn gynilo, gallwn fenthyca, gallwn wneud y ddau. Mae'n bwysig gwneud y dewis cywir personol.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Papur siart fflip a beiros

Sut ddylwn i redeg y gweithgaredd?
Cam 1) Gallwch un ai gynnal y gweithgaredd hwn fel trafodaeth grŵp cyfan, neu rannu'r grŵp yn 2 dîm a chael tipyn o gystadleuaeth er mwyn hybu sgwrs.

Cam 2) Copiwch y tablau isod ar siart troi.

Cam 3) Gofynnwch yn gyntaf "pam fyddech chi'n cynilo arian?" Os mai'r ateb yw nad ydynt yn cynilo, gofynnwch iddynt ystyried y rhesymau dros gynilo, neu pam fyddai pobl eraill yn cynilo. Os byddwch angen procio'r drafodaeth ymhellach, gofynnwch iddynt ystyried cynilo ar gyfer diwrnod glawog neu ar gyfer pethau annisgwyl fel colli ffôn symudol er enghraifft, a chynilo ar gyfer pethau moethus a hwyliog fel pryd o fwyd allan gyda ffrind ar ei benblwydd. Yna gofynnwch "sut ac ymhle y gallwch gynilo arian?", ac unwaith eto byddwch yn barod i brocio'r drafodaeth a chysylltu hyn â syniadau a gweithgareddau yn adran 8.

Cam 4) Gofynnwch nesaf "pam fyddech chi'n benthyca arian?" Mae hon yn aml yn restr debyg iawn i'r un "pam cynilo", sydd o gymorth wrth geisio hyrwyddo seicoleg cynilo rhagor a benthyca llai, gweler isod. Nesaf gofynnwch "sut ac ymhle allwch chi fenthyca arian?, ac unwaith eto gwnewch yn siŵr fod y prif ddewisiadau wedi eu cynnwys.

Pam cynilo?

Sut ac ymhle allwch chi gynilo?

© Developing Youth Practice Ltd

Cam 5) Adolygu - "beth yw manteision ac anfanteision cynilo a benthyca?" Mae'n beth da yma gwneud cysylltiadau ar gyfer y bobl ifanc gydag agweddau eraill o reoli arian e.e. os ydynt yn benthyca arian i brynu deunyddiau beunyddiol bydd ganddynt lai o arian i fyw arno oherwydd bydd ganddynt gostau ychwanegol o dalu llog yn ôl ar yr hyn a fenthycwyd ganddynt. Os felly efallai y bydd angen iddynt edrych eto ar yr arian sy'n dod i mewn a'r arian sy'n mynd allan ganddynt a phwyso a mesur hynny heb droi at fenthyca. Mae'n ddefnyddiol hefyd cychwyn hyrwyddo'r syniad o gynilo rhan o gost rhywbeth maent yn dymuno ei brynu a benthyca llai, a amlinellir yn y gweithgaredd nesaf.

10 munud

Pam benthyca?

Sut ac ymhle allwch chi fenthyca?

Pwyntiau adolygu MINDSPACE

Cymhelliant – Beth yw manteision ac anfanteision benthyca? A beth yw manteision ac anfanteision cynilo? Beth sy'n ein hysgogi?

Normau – Sut mae pobl eraill yn dylanwadu arnom pan fenthycwn er mwyn prynu rhywbeth dymunol ond diangen o bosib?

Hunan falchder – A fyddem yn teimlo'n well yn bersonol wrth gynilo i gael rhywbeth o'i gymharu â benthyca ar ei gyfer?

10.2 Gweithgaredd - Cymharu Costau Credyd

Beth yw hyn?
Ni sydd i benderfynu un ai i gynilo neu fenthyca i gael pethau ond mae'n bwysig ystyried goblygiadau ein dewisiadau er mwyn i ni fedru gwneud y dewis gorau er ein budd ni'n hunain. Dyluniwyd y gweithgaredd hwn i godi ymwybyddiaeth o'r gwahanol gostau ynghlwm â benthyca ac i alluogi pobl ifanc i gyfrifo cost benthyca.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Paratowch 1 copi o bob astudiaeth achos tudalen 80-83
- Tabl gwag isod fel copi i'w ddosbarthu
- Dalen i'w dosbarthu o awgrymiadau da ar gredyd tudalen 79
- Siart troi neu fwrdd gwyn wedi ei gwblhau eisoes gyda'r tabl arno
- Gwybodaeth ar undeb(au) credyd lleol

Sut ddylwn i redeg y gweithgaredd?
Cam 1) Rhowch y bobl ifanc mewn 5 grŵp a rhoi astudiaeth achos gwahanol i bob un ohonynt. Os nad oes digon i greu 5 grŵp rhannwch ddigon o astudiaethau achos ar gyfer y grwpiau ac ysgrifennwch yr atebion ar gyfer yr astudiaethau achos ychwanegol eich hun.

Cam 2) Eglurwch "mae gan bob grŵp astudiaeth achos am unigolyn ifanc sydd wedi benthyca arian, ac mae pob unigolyn ifanc yn yr enghreifftiau hyn wedi benthyca'r un faint o arian, sef £500, o ffynonellau gwahanol. Mae'r tabl ar y siart troi a'r ddalen a ddosbarthwyd yn dangos dewisiadau gwahanol i bob unigolyn ifanc ar gyfer ad-dalu. Defnyddiwch y tabl hwn a chyfrifiannell i gyfrifo faint o log bydd eich unigolyn ifanc yn eich astudiaeth achos wedi ei dalu i gyd os bydd yn talu dros 1 neu 2 flynedd." Byddwch yn barod i fynd o amgylch y grwpiau a rhoi cymorth iddynt gyda'r ffigurau; nid prawf mathemateg yw hwn wedi'r cwbl!

Cam 3) Pan fydd pob grŵp wedi gorffen gofynnwch iddynt gamu ymlaen ac ysgrifennu'r ffigurau ar y siart troi, neu gallwch chi wneud hynny ar eu rhan.

Cam 4) Adolygu 'edrychwch ar yr holl symiau a ad-dalwyd", "pwy gafodd y fargen orau?" ewch drwy pob un a datgelu o ble y benthycwyd yr arian a beth yw'r APR. Mae'n ddefnyddiol pwysleisio y bydd cost rhywbeth yn amrywio'n sylweddol yn ddibynnol ar ein hangen i fenthyca arian i'w gael ac o ble y daw'r arian hwnnw a'r cyfnod o amser a gymerir i'w ad-dalu. Mae'n werth gwirio hyn cyn i ni fenthyca oherwydd efallai na fydd yr esgidiau am £50 yn gymaint o fargen wedi'r cwbl os bydd y gost derfynol i ni yn £100 gan barhau i dalu amdanynt ar ôl iddynt fynd yn hen a chael eu taflu!

Cam 5) I ymestyn yr adolygiad ymhellach defnyddiwch yr awgrymiadau da ar gyfer credyd ar ddiwedd yr adran a rhowch wybodaeth ar undebau credyd lleol a ffynonellau eraill o wybodaeth fel gwefan y gwasanaeth cynghori ariannol: ***www.moneyadviceservice.org.uk/en/articles/borrowing-and-credit-basics***

© Developing Youth Practice Ltd

Pwyntiau adolygu MINDSPACE

Cymhelliant – Beth oedd y cymhelliant ar gyfer pob un o'n hunigolion i ddewis yr opsiwn ariannol a ffafriwyd ganddynt? Beth oedd y rheswm dros beidio â chynilo? Faint o arian fydd rhywun yn ei golli drwy fenthyca yn hytrach na chynilo ar gyfer rhywbeth a ddymuna?

Normau – Faint o ddylanwad gafodd ffrindiau'r unigolion arnynt? Pa ddewis arall oedd ar gael iddynt?

Hunan falchder – Sut ydych chi'n teimlo'n bersonol pan fyddwch yn cael rhywbeth newydd? Sut ydych chi'n teimlo'n bersonol pan fyddwch mewn dyled?

Awgrymiadau Da ar Gostau Credyd

1. Meddyliwch amdani

- Ydych chi wirioneddol angen/eisiau'r eitem hon?
- Allwch chi ddisgwyl hyd nes i chi gynilo amdani?
- Allwch chi brynu enghraifft ratach neu ei chael yn ail-law?

2. Faint fydd hi'n ei gostio?

- Allwch chi fforddio'r ad-daliadau? (A beth fydd yn digwydd os fethwch daliad?)
- Am ba hyd y bydd yn rhaid i chi dalu?
- Beth fydd cyfanswm y gost? (yn cynnwys llog ac unrhyw gostau eraill fel diogelu taliadau, gwarant estynedig ac ati)

3. Cymrwch eich amser wrth feddwl amdano a chwilio am y fargen orau

- A allwch chi gael gwell bargen yn rhywe arall?
- Meddyliwch yn ofalus, a pheidiwch â chael eich brysio

> Gwnes y gweithgaredd hwn gyda grŵp wythnos yn ôl, ac ar y diwedd dywedodd pawb eu bod yn dymuno mynd â'r ffigurau adref i ddangos i'w teuluoedd yn sgil y syndod a gawsant wrth sylweddoli faint yn rhagor na phris gwreiddiol yr eitem yr oeddent yn ei dalu.

Gweithiwr twll yn y wal, Pobl Annibynnol 16-25, Bryste

Cymeriad 1 – Lee
Darparwr benthyciadau stepen drws



Mae Lee yn 17 oed. Ar hyn o bryd mae Lee ar orchymyn atgyfeiriol am ymosod ac mae'n gweithio gyda'r Gwasanaeth Troseddwyr Ieuenctid. Er bod gan Lee weithiwr troseddwyr ieuenctid nid yw'n gweithio gydag unrhyw wasanaethau cefnogol i ddelio â materion fel tai, cyflogaeth a chymorth ariannol. Ni fyddai Lee yn ystyried ei hun yn ddigartref er nad oes ganddo lety sefydlog a bu'n cysgu ar lawr tŷ ei ffrind ers rhyw fis.

Mae'n cael arian drwy fenthyca gan ffrindiau a dwyn mân bethau, ac yn ddiweddar mae Lee wedi dechrau benthyca gan ddarparwr benthyciadau stepen drws. Mae Lee wedi defnyddio peth o'r arian i ad-dalu rhai o'i ffrindiau, i brynu bwyd, i roi rhagor o gredyd ar ei ffôn symudol ac i brynu canabis ac ecstasi sydd, meddai, yn ei helpu i ddelio â straen y sefyllfa.

Mae'n prynu canabis ac ecstasi nid yn unig er defnydd personol, ond i'w werthu ymlaen a chreu elw hefyd. Cafodd Lee ganiatâd i dalu'n rhannol am y cyffuriau yn awr a'r gweddill rhyw dro eto ond bellach nid oes ganddo arian i fedru gwneud hynny. Mae Lee yn bryderus iawn am oblygiadau hyn.

Yn ogystal ni lwyddodd y darparwr benthyciadau stepen drws i ddiffinio termau'r benthyciad £500 gan nodi y gallai Lee ad-dalu 'pan oedd yr arian ganddo'. Mae amser yn prysur fynd heibio ac mae'r darparwr benthyciadau wedi cychwyn rhoi pwysau ar Lee i gychwyn ad-dalu.

Defnyddiwch y tabl hwn a chyfrifiannell i gyfrifo faint o log fydd eich unigolyn ifanc yn eich astudiaeth achos wedi ei dalu i gyd os bydd yn talu dros 1 neu 2 flynedd.

© Developing Youth Practice Ltd

Cymeriad 2 – Chantelle
Cerdyn siop

Mae Chantelle yn 18 oed ac yn unigolyn sy'n gadael gofal. Ar hyn o bryd mae hi ar gynllun prentisiaeth gan fynychu bedair gwaith yr wythnos. Nod y cynllun yw grymuso Chantelle gydag amryw o sgiliau, a'r hyder i geisio cyflogaeth. Mae'n disgrifio'r cyfan yn ddiflas oherwydd "y cwbl mae'n nhw'n ei wneud ydi celf a chrefft a does dim bechgyn golygus yno". Er ei bod hi bron â gadael y cynllun dywed ei bod hi angen yr arian a gynigir gan y cynllun sydd, ynghyd â'r arian a gaiff gan y tîm gadael gofal am fynychu'r brentisiaeth, yn rhoi mwy iddi nag a gynigir gan y lwfans ceisiwr gwaith. Ar hyn o bryd mae'n byw mewn llety a gefnogir, sef prosiect sy'n mynnu bod ganddi nifer o ymrwymiadau ariannol rheolaidd.

Mae Chantelle yn teimlo'n ynysig yn ei llety ac nid oes fawr o fywyd cymdeithasol. Mae hi'n rhoi hwb i'w delwedd a'i hyder drwy siopa am ddillad. Ers bod yn 18, mae Chantelle wedi cael 3 cerdyn siop gyda Top Shop, Miss Selfridges a New Look. Gydag APR uchel ni sylweddolodd Chantelle faint y byddai angen iddi ad-dalu ar ben y £500 a wariwyd ganddi eisoes.

Mae Chantelle yn hoff o yfed yn rheolaidd gan wario ei harian ar alcohol, sef gwin a seidr rhad yn aml. O ganlyniad i'r holl alcohol mae'n ei yfed a'r sefyllfaoedd bregus mae'n eu hwynebu'n aml yn ei diod, mae gweithiwr cymdeithasol gadael gofal Chantelle wedi ei disgrifio fel rhywun sydd mewn peryg ac yn rhywiol fregus.

Defnyddiwch y tabl hwn a chyfrifiannell i gyfrifo faint o log fydd eich unigolyn ifanc yn eich astudiaeth achos wedi ei dalu i gyd os bydd yn talu dros 1 neu 2 flynedd.

Cymeriad 3 – Lisa
Undeb credyd

Mae Lisa yn 18 oed ac yn ddi-waith. Mae hi'n fam sengl yn byw ar ei phen ei hun mewn fflat un ystafell wely. Gan wynebu cryn anhawster wrth ymdopi ar yr ychydig o arian sydd ar gael iddi, mae'n derbyn cymhorthdal incwm a budd-dal plant. Yn ddiweddar cafodd Lisa fenthyciad o £500 gan ei hundeb credyd lleol. Gwarir cyfran helaeth o arian Lisa ar eitemau sydd eu hangen ar gyfer ei merch a gwneir y rhan fwyaf o'r pryniant drwy'r catalog gan brynu dillad iddi hi ei hun, ei merch a'r cartref. Mae Lisa'n defnyddio'r arian i ad-dalu biliau catalog drud a rhoi arian ychwanegol iddi ei wario.

Mae Lisa'n cydnabod ei bod angen cymorth gydag arian ac mae'n ei chael hi'n anodd ymdopi. Serch hynny, mae'n gyndyn i geisio cymorth gan ei bod hi'n teimlo bod pobl, yn enwedig rhai proffesiynol, yn ei hwfftio ac yn methu â chydymdeimlo â'i sefyllfa. Y llynedd ymosododd Lisa ar lafar ar wraig sy'n gweithio yn y Ganolfan Byd Gwaith gan dderbyn rhybudd gan yr Heddlu o ganlyniad. Mae Lisa o'r farn nad oes ganddi broblemau rheoli tymer ac mai ei sefyllfa ariannol sydd wrth wraidd y broblem hon.

Defnyddiwch y tabl hwn a chyfrifiannell i gyfrifo faint o log fydd eich unigolyn ifanc yn eich astudiaeth achos wedi ei dalu i gyd os bydd yn talu dros 1 neu 2 flynedd.

© Developing Youth Practice Ltd

Cymeriad 4- Paul Cerdyn Credyd

Mae Paul yn 20 oed. Mae ganddo swydd ran-amser mewn bar yn cael £50 yr wythnos mewn arian parod. Mae Paul wedi cychwyn amryw o gyrsiau cyflogaeth a phrentisiaethau ond nid yw'n llwyddo i'w cwblhau ac nid yw'n gweld pwrpas eu mynychu. Mae'n byw gyda'i fam ac ar hyn o bryd yn ystyried ymuno â'r fyddin. Serch hynny, oherwydd ei ymddygiad gwael yn y gorffennol a'i gollfarnau troseddol am ysmosod a dwyn, mae'n annhebygol y caiff ei dderbyn.

Mae nifer fawr o ffrindiau Paul o'r ystâd yn ddi-waith ac yn beio'r mewnfudwyr a ffoaduriaid am 'gymryd' eu swyddi nhw. Gall Paul a'i ffrindiau fod yn wyllt, yn tarfu ar bobl a bod yn fygythiol. Mae ganddo gariad wahanol bob wythnos ac yn mwynhau dangos ei hun a'i ddelwedd. Er mai ef yw'r 'boi caled' ymysg ei ffrindiau, mae'n dotio at ei fam.

Mae gan Paul ddiddordeb mawr mewn ceir ac wedi cymryd benthyciad o £500 ynghyd â'r arian a gafodd gan ei fam i'w fenthyca er mwyn prynu car ail-law. Bydd yr arian nid yn unig yn ei alluogi i brynu'r car ond i gael rhai manion ychwanegol arno hefyd, olwynion aloi, goleuadau neon ac ati.

Defnyddiwch y tabl hwn a chyfrifiannell i gyfrifo faint o log fydd eich unigolyn ifanc yn eich astudiaeth achos wedi ei dalu i gyd os bydd yn talu dros 1 neu 2 flynedd.

Tabl costau credyd

Enw	Taliad misol	Cyfnod y benthyciad	Cyfanswm a dalwyd	Cyfanswm y llog a dalwyd	Cyfradd Ganrannol Flynyddol (APR)
Lee (darparwr benthyciadau stepen drws)	£ 70	1 flwyddyn	£833	£333	177%
	£ 51	2 flynedd	£1223	£723	
Chantelle (Cerdyn siop)	£ 46	1 flwyddyn	£551	£51	19.9%
	£ 26	2 flynedd	£601	£101	
Lisa (undeb credyd)	£ 45	1 flwyddyn	£536	£36	13.68%
	£ 24	2 flynedd	£570	£70	
Paul (cerdyn credyd)	£ 48	1 flwyddyn	£575	£75	29.8%
	£ 28	2 flynedd	£649	£149	

© Developing Youth Practice Ltd

10.3 Gweithgaredd - Darllen y Print Mân

Beth yw hyn?
Un o'r anawsterau wrth gymryd cynnyrch ariannol fel cardiau siop, cytundebau ffôn symudol, cyfrif banc neu yswiriant yw nad ydym yn gwybod yn iawn beth yw hyd a lled y cynnyrch, p'un ai fod hyn ynghylch rhywbeth y dymunwn ei gael neu sydd ei angen arnom a beth yw'r gost, yn ogystal â'r cosbau y bydd yn ofynnol i ni eu talu heb sylweddoli hynny. Felly mae'n hanfodol ein bod yn deall 'hyd a lled y fargen' o'r wybodaeth a gawn.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Cyfres o daflenni lleol yn rhoi gwybodaeth ar gredyd, cardiau siop, bargeinion ffôn symudol, cyfrifon banc (megis cyfrifon cyfredol gyda nodweddion ychwanegol fel yswiriant)
- Papur siart fflip a beiros

Sut ddylwn i redeg y gweithgaredd?
Cam 1) Rhannwch y bobl ifanc yn grwpiau o 3 neu 4 gan roi detholiad o 3 i 5 o daflenni i bob grŵp ar ystod o gynnyrch ariannol ynghyd â phapur siart troi a beiros. Eglurwch bod "angen i bob grŵp ddefnyddio'r taflenni hyn i ganfod yr holl ffyrdd y bydd y cwmni sy'n gyfrifol am y cynnyrch yn gwneud arian ar eich traul chi a nodwch y rhain ar eich papur siart troi". Rhowch 10-15 munud i bob grŵp wneud hyn, gan fynd o amgylch pob un ohonynt i wirio eu bod yn deall y dasg a chynigiwch gymorth os bydd ei angen. Os bydd angen anogaeth, gallwch ofyn:

- A oes unrhyw ffioedd wrth fenthyca'r arian
- A oes costau os methir unrhyw daliad
- Beth sy'n digwydd os byddwch yn mynd dros drothwy'ch tariff
- A oes yna unrhyw gostau ychwanegol fel yswiriant
- Beth yw'r APR (cyfanswm y llog a godir arnynt)

Cam 2) Gofynnwch i bob grŵp rannu'r hyn a ganfuwyd ganddynt, gan ychwanegu unrhyw bwyntiau na nodwyd ganddynt.

Cam 3) Dechreuwch drafodaeth ynglŷn â'u profiad nhw o gael eu baglu gan y print mân. Yn ogystal, trafodwch sut mae hysbysebion a marchnata dwys yn eu rhoi dan bwysau i ymgymryd â'r cytundebau hyn a phethau eraill sy'n eu rhoi dan bwysau e.e. i ffrindiau gymryd cytundeb ffôn symudol ar eu rhan.

Cam 4) Adolygu - "a lwyddodd unrhyw beth a ganfuwyd i beri syndod?" Beth fyddent yn ei wneud yn wahanol y tro nesaf y byddant yn ystyried ffôn symudol newydd, cerdyn credyd neu gerdyn siop?

Pwysleisiwch y pwyntiau canlynol:

- Gall y costau amrywio rhwng y gwahanol ddarparwyr benthyciadau a chwmnïau
- Mae nifer o ffyrdd y gall darparwyr benthyciadau a chwmnïau wneud arian ar ein traul ni
- Weithiau rydym yn talu am rywbeth nad oes dymuniad nac angen amdano
- Gall fod pwysau i'n hannog i gymryd bargeinion neu gytundebau
- Felly mae'n bwysig gwirio'r ffeithiau a bod yn gadarn

10.4 Gweithgaredd - Uwch, Is

Beth yw hyn?
Mae'r gweithgaredd yn ffordd dda i gael pawb yn gyfforddus ac i baratoi ar gyfer sesiwn ar gredyd. Mae'n seiliedig ar y sioe deledu 'Play Your Cards Right'. Nod y gweithgaredd yw codi ymwybyddiaeth ynglŷn â chost credyd a sut y gall APR fod yn ffordd ddefnyddiol o gymharu costau.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Cost Cardiau Credyd - gweler tudalennau 88, gallwch addasu'r rhain i gynrychioli ffynonellau lleol o fenthyca
- Datblygu'r cardiau sy'n gweithio'n dda fel maint A4. Mae angen i'r rhain fod yn ddwyochrog gyda'r logo a swm a fenthycir gyda'r cyfnod amser ar y blaen e.e. 'Benthyciad £1,000 dros 12 mis', a'r APR a'r swm i'w dalu yn ôl ar y cefn e.e. '23.9%, ad-dalu £120.92'

Sut ddylwn i redeg y gweithgaredd?
Cam 1) Gallwch gynnal y gweithgaredd hwn fel grŵp mawr neu fel gêm rhwng timau – gan ddyfarnu pwyntiau am ddyfalu'n uwch neu'n is yn gywir.

Cam 2) Dangoswch y cyntaf o'ch cardiau, yn gyntaf y blaen sy'n cynnwys ffynhonnell y credyd ac yna dangoswch yr ochr arall i ddangos y cefn sy'n rhoi'r APR os benthyciwch gan y cwmni hwn ac arwyddocad hyn o safbwynt yr arian ychwanegol y byddech yn ei dalu.
Cam 3) Dangoswch flaen y cerdyn nesaf a gofyn "a yw'r APR (cost benthyca) yn uwch neu'n is na'r cerdyn diwethaf?" Yna dangoswch yr ateb iddynt drwy droi'r cerdyn drosodd. Daliwch ati hyd nes i chi ddangos y cardiau i gyd.

Cam 4) Adolygu - gofynnwch "beth oedd eich ymateb? Unrhyw beth annisgwyl?" Mae'n bwysig pwysleisio mai enghreifftiau yn unig yw'r rhain o gyfraddau nodweddiadol ar gyfer y gwahanol ddarparwyr benthyciadau oherwydd byddant yn amrywio drwy'r adeg felly bydd angen eu gwirio'n rheolaidd gyda'r darparwr i weld beth yw'r gyfradd ar yr adeg o fenthyca (weithiau, y bobl sydd â'r statws credyd gorau yn unig sydd yn cael manteisio ar y cyfraddau gorau, megis perchnogion tai ac ati).

Cydnabyddiaeth: Canolfan Cyngor ar Bopeth Gogledd Swydd Warwick

© Developing Youth Practice Ltd

10.5 Gweithgaredd - gweithgaredd Ymwrthod y Pwysau

Beth yw hyn?
Gall fod yn anodd peidio ildio i bwysau'r farchnad a bod yn gadarn er mwyn cael y cynnyrch a ddymunwn. Mae amryw o bobl yn ei chael hi'n anodd delio â sefyllfaoedd gwrthdrawol gan brynu cynnyrch nad oes eu hangen arnynt mewn gwirionedd oherwydd techneg chwim y gwerthwr, gan brynu rhywbeth na allant ei fforddio. Mae bod yn hyderus wrth ddweud na yn gwrtais ond yn gadarn yn allu gwerthfawr i'w gael mewn unrhyw sefyllfa. Dyluniwyd y gweithgaredd hwn i feithrin ymwybyddiaeth ynglŷn â pham yr ydym yn llawer yn rhy aml yn wynebu sefyllfa lle bwriadwn brynu un peth, ond yn gadael gyda rhywbeth cwbl wahanol! Mae'r gweithgaredd hwn o gymorth i bobl ifanc hefyd ddeall sut i gael yr hyn a ddymunant drwy fod yn gadarn ac i ymarfer strategaethau ac ymddygiadau i'w helpu fod yn fwy cadarn.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Cardiau 'Bod yn Gadarn' tudalennau 89
- Llungopïau o Gerdyn Astudiaethau Achos tudalennau 89

Sut ddylwn i redeg y gweithgaredd?
Cam 1) Gofynnwch "faint ohonoch sydd wedi mynd i mewn i siop gyda'r bwriad o brynu un peth ac yn dilyn trafodaeth gyda'r gwerthwr wedi dod allan efo rhywbeth ddwywaith y pris?" neu "sydd wedi cael eich rhoi dan bwysau i gymryd yswiriant ar ffôn yn groes i'ch ewyllys – neu gael cerdyn siop pan mae gennych 10 ohonynt eisoes yn eich poced?" Eglurwch fod y gweithgaredd hwn yn edrych ar sut a pham yr ydym yn cyrraedd y sefyllfaoedd hyn a sut i ddianc rhagddynt.

Cam 2) Rhannwch y bobl ifanc yn barau. Rhowch set o gardiau 'Bod yn Gadarn' i bob pâr a gofyn iddynt baru dau hanner y brawddegau â'i gilydd. Eglurwch fod rhai o'r brawddegau'n disgrifio ystyr bod yn gadarn ac eraill yn rhoi cyngor ar sut i fod yn gadarn.

Cam 3) Dewch â'r grŵp yn ôl at ei gilydd a thrafod y brawddegau, gan gychwyn gydag ystyr y gair 'cadernid' ac yna'r awgrymiadau neu gyngor:

- Faint o'r sgiliau hyn, yn eu barn nhw, sydd ganddynt?
- Beth oedd y peth(au) anoddaf i'w gwneud?
- Beth sy'n ein hatal rhag bod yn gadarn mewn rhai sefyllfaoedd? (Dylai atebion gynnwys: teimlo'n swil, ddim yn deall yr hyn sy'n cael ei werthu i chi, teimlo'n ofnus a bod yn rhaid i chi fwrw ymlaen â'r cyfan, cael eich perswadio fod gan pawb y cynnyrch hwnnw)
- All unrhyw un roi enghraifft o adeg pan ddigwyddodd hyn iddo?

Cam 4) Yn yr un parau neu rai gwahanol rhowch y pedwar cerdyn astudiaethau achos iddynt. Gofynnwch iddynt fynd trwy'r astudiaethau achos, gydag un yn chwarae rhan yr unigolyn sydd dan bwysau a'r llall yn rhoi'r pwysau (e.e. gwerthwr). Swyddogaeth yr unigolyn sy'n chwarae'r rhan gyntaf yw i ddweud na yn gadarn, a swyddogaeth y llall yw ceisio perswadio'r cyntaf i gytuno (gall hyn gynnwys ymbil, annog a bwlio ar lafar). Rhowch dri munud i bob pâr ar bob astudiaeth achos, gan gyfnewid swyddogaethau ar ôl pob astudiaeth achos (e.e. sefyllfa un - unigolyn ifanc 1 yn chwarae rhan yr unigolyn cyntaf, unigolyn ifanc 2 yn chwarae rhan yr ail unigolyn. Sefyllfa 2 - unigolyn ifanc 1 yn chwarae rhan yr ail unigolyn, unigolyn ifanc 2 yn chwarae rhan yr unigolyn cyntaf ac ati).

Cam 5) Adolygu - wedi i bob un senario gael ei gwblhau (neu bod amser ar ben), trafodwch gyda'ch gilydd: y gwahanol ffyrdd y ceisiodd pobl berswadio'r unigolyn i ddweud ie; pa mor anodd oedd hi i barhau i ddweud na; a ildiodd unrhyw un – a sut deimlad oedd hynny; a oedd unrhyw un yn ymosodol; a gwerth medru dweud na.

Addaswyd o MoneyAware – UK Youth 2010

45 munud

Pwyntiau adolygu MINDSPACE

Cymhelliant – Beth yw'r fantais i mi drwy ddweud ie i fenthyciad? Beth ydw i yn ei ofni ei golli drwy ddweud na?

Normau – I ba raddau ydw i'n cael fy nylanwadu gan fy angen i fod fel pawb arall? Alla i barhau i wneud hyn heb fenthyca arian?

Hunan falchder – Sut fydda i'n teimlo os dywedaf ie? Sut fydda i'n teimlo os dywedaf na? Wrth ddweud na byddaf yn cynilo rhagor i'r dyfodol - sut deimlad fydd hynny?

Cost of credit

Benthyciad £1k dros 12 mis

23.9% APR

Ad-dalu £1,120.92

SHOPACHECK

£300 dros 32 wythnos

399.7% APR

Ad-dalu £480

£500 am 12 mis

272% APR

Ad-dalu £910

Undeb Credyd

£500 am 12 mis

24.9% APR

Ad-dalu £562.84

(Ffigurau Undeb Credyd Glasgow)

£400 (uchafswm) dros 28 diwrnod

4,214% APR

Ad-dalu £517.48

Prynu fel PSP Vita dros 52 wythnos *(Pris siop gemau £219.99)*

29.9% APR

Ad-dalu £327.51

(£571.48 gyda sicrwydd gwasanaeth)

© Developing Youth Practice Ltd

Ymwrthod y Pwysau Cardiau Bod yn Gadarn

Parchu barn pobl eraill,	hyd yn oed os ydych yn anghytuno â nhw
Byddwch yn	glir ac yn gadarn
Mewn achosion lle na fedrwch wrthod,	eglurwch fod y sefyllfa'n achosi anhawster i chi a cheisiwch negodi er mwyn gwneud y sefyllfa'n fwy derbyniol i chi
Cydnabod y	gallwch ac eich bod yn gwneud camgymeriadau
Credu	yn eich hun
Peidiwch â siarad yn aneglur neu faglu dros eich geiriau,	a pheidiwch ag ymddiheuro'n rhy aml (e.e. dweud sori o hyd, a rhoi nifer o resymau)
Bod yn glir	yn yr hyn a ddymunwch
Edrychwch ar yr unigolyn arall	yn fyw ei lygad wrth siarad ag ef
Meddyliwch am	yr hyn a ddymunwch cyn ei drafod
Bod yn bwyllog	a chadw rheolaeth arnoch eich hun

Cerdyn Astudiaethau Achos

Gweithiwch drwy bob un o'r astudiaethau achos hyn gan newid unigolyn un ar ôl pob astudiaeth (dweud na yn gadarn) a newid unigolyn dau (perswadio'r unigolyn cyntaf i gytuno).

1. Mae ffrind da yn gofyn i chi fenthyca £20 iddo dros y penwythnos ac mae'n addo ad-dalu ar ddydd Llun. Serch hynny, bu iddo fenthyca arian gennych o'r blaen a bu'n hir iawn cyn eich ad-dalu. Yn ogystal rydych braidd yn brin o arian eich hun ar hyn o bryd.

2. Rydych yn mynd i mewn i siop ac yn dewis ffôn talu wrth fynd eithaf syml a fydd, yn eich barn chi, yn ddelfrydol ar gyfer galwadau a negeseuon testun. Ond mae'r cynorthwyydd yn y siop yn eithriadol o ymwthiol ac yn dweud y gallech gael un sydd â chamera gwych a llawer o nodweddion eraill ar gytundeb y gallech ei fforddio'n sicr yn ei barn hi.

3. Mae'r cynorthwyydd mewn siop yn benderfynol o werthu gwarant i chi ar declyn MP3 yr ydych newydd ei brynu. Gwyddoch fod gwarantau yn ddrud iawn ac nid yn cynnig gwerth am arian, ond nid yw'r cynorthwyydd yn fodlon derbyn na fel ateb gennych.

4. Rydych mewn siop gyda ffrind sy'n dymuno i chi brynu rhywbeth. Dywed y gallwch fwy neu lai ei fforddio, ond gwyddoch fod eich dyledion yn cynyddu. Mae eich ffrind yn parhau i ddweud y gallwch ei roi ar eich cerdyn credyd a'i ad-dalu ymhen amser.

11. Rhoi Cymorth i bobl Ifanc Reoli Dyledion

Trosolwg

Gall profi anawsterau wrth dalu biliau arwain at ddyledion a gall y sefyllfa fynd allan o bob rheolaeth gyda chanlyniadau difrifol. Mae'n bwysig ymateb yn gyflym os aiff pethau o chwith ac i gael cyngor arbenigol lle bydd angen hynny. Gall pobl ifanc yn amlach na pheidio ddewis osgoi delio â'r broblem, yn bennaf oherwydd eu diffyg hyder ynghylch eu gallu i ddatrys y sefyllfa.

Amcanion

Bydd y syniadau a'r gweithgareddau isod yn eich helpu i:

- Feithrin ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r gwahanol fathau o ddyledion a'u heffeithiau
- Cynyddu gwybodaeth a hyder pobl ifanc wrth ymdrin ag anawsterau ariannol cyn iddynt droi'n ddifrifol ac i'r bobl ifanc geisio gymorth pan fydd ei angen arnynt.
- Rhannu gwybodaeth gyda phobl ifanc ynglŷn â ble i fynd am gymorth arbenigol ar ddyledion



© Developing Youth Practice Ltd

11.1 Gweithgaredd - A yw Dyled o Bwys?

Beth yw hyn?
I bobl ifanc fedru cymryd dyledion o ddifrif rhaid iddynt sylweddoli, yn bersonol, beth yw rhai o anfanteision llithro i mewn i ddyled. Efallai y byddant yn ymwybodol o rai o'r enghreifftiau mwyaf amlwg a chyffredin megis bod dan bwysau i ad-dalu ond efallai nad ydynt yn ymwybodol o rai o'r problemau hirdymor megis yr anallu i fenthyca yn y dyfodol o ganlyniad i statws credyd gwael neu golli cartref oherwydd yr anallu i dalu rhent.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Papur siart fflip a beiros
- Papurau Post-it

Sut ddylwn i redeg y gweithgaredd?
Cam 1) Cyflwynwch y gweithgaredd hwn drwy ofyn am farn y grŵp ynglŷn â sut mae pobl yn mynd i drafferthion wrth geisio talu eu biliau'n brydlon ac yn mynd i ddyled yn sgil hynny. Ysgrifennwch rai o'r syniadau hyn ar siart troi.

Isod ceir rhestr o awgrymiadau defnyddiol:
- Colli swydd
- Gadael cartref neu symud i mewn i gartref newydd
- Perthynas yn chwalu
- Salwch neu anabledd
- Trafferthion gyda budd-daliadau
- Dibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol
- Problemau gamblo
- Dan bwysau i wario/ credyd ar gael

Cam 2) Rhowch y bobl ifanc mewn grwpiau llai a rhowch nodiadau post-it a beiro i bob grŵp. Gofynnwch iddyn nhw feddwl am gymaint ag y gallant o ganlyniadau bod mewn dyled/heb dalu biliau'n brydlon gan ysgrifennu pob syniad ar post-it ar wahân a'u gludo ar y siart troi. Ewch o amgylch y grwpiau ac os byddant angen awgrymiadau gofynnwch iddyn nhw feddwl am bobl maent yn eu hadnabod sydd wedi profi dyledion a pha effaith gafodd hyn arnynt, neu raglenni a welsant ar y teledu neu ddarllen mewn papur newydd.

Isod ceir rhestr o awgrymiadau defnyddiol a fydd o gymorth:
- Straen, pryder, dicter, ofn, cywilydd
- Osgoi'r broblem ac osgoi rhai pobl
- Materion iechyd
- Rhagor o anawsterau ariannol
- Anawsterau i'r dyfodol megis anallu i fenthyca ar gyfer car neu gartref

Cam 3) Grwpiwch y post-its yn bynciau o syniadau wrth i'r bobl ifanc eu gosod.

Cam 4) Adolygu - Crynhowch y prif syniadau ac ychwanegwch unrhyw beth sydd ar goll. Pwysleisiwch y gall mynd i anawsterau gyda'n biliau gael effaith ddifrifol iawn ar ein bywydau felly mae'n bwysig peidio ag anwybyddu'r broblem a gobeithio y gwnaiff hi ddiflannu wrth i bethau fynd o chwith.

12 Gweithgaredd - Sut Mae Pethau'n Cychwyn Mynd O'i Le a Beth Allwn Ni Ei Wneud?

Beth yw hyn?
Cam pwysig yw i bobl ifanc fedru sylwi pan fydd pethau'n mynd o chwith ac ystyried beth yw'r pethau gorau i'w wneud i atal y broblem rhag gwaethygu, gan gynnwys cael cymorth a chyngor.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Cardiau senarios - gweler tudalennau 93
- Cardiau opsiynau - gweler tudalennau 93-95 Un set ar gyfer pob grŵp
- Cardiau gwag
- Beiros

Sut ddylwn i redeg y gweithgaredd?
Cam 1) Rhowch y bobl ifanc mewn grwpiau, gyda senario gwahanol i bob un, set o'r cardiau opsiynau, ychydig o gardiau gwag a beiro. Gofynnwch iddynt ddarllen drwy eu senario ac yna edrych ar yr opsiynau a dewis manteision ac anfanteisio bob un. Mae'r cardiau gwag ar gyfer nodi unrhyw syniadau eraill a ddaw i'r cof. Pwysleisiwch gyda'r gweithgaredd hwn nad oes ateb cywir nag anghywir ac y gall pobl gynnig ystod o syniadau gwahanol. Rhowch 10 munud iddynt wneud hyn, ac ewch o'u hamgylch gan annog sgwrs a gofyn pethau fel:

- Pa opsiynau maent am eu dewis a pham hynny?
- Pa opsiynau maent am eu hanwybyddu a pham hynny?
- Beth sy'n eu hatal rhag dewis y rhain?

Cam 2) Unwaith y bydd pawb wedi gorffen, gofynnwch i bob grŵp yn ei dro i roi enghraifft o opsiwn ar gyfer eu cymeriad a manteision ac anfanteision y dewis hwnnw

Cam 3) Adolygwch - pan fydd pob grŵp wedi cynnig rhai syniadau, trafodwch y rhesymau am y dewisiadau fel un grŵp mawr. Mae'n bwysig pwysleisio y gallwn brofi anawsterau wrth dalu'n biliau am amryw o resymau ond y peth pwysig i'w gofio yw'r angen i weithredu ar unwaith pan fydd pethau'n mynd o chwith, gweler y dolenni isod.

30 munud

© Developing Youth Practice Ltd

Cardiau Senario

1. Pan oeddwn yn siopa am bâr o jîns beth amser yn ôl dywedwyd wrthyf y gallwn gael gostyngiad o 20% wrth gael cerdyn siopa. Y cwbl oedd angen i mi ei wneud oedd cwblhau ffurflen ac yna derbyniais y cerdyn drwy'r post. Ers hynny rwyf wedi prynu llawer o bethau gyda'r cerdyn a bellach mae gennyf ddyled o £600 arno ac ni allaf ei ad-dalu. Bob tro y byddaf yn cael llythyr ynglŷn â hyn mae'r arian sy'n ddyledus gennyf yn cynyddu felly erbyn hyn rwyf wedi rhoi'r gorau i agor yr amlenni. Wn i ddim beth i'w wneud.

2. Mae fy mam bob amser yn pryderu ynglŷn ag arian ac yn dueddol o yfed bob nos. Mae'n benthyca arian gan rhywun sy'n dod i'n fflat. Rwy'n credu mai rhywun sy'n byw ar yr ystâd yw hi oherwydd mae'n gyfarwydd i mi. Rwyf wedi cychwyn dwyn o siopau gyda fy ffrindiau er mwyn cael y pethau sydd eu hangen arnaf yn hytrach na gofyn i fy mam am arian. Ond mae fy ffrindiau wedi cychwyn dwyn pethau i'w gwerthu. Mae'r cyfan yn dechrau mynd allan o bob rheolaeth. Wn i ddim beth i'w wneud.

3. Dros yr wythnosau diwethaf mae fy ffrindiau a mi wedi cychwyn arbrofi gyda chyffuriau. Rwyf wedi benthyca £200 gan rhyw ddyn yn y dafarn. Dywedodd y byddwn ond yn gorfod talu £4.00 yr wythnos ac roedd yn arfer dod i fy nhŷ i gasglu'r arian. Erbyn hyn nid wyf yn llwyddo i dalu'n brydlon ac mae'r dyn wedi cychwyn fy mygwth felly rwy'n aros yn nhŷ fy ffrind. Wn i ddim beth i'w wneud.

4. Agorais gyfrif banc pan ddechreuais fy swydd rhan-amser oherwydd dywedwyd wrthyf y byddwn angen un er mwyn iddynt dalu fy nghyflog i mewn iddo. Pan gefais gytundeb ffôn symudol newydd trefnais daliadau misol debyd uniongyrchol o fy nghyfrif banc gan fod hyn yn gwneud y taliadau'n rhatach. Ond gan fy mod yn aml yn mynd dros drothwy fy nghytundeb mae fy nhaliadau misol fel arfer yn ddrytach nag y dylent fod a gan nad wyf wedi bod â digon o arian yn fy nghyfrif mae fy manc wedi codi ffi gorddrafft arnaf. Yn ystod y 3 mis diwethaf rwyf wedi gorfod talu ffioedd o dros £100. Wn i ddim beth i'w wneud.

Cardiau Opsiynau

Parhewch i ddwyn o siopau

Gwerthwch bethau

Newidiwch eich enw

Dywedwch wrth rhywun a cheisio cymorth

Ewch i weld gweithiwr allweddol

Gwerthwch ychydig o gyffuriau

Anghofiwch am y cyfan

Symudwch dŷ

© Developing Youth Practice Ltd

Ewch i gardota ar y strydoedd

Ewch i gael swydd

Benthycwch gan ffrindiau

Benthycwch gan eich rhieni

Gwerthwch eich teledu

Benthycwch gan ddarparwr benthyciadau stepen drws

11.3 Beth sy'n Bwysig a Beth sy'n Fater o Frys?

Beth yw hyn?
Nid yw pob dyled mor bwysig â'i gilydd. Weithiau y rhai sy'n ymddangos yn bwysig yw'r rhai lleiaf pwysig wedi'r cwbl; gallant ymddangos yn bwysig gan fod terfyn amser brys neu ein bod yn cael ein poenydio am y ddyled hon neu ein bygwth gan achos cyfreithiol. Dyluniwyd y gweithgaredd i gael pobl ifanc i ystyried yr hyn sy'n bwysig a beth sydd yn fater o frys wrth ddelio â'u biliau a'u dyledion. Bydd o gymorth hefyd i bobl ifanc sylweddoli er bod angen gweithredu'n gywir gyda'u holl filiau a'u dyledion er mwyn atal y sefyllfa rhag gwaethygu, y rhai sydd â'r canlyniadau mwyaf difrifol yw'r rhai y dylid delio â nhw fel blaenoriaeth, megis peidio talu rhent, a all arwain at golli'ch cartref.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Llythyrau ynghylch biliau heb eu talu gweler tudalennau 97-101

Sut ddylwn i redeg y gweithgaredd?
Cam 1) Rhannwch y bobl ifanc i mewn i grwpiau bach a rhowch y 6 llythyr ynghylch biliau heb eu talu i bob grŵp. Un ai defnyddiwch y llythyrau sampl a ddarparwyd, neu gopïau o lythyrau gwreiddiol gyda manylion y cleientiaid wedi eu cuddio; gellir gwneud hyn drwy lun gopïo llythyr y cleient, yna brwsio Tippex dros fanylion y cleient neu ddefnyddio beiro ddu, yna copïo'r ddalen gan wirio bod y manylion priodol wedi eu cuddio ar bob copi.

Cam 2) Rhowch 10-15 munud iddynt roi trefn ar bethau pwysig/ddim yn bwysig, brys/ddim angen brys a thrafodwch eu rhesymau. Rhybuddiwch nhw er bod rhywbeth yn fater o frys nid yw bob amser serch hynny yn bwysig hefyd, ac i'r gwrthwyneb.

Cam 3) Ewch o amgylch i wrando a gwirio'r trafodaethau a gofyn cwestiynau i annog sgwrs fel:

- Sut llwyddwyd i wneud eu penderfyniadau ar bwysigrwydd wrth iddynt roi trefn ar y llythyrau?
- A ysgrifennwyd y llythyrau mewn rhyw arddull arbennig? Pa effaith geisiwyd ei chyfleu yn y llythyrau?
- Sut fyddai'r cleientiaid yn delio â'r llythyrau tybed?

Cam 4) Adolygu - Unwaith y bydd pawb wedi cyflawni popeth sy'n bosib ganddynt, casglwch y grŵp cyfan yn ôl at ei gilydd. Mae'n bwysig bod y gweithgaredd hwn yn creu sgwrs yn hytrach na phobl yn ateb yn gywir neu'n anghywir. Ceisiwch rai syniadau o bob grŵp a phwyntiau dysgu allweddol. Rhowch bwyslais ar y ffaith nad y llythyrau a awgrymodd y brys mwyaf yw'r rhai pwysicaf bob amser. Mae peryg i ni gael ein temptio i dalu'r unigolyn sy'n gweiddi uchaf neu sy'n ymddangos fel yr un mwyaf bygythiol, gan olygu bod dyledion mwy pwysig fel rhent yn cael eu hanwybyddu. Y peth pwysicaf yw i bobl geisio cyngor arbenigol os ydynt yn derbyn y mathau hynny o lythyrau ac yn ansicr pa gamau i'w cymryd, gweler y dolenni isod.

© Developing Youth Practice Ltd

Nwy Naturiol
PO Box 222
Manceinion

Rhodfa
Trefrhywle

Ein cyf: NG/1234/05067 30 Ionawr 2013

Rhybudd Terfynol
Angen Gweithredu Ar Frys i Dalu £193.64 sy'n Ddyledus

Nid ydych eto wedi talu'ch bil Nwy er i ni anfon nodyn atgoffa atoch, yn cynnwys manylion sut y gallwch dalu'r swm dyledus.

Os na fyddwch yn talu'r swm, neu'n cysylltu â ni, cyn pen 10 diwrnod byddwn yn gweithredu er mwyn casglu'r ddyled.

Byddwn un ai'n torri'ch cyflenwad nwy neu osod mesurydd cerdyn talu ymlaen llaw. Os na fyddwch yn gadael i ni ddod i mewn i'r eiddo byddwn ar unwaith yn gofyn i'r ynadon am warant a fydd yn ein galluogi i fynd i mewn i'ch eiddo hyd yn oed os na fyddwch chi yno. Cawn wneud hyn yn gyfreithiol. Os gwnawn hyn gallai olygu y bydd raid i chi dalu costau hyd at £31.30.

Os na allwch dalu ffoniwch ni ar 0808 xxx xxx. Mae o fudd i chi gysylltu â ni i drafod trefniant ar gyfer talu.

– – – –

Bwrdeistref Llanrhywle
Neuadd y Dref Llanrhywle
Ffordd Gabriel, Llanrhywle

Rhodfa,
Llanrhywle
15 Ionawr 2013

Annwyl

Ar hyn o bryd mae gennych ddyled rhent o:

Rhent o £385.00 yn ddyledus hyd at 1 Tachwedd 2012.

Os na lwyddwch i ad-dalu'r ddyled, bydd Maer a Dinasyddion Bwrdeistref Llanrhywle yn cymryd camau cyfreithiol ac yn gwneud cais i'r Llys am orchymyn yn eich gorfodi i ildio eich meddiant o'ch cartref.

Os dymunwch drafod cynnwys y llythyr hwn dylech gysylltu â'ch Swyddog Tai Cymdogaeth.

Arwyddwyd P Chen

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol

Ar ran Maer a Dinasyddion Bwrdeistref Llanrhywle, Neuadd y Dref Llanrhywle, Ffordd Gabriel, Llanrhywle
Ffôn: 000 123 4567

© Developing Youth Practice Ltd

Casgliadau Cyfunol, 1 Stryd yr Undeb, Stryd

Llanrhywle
Llanrhywle

RHYBUDD FFURFIOL O DDWYN ACHOS CYFREITHIOL

Annwyl Ms

Mae'n ddrwg gen i nodi nad ydych yn gwneud taliadau yn unol â'r hyn a gytunwyd er ein hymdrechion i roi cymorth i chi.

NI ALL Y SEFYLLFA HON BARHAU.

Fe'ch hysbysaf yn awr o'n bwriad i gychwyn camau cyfreithiol. Rhaid i mi eich hatgoffa, os ceisir dyfarniad a'r ddyled heb ei thalu, mae'r hawl gennym i gymryd unrhyw un o'r camau canlynol, neu bob un ohonynt:

- Gwarant i Weithredu yn erbyn eich meddiannau gan feili a benodwyd gan lys;
- Atafaelu enillion yn erbyn eich cyflogwyr presennol ac i'r dyfodol;
- Methdaliad os yw'r ddyled dros £750;
- Gorchymyn arwystlo yn erbyn eich eiddo (os ydych yn berchennog cartref).

Cofnodir pob barn gyda'r asiantaethau cyfeirio credyd perthnasol a fydd yn ei gwneud hi'n anodd i chi gael adnoddau credyd yn y dyfodol.

Mae un opsiwn arall ar gael i atal unrhyw un o'r camau a ddisgrifir uchod. Cysylltwch â mi i drafod yr opsiwn hwn.

Yr eiddoch yn gywir,

A. Griffiths

Rheolwr Rhanbarthol
0111 223344

ON: PEIDIWCH AG ANWYBYDDU'R SEFYLLFA HON, NI FYDD YN CAEL EI DATRYS HYD NES I CHI HELPU NI I'CH HELPU CHI.

Cwmni Ffôn symudol
1 Stryd Newydd
Teras

Llanrhywle
Llanrhywle

Bil eich ffôn symudol
1 Awst – Medi 2012

Rhent llinell	15.00
Galwadau	5.00
Negeseuon testun	2.30
Cyfanswm	**22.30**

TALWCH YN AWR NEU GALLAI'CH FFÔN GAEL EI DDATGYSYLLTU.
WEDYN GALLECH ORFOD TALU COTAU AILGYSYLLTU.

© Developing Youth Practice Ltd

Anytown Magistrates Court
Court Buildings
Anytown

Llys Ynadon Llanrhywle
Adeiladau'r Llys
Llanrhywle

30 Tachwedd 2012

Cyf Achos:

Mr , Stryd, Llanrhywle

Eich dirwy o Cyf Achos: yw £120.00.

Mae angen talu'r ddirwy mewn rhandaliadau wythnosol o £10.00.

Os methwch daliad, ystyrir hyn yn ddiffyg taliad. Gallwn gymryd camau gweithredu pellach.

J Omari

Llofnodwyd ar ran
Gweinyddwr llys
Llys Ynadon Llanrhywle

114 Dyledion â Blaenoriaeth a Dyledion Heb Fod yn Flaenoriaeth a Goblygiadau Hynny

Beth yw hyn?
Tra bod pob dyled yn bwysig mae credydwyr a'r llysoedd yn cydnabod bod rhai yn bwysicach na'i gilydd gan fod goblygiadau mwy difrifol ynghlwm â nhw. Gelwir y rhain yn ddyledion o flaenoriaeth. Mae goblygiadau llai difrifol ynghlwm â dyledion eraill a gelwir y rhain yn ddyledion heb fod yn flaenoriaeth. Mae'n bwysig bod pobl ifanc yn ymwybodol nad yw pob dyled yn gyfartal o ran pwysigrwydd oherwydd os nad oes ganddynt ddigon o arian i dalu pawb yna rhaid blaenoriaethu a thalu'r rhai pwysicaf yn gyntaf.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Cardiau dyledion 104-108
- Cardiau goblygiadau 110-114
- Tabl yn crynhoi dyledion o flaenoriaeth/heb fod yn flaenoriaethtudalen 103 a ddatblygwyd ar gyfer ei ddosbarthu ymysg pobl ifanc

Sut ddylwn i redeg y gweithgaredd?
Cam 1) Eglurwch os byddwn yn mynd i drafferthion gyda'n biliau a'n dyledion ac heb ddigon o arian i dalu'r cwbl ohonynt, mae'n bwysig gwybod pa rai yw'r rhai mwyaf difrifol a pham felly. Gelwir y rhain yn ddyledion o flaenoriaeth. Mae'r gweddill oll yn rhai heb fod yn flaenoriaeth; nid yw hynny'n golygu nad ydynt yn bwysig ond os nad oes gennych ddigon o arian i dalu pawb yna bydd yn rhaid disgwyl cyn talu'r rheini.

Cam 2) Rhowch set o gardiau dyled i bob grŵp gyda lluniau biliau rhent, nwy, ffôn symudol ac ati arnynt. Rhaid iddynt drefnu'u cardiau yn rhai o flaenoriaeth neu heb fod yn flaenoriaeth, ar y wal, neu'r llawr neu ar y bwrdd.

Cam 3) Yna rhoddir set o gardiau goblygiadau iddynt yn ymwneud â diffyg talu'r eitemau hyn o wariant a'u cysylltu â'r gwariant cyfatebol ac ad-drefnu eu blaenoriaethau os dymunant wneud hynny.

Cam 4) Yn ystod y ddau gam uchod treuliwch amser yn mynd o amgylch pob grŵp, gan ofyn beth yw sail eu penderfyniadau a chynigiwch rai syniadau i'w helpu i roi'r dyledion mewn trefn a'u paru'n gywir gyda'r goblygiadau:

- Mae cynghorwyr ariannol yn rhannu dyledion yn rai 'blaenoriaeth' a 'heb fod yn flaenoriaeth' i'w had-dalu
- Mae blaenoriaeth yn seiliedig ar oblygiadau peidio talu
- Pwysleisiwch y gwahaniaeth rhwng yr ymarfer a wnaethon yn gynharach (hanfodol a heb fod yn hanfodol) a blaenoriaeth a heb fod yn flaenoriaeth
- Mae yna rai dyledion o flaenoriaeth cyffredin, e.e. rhent, nwy a rhai sy'm amrywio o un unigolyn i'r llall, e.e. ffôn, benthyciad car (os yw'r car yn hanfodol)

Cam 5) Adolygu - dechreuwch drafodaeth a gofyn beth yw sail eu penderfyniadau. Cadarnhewch neu gywirwch oblygiadau peidio talu am wahanol bethau, a defnyddiwch y ddalen ateb isod ar ddyledion o flaenoriaeth/ heb fod yn flaenoriaeth ac awgrymiadau da (cydnabyddiaeth: Cyngor ar Bopeth) gallwch roi copi iddynt i'w gadw. Y materion allweddol yma yw efallai na fydd pobl ifanc yn rhoi trefn ar eu dyledion yn ôl rhai o flaenoriaeth a heb fod yn flaenoriaeth, a gallwch roi cymorth iddynt drwy egluro goblygiadau hynny. Y peth pwysicaf yw i bobl geisio cyngor arbenigol os ydynt yn derbyn y mathau hyn o lythyrau ac yn ansicr pa gamau i'w cymryd, gweler y dolenni isod.

© Developing Youth Practice Ltd

Biliau a Dyledion o flaenoriaeth

Nwy a Thrydan	■ Gallai'ch cyflenwad gael ei dorri ■ Gallai'ch cyflenwad dŵr gael ei dorri ■ Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi gael mesurydd rhagdalu
Rhent neu Forgais	■ Gallech golli'ch cartref
Trwydded deledu	■ Gallech gael arian wedi ei dynnu o'ch budd-daliadau neu'ch cyflog ■ Gallai beili gymryd eich meddiannau ■ Gallech gael dirwy fawr iawn ■ Gallech gael eich rhoi yn y carchar
Treth Gyngor	■ Gallai beili gymryd eich meddiannau ■ Gallech gael arian wedi ei dynnu o'ch budd-daliadau neu'ch cyflog ■ Gallech gael eich rhoi yn y carchar
Cynhaliaeth i eraill, yn cynnwys cymorth i blant	■ Gallai beili gymryd eich meddiannau ■ Gallech gael arian wedi ei dynnu o'ch budd-daliadau neu'ch cyflog ■ Gallech gael eich rhoi yn y carchar
Dirwyon llys	■ Gallech gael eich rhoi yn y carchar
Dyledion heb fod yn flaenoriaeth	
Dyledion heb fod yn flaenoriaeth Catalog	■ Gallech gael eich dwyn gerbron llys a'ch gorchymyn i ad-dalu'r arian ■ Gall eich statws credyd ostwng ■ Gall y swm sy'n ddyledus gennych gynyddu'n sylweddol oherwydd y llog a godir
Cerdyn Credyd neu Siop	
Ffôn symudol	
Benthyciad personol e.e. gan fanc, darparwr stepen drws neu ddarparwr benthyciadau diwrnod cyflog	
Ffrindiau a theulu	

Hawlfraint gan Gyngor ar Bopeth – addaswyd o ddeunyddiau yn y pecyn hyfforddwr gallu ariannol 'rhoi cymorth i'ch cleientiaid ddelio â'u dyledion'

Sylwer: Mae darparwyr benthyciadau didrwydded yn gweithredu'n anghyfreithlon ac nid yw benthyca arian ganddynt fyth yn syniad da. Am ragor o wybodaeth, gweler www.moneyadviceservice.org.uk/en/articles/how-to-spot-a-loan-shark

dirwyon llys



nwy

rhent



© Developing Youth Practice Ltd

trydan

costau dŵr

trwydded deledu

treth gyngor

cynhaliaeth i eraill, yn cynnwys cymorth i blant

ffôn symudol

© Developing Youth Practice Ltd

cerdyn credyd

darparwyr benthyciadau stepen drws

teulu

ffrindiau

darparwyr benthyciadau didrwydded

© Developing Youth Practice Ltd

gallech fod yn ddigartref

gellir gyrru beili i gymryd eich meddiannau a'u gwerthu er mwyn ad-dalu'r ddyled

gallech gael eich rhoi yn y carchar

gellid tynnu arian o'ch budd-daliadau

gellid tynnu arian o'ch enillion

© Developing Youth Practice Ltd

catalog

benthyciad neu orddrafft gan fanc

cerdyn siop

gallai'ch cyflenwad nwy gael ei dorri

gallai'ch cyflenwad trydan gael ei dorri

mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi gael mesurydd rhagdalu

© Developing Youth Practice Ltd

gallech gael eich dwyn gerbron llys a'ch gorchymyn i ad-dalu'r arian

gallai'ch ffôn gael ei ddatgysylltu

gallech gael eich bygwth

gall y swm sy'n ddyledus gennych gynyddu'n sylweddol oherwydd y llog a godir

gall eich sgôr credyd ostwng hefyd (gan ei gwneud hi'n anoddach cael benthyca arian yn y dyfodol)

© Developing Youth Practice Ltd

11.5 Gweithgaredd - Cael Cymorth Pan Fydd Angen Hynny

Beth yw hyn?
Mae cael gwybodaeth a chyngor cywir yn gyflym yn hanfodol wrth ddelio â dyledion sy'n dod yn gynyddol amhosib i'w rheoli. Gall hyn achosi cryn bryder i bobl ifanc felly gallwch roi cymorth iddynt drwy egluro sut i geisio cymorth a'u cefnogi i wneud hynny.

Beth sydd arnaf ei angen?
- Gwybodaeth ar ffynonellau lleol o gyngor ar ddyledion
- Papur siart troi gyda'r 5 cam allweddol at gymorth isod wedi eu hysgrifennu ar y papur, a gall lluniau yn ogystal â geiriau fod o gymorth:

1. Canfyddwch ymhle y gallwch gael cymorth (ar-lein, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb) a threfnwch apwyntiad os bydd angen.
2. Casglwch yr holl wybodaeth at ei gilydd ynghylch cyfanswm eich dyledion ac i bwy, yn ogystal â sefyllfa pob dyled.
3. Casglwch yr wybodaeth at ei gilydd ynghylch pa arian sy'n dod i mewn ac yn mynd allan.
4. Cysylltwch â'r ffynhonnell o gymorth a ddewiswyd gennych.
5. Mynychwch yr apwyntiad/gwnewch yr alwad/ewch ar-lein i gael y cymorth.

Sut ddylwn i redeg y gweithgaredd?
Cam 1) Egluro ei bod hi'n bwysig cael cymorth yn gyflym pan aiff pethau o chwith yn enwedig gyda dyledion gan eu bod yn gwaethygu os cânt eu hanwybyddu. Maent am edrych ar y camau sydd ynghlwm â chael cymorth a beth i'w wneud er mwyn i'r sefyllfa gael ei datrys mor hawdd a llwyddiannus â phosibl.

Cam 2) Rhowch y 5 darn o bapur siart troi ar y llawr a chael pawb i sefyll ar yr un cyntaf a thrafod beth sydd angen iddynt ei wneud yn y rhan hon o'r daith. Yna symudwch ymlaen i'r ail ddarn ac ati hyd nes i chi gyrraedd y diwedd.

Cam 3) Adolygu - dechreuwch drafodaeth ynglŷn â'r hyn a fu o gymorth iddynt symud ymlaen ar hyd y daith. Amlygwch y pwysigrwydd o gael gwybodaeth fanwl am yr arian sydd ganddynt yn dod i mewn ac yn mynd allan yn ogystal â'r wybodaeth a'r papurau mwyaf cyfredol ynglŷn â'u dyledion cyn iddynt siarad â chynghorydd dyledion. Anogwch nhw i ddeall sut i gael cymorth ar hyd y daith gan ffrindiau, teulu, eu gweithiwr allweddol ac ati. Pwysleisiwch pa mor bryderus y gall delio â dyledion fod ond os cymerwn un cam ar y tro a cheisio cymorth, gallwn ddatrys problemau dyledion ac osgoi'r canlyniadau mwyaf difrifol fel colli cartref.

Y peth pwysicaf yw i bobl geisio cyngor arbenigol os ydynt yn derbyn y mathau hyn o lythyrau ac yn ansicr pa gamau i'w cymryd, gweler y dolenni isod.

> Mae nifer o bobl ifanc yn anwybyddu unrhyw beth sy'n ymwneud â dyledion, rwyf wedi defnyddio'r gweithgareddau hyn er mwyn ceisio annog trafodaeth.

Tiwtor Sgiliau Sylfaenol, Knightstone Housing, Bryste

Awgrymiadau da ynglŷn ag ymdrin â delio â dyledion

Y prif gyngor ar gyfer rhywun sydd â phroblemau dyledion yw cael cymorth dibynadwy gan gynghorydd arbenigol cymwys o asiantaeth annibynnol fel Cyngor ar Bopeth.

Anogwch bobl ifanc i beidio ag anwybyddu dyledion. Ni fydd dyledion yn diflannu. Wrth eu hanwybyddu gall y gost fod yn llawer uwch.

Gall greddf pobl ifanc ynglŷn â pha ddyledion yw'r rhai o flaenoriaeth fod yn dechnegol anghywir. Eglurwch hyn, ond byddwch yn hyblyg a pharchwch eu barn. Gall cytundeb ad-dalu a ddewiswyd ganddynt fod yn un maent wedi ymroi orau iddo. IYm mhob achos, mae rhywun yn dysgu drwy brofiad, ac nid yw gwneud camgymeriadau yn rhywbeth y gellid ei osgoi.

Fel arfer mae clirio dyled yn cymryd amser maith. Anogwch bobl ifanc i beidio â rhewi eu bywydau, a cheisiwch gynnwys gwobrau am lwyddiant nad ydynt yn rhai ariannol.

Rhowch y tabl isod ar ddalen i'w roi i bobl ifanc i'w gadw, a defnyddiwch y pwyntiau yn adolygiadau o'r gweithgareddau yn yr adran hon.

1		**Ond da chi, peidiwch ag anwybyddu'r broblem** - ni fydd yn diflannu. Po hiraf y gadewch y broblem, y gwaethaf fydd hi.
2		**Gwnewch y mwyaf o'ch incwm -** gwiriwch a ydych yn hawlio'r holl fudd-daliadau a chredydau treth y mae gennych hawl i'w cael. Os ydych wedi colli'ch swydd, neu i ffwrdd o'r gwaith os ydych yn sâl, gwiriwch a oes unrhyw ddyledion wedi eu diogelu gan yswiriant diogelu taliadau.
3		**Deliwch â'ch dyledion o flaenoriaeth yn gyntaf** - er enghraifft, dyledion a all arwain at golli eich cartref, neu eich nwy neu drydan wedi ei dorri.
4		**Cyfrifwch gyllideb bersonol -** dangoswch y gyllideb i'ch credydwyr pan fyddwch yn cysylltu â nhw.
5		**Cysylltwch â'ch credydwyr ar unwaith** ac eglurio'ch sefyllfa. Cysylltwch â'ch holl gredydwyr. Os byddwch yn trefnu i dalu rhai ond nid eraill, efallai y llithrwch i mewn i anawsterau unwaith eto. Nid oes angen i chi gynnig talu ar unwaith.
6		**Cyfrifwch gynnig rhesymol** i bob credydwr. Peidiwch â phoeni os bydd y cynnig yn ymddangos yn fach. Mae'n well gan gredydwyr swm bach rheolaidd yn hytrach na chynnig na allwch ei fforddio.
7		**Peidiwch â rhoi i fyny** wrth geisio cytuno ar gynnig, hyd yn oed os yw'r credydwyr yn bod yn anodd. Os nad yw'r unigolyn cyntaf y siaradwch ag ef yn cynnig llawer o gymorth, gofynnwch i siarad â rhywun sydd â mwy o awdurdod. Efallai y bydd ef yn medru cytuno i'ch cais.
8		**Cadwch gopïau bob amser** o lythyrau a phapurau a anfonwyd gennych neu a dderbyniwyd.
9		**Peidiwch â benthyca arian** i dalu eich biliau heb ystyried yn ofalus. Ceisiwch gyngor yn gyntaf. Gallai'r math hwn o fenthyca beri i chi golli'ch cartref.
10		**Ceisiwch gyngor gan y Swyddfa Cyngor ar Bopeth** neu wasanaeth cynghori annibynnol arall. Os bydd rhywun yn dwyn achos llys yn eich erbyn, gwnewch hyn ar frys. Cwblhewch ffurflenni ateb papurau llys, a rhowch yr holl ffeithiau i'r llys. Mynychwch wrandawiadau'r llys bob amser ac ewch â'ch cyllideb bersonol gyda chi.

Hawlfraint gan Gyngor ar Bopeth – addaswyd o ddeunyddiau yn y pecyn hyfforddwr galluogrwydd ariannol 'rhoi cymorth i'ch cleientiaid ddelio â'u dyledion'

© Developing Youth Practice Ltd

Ffynonellau defnyddiol o wybodaeth gan gynnwys dyled

Mae gan ***www.adviceguide.org.uk*** amrywiaeth o daflenni gwybodaeth ar gredyd a dyledion yn cynnwys 'Cymorth gyda dyledion', 'Delio â phobl y mae arnoch arian iddynt', a 'Beth sy'n digwydd os cewch eich dwyn i'r llys am arian sy'n ddyledus gennych'

Gallwch ddod o hyd i'ch Swyddfa Cyngor ar Bopeth agosaf hefyd ar Canllaw Cyngor

www.moneyadviceservice.org.uk am gyfrifianellau ar-lein ar gyfer benthyciadau, morgeisi, cyllidebau ac ati, yn ogystal â llawer o wybodaeth ddefnyddiol am gynilion a materion ariannol eraill

Mae ***www.themoneycharity.org.uk*** yn darparu addysg, gwybodaeth a chyngor ar faterion ariannol

Mae ***www.nationaldebtline.co.uk*** yn rhoi cyngor rhad ac am ddim drwy ei wefan neu drwy ffonio 0808 808 4000

Mae ***www.payplan.com*** a ***www.cccs.co.uk*** yn cynnig cyngor ariannol am ddim

12. Rhagor o Wybodaeth ac Adnoddau

Mae llawer iawn o wybodaeth a chanllaw ar gael ar-lein, yn wir cymaint nes ei gwneud hi'n anodd gwybod lle i ddechrau. Felly gallwch wneud gwahaniaeth mawr i'ch pobl ifanc drwy eu cefnogi a'u hannog wrth chwilio am yr hyn sydd ar gael.

Mae'r gwefannau canlynol yn rhoi tipyn o wybodaeth a chanllaw defnyddiol, yn ogystal â chlipiau fideo, offer rhyngweithiol ar gyfer rheoli arian, rhaglenni galluogrwydd ariannol sy'n arwain at ddysgu achrededig, a syniadau ar gyfer prosiectau ehangach.

Gallwch roi cymorth i bobl ifanc ddod o hyd i'r hyn sydd fwyaf defnyddiol iddyn nhw drwy:

- Ymgyfarwyddo eich hun gyda'r gwefannau a sut i gael mynediad at yr elfennau sydd o fwyaf o ddiddordeb i'ch pobl ifanc
- Trafod gyda nhw pa fath o wybodaeth neu ganllaw y dymunant ei gael e.e. paratoi ar gyfer newid yn eu bywydau megis gadael cartref neu gychwyn gwaith, neu bwnc penodol fel benthyca arian, rheoli dyled neu benderfynu agor cyfrif banc
- Archwilio'r gwefannau gyda nhw, eu hannog i roi cynnig arni a chydnabod nad yw hi bob amser yn hawdd a'i bod hi'n bwysig dyfalbarhau!
- Chwilio am atebion i gwestiynau penodol megis a oes gan feili yr hawl i ddod i mewn i'ch cartref.

www.moneyadviceservice.org.uk Mae gwefan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn cynnig gwybodaeth ar bob agwedd ar arian ac mae clipiau fideo yno hefyd ac offer rhyngweithiol fel gwiriad iechyd ariannol, cynllunydd cyllideb a chyfrifiannell benthyciadau.

www.adviceguide.org.uk Mae gwefan gwybodaeth gyhoeddus Cyngor ar Bopeth yn cynnig gwybodaeth ar ystod eang o feysydd yn cynnwys dyled, credyd, budd-daliadau, gwaith, gwahaniaethu a hawliau defnyddwyr a gallwch lawrlwytho taflenni gwybodaeth am y pynciau hyn hefyd. Mae'n cynnig gwybodaeth ychwanegol ar bynciau sydd yn neilltuol o berthnasol ac yn amserol fel benthyciadau diwrnod cyflog a gemau ar-lein.

Gallwch hefyd ddod o hyd i fanylion eich swyddfa Canolfan Cyngor ar Bopeth leol ynghyd â'u horiau agor os dymunwch gael cyngor wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.

www.youngscot.org/info/money Mae gan Young Scott lawer o wybodaeth ddefnyddiol am arian, cyllidebu, credyd a dyled wedi ei anelu at bobl ifanc.

www.moneysavingexpert.com yn darparu awgrymau i arbed arian a gwybodaeth ar y cynigion gorau.

www.themoneycharity.org.uk Mae Money Charity yn darparu addysg, gwybodaeth a chyngor ar faterion ariannol mewn ffordd briodol ar gyfer pobl ifanc ac oedolion. Mae'n cynnig offer ar-lein, gweithdai ariannol uniongyrchol i bobl ifanc ac yn cynhyrchu'r Llawlyfr Arian Myfyrwyr yn flynyddol, sy'n cynnwys gwybodaeth hanfodol ar Gyllid Myfyrwyr a rheoli'ch materion ariannol fel myfyriwr.

www.youthmoney.org.uk Mae Youth Money yn elusen annibynnol, di-elw gyda newyddion a syniadau ar gyfer dysgu am arian drwy brofiad. Mae'n cael ei gynnal gan y newyddiadurwr a'r awdur PJ White. Mae'n bersonol, gall fod braidd yn anarferol, ond mae'n seiliedig ar egwyddorion cadarn a rhai sy'n aml yn procio'r meddwl.

Mae gan ***www.moneymatterstome.com*** wybodaeth sydd yn hawdd i'w defnyddio ynghyd â gweithdai rhyngweithiol yn cynnwys efelychydd bancio ar-lein.

Mae ***www.pfeg.org/resources*** pfeg (Grŵp Addysg Ariannol Personol), sy'n cynnig ystod o adnoddau sy'n cefnogi'r ddarpariaeth o addysg ariannol i bobl ifanc rhwng 4 a 19 oed, yn cynnwys SEN a Phlant sy'n Derbyn Gofal. Mae Pfeg yn cynnig cyngor ymarferol a rhad ac am ddim i unrhyw un sydd ynghlwm â dysgu pobl ifanc am arian. I gysylltu â'r Gwasanaeth Cynghori ebostiwch ***support@pfeg.org*** neu ffoniwch 0300 6660 127.

Mae gan ***www.barclaysmoneyskills.com/Information/Resource-Centre/Young-people.aspx*** weithgareddau a gemau rhyngweithiol ar bynciau yn ymwneud â rheoli arian ar gyfer pobl ifanc 16-25 oed.

Mae gan ***www.cablink.org.uk/money_advice_service_helping_young_people_with_learning_difficulties_to_understand_money*** ystod o weithgareddau ar gyfer rhoi cymorth i bobl ifanc ag anawsterau dysgu ddeall arian.

Mae gan ***www.turn2us.org.uk*** wybodaeth ar gyfer cael mynediad at fudd-daliadau a grantiau, yn cynnwys cyfrifiannell budd-daliadau.

Mae ***www.nationaldebtline.co.uk*** yn cynnig cyngor yn rhad ac am ddim drwy ei wefan neu dros y ffôn 0808 808 4000.

Mae ***www.toynbeehall.org.uk*** Toynbee Hall yn cynnig gwasanaethau i roi cymorth i ystod eang o bobl, yn cynnig cyngor rhad ac am ddim, rhoi

© Developing Youth Practice Ltd

cymorth i bobl wneud y mwyaf o'u harian a gwella iechyd a lles pobl.

Hyfforddiant Pellach i Ymarferwyr Ieuenctid

Mae Developing Youth Practice, a ddatblygodd y pecyn cymorth hwn, yn parhau i ddarparu Hyfforddiant Pobl Ifanc ac Arian sydd yn sail i'r pecyn cymorth hwn. Mae'r hyfforddiant hwn yn addas i bawb sy'n dymuno rhoi cymorth i bobl ifanc reoli eu harian yn well, gyda phwyslais ar grwpiau mwy bregus. Mae'r diwrnod yn llawn gweithgareddau ymarferol ac awgrymiadau ar sut i ymgysylltu â phobl ifanc ynghylch materion ariannol, ac yn cael ei gynnal gan weithwyr ieuenctid profiadol. Mae'r hyfforddiant ar gael fel dewis Lefel 2 Achrededig gyda Rhwydwaith y Coleg Agored. Rydym yn cynnig gwasanaeth ymgynghori hefyd a sesiynau personol ar hyfforddi'r hyfforddwr i sefydliadau sy'n ceisio sefydlu galluogrwydd ariannol yn eu gwaith ehangach.

Cysylltwch i gael rhagor o fanylion:
www.developingyouthpractice.co.uk

Mae'r Rhaglen Arian am Oes yn cynnig hyfforddiant pellach hefyd:
https://www.moneyforlifeprogramme.org.uk/get-involved/money-mentors/ neu

https://www.moneyforlifeprogramme.org.uk/get-involved/teach-me/ neu

https://www.moneyforlifeprogramme.org.uk/get-involved/teach-others/

Cyfleoedd i edrych ar wybodaeth ac adnoddau gyda phobl ifanc

Sefyllfa 1

Rydych yn cael trafodaeth gyda'ch unigolyn ifanc ynglŷn â'r posibilrwydd o barhau mewn addysg. Mae'r unigolyn yn pryderu nad oes ganddo ddigon o arian i fedru gwneud hyn. Fe awgrymwch iddo wirio beth allai'r cyfan ei gostio a pha ffynonellau incwm allai fod ar gael iddo.
www.moneyadviceservice.org.uk/en/categories/staying-on-in-education

Llawlyfr Arian Myfyriwr yr Elusen Arian yw'r canllaw hanfodol ar gyllid myfyrwyr a rheoli arian mewn prifysgol. Ysgrifennwyd y canllaw ar gyfer myfyrwyr prifysgol arfaethedig. Gallwch ei lawrlwytho:
http://themoneycharity.org.uk/student-moneymanual/

Sefyllfa 2

Rydych yn gweithio gyda grŵp o bobl ifanc ac yn dymuno cychwyn trafodaeth ynglŷn ag arian. Rydych yn dangos clipiau fideo iddynt o bobl ifanc yn siarad am arian er mwyn procio'r drafodaeth h.y. a ydynt yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r hyn a ddywedwyd, beth yw eu safbwynt nhw?
www.moneyadviceservice.org.uk/en/categories/teenage-voices-on-first-financial-decisions

Sefyllfa 3

Mae grŵp o bobl ifanc yn siarad am chwilio am swyddi gan drafod yn benodol pa mor braf fyddai hi (neu ddim) i gael swydd. Rydych yn cytuno bod hyn yn gam mawr a gall gwirio'r elfen ariannol fod o gymorth wrth geisio llwyddo i gael swydd. Awgrymwch edrych ar ychydig o wybodaeth am hyn ar-lein.
www.moneyadviceservice.org.uk/en/categories/moving-into-work

www.turn2us.org.uk/benefits_search.aspx

Sefyllfa 4

Rydych yn gweithio gydag unigolyn ifanc er mwyn ei baratoi ar gyfer gadael cartref maeth a symud i'w gartref ei hun. Rydych yn awgrymu y byddai'n ddefnyddiol edrych ar yr holl bethau y bydd angen iddo eu hystyried ymhell ymlaen llaw er mwyn iddo wneud yn siŵr fod popeth mewn trefn.
www.moneyadviceservice.org.uk/en/categories/independent-living

Sefyllfa 5

Rydych yn gweithio gydag unigolyn ifanc sydd newydd brynu ffôn symudol newydd y llwyddodd i'w gael drwy fenthyca arian gan ddarparwr benthyciadau diwrnod cyflog lleol ar ei stryd fawr. Mae'r unigolyn yn gwybod beth fydd swm yr ad-daliadau wythnosol ond nid felly cyfanswm llawn y benthyciad. Rydych yn awgrymu defnyddio cyfrifiannell ar-lein i gyfrifo hyn.
www.moneyadviceservice.org.uk/en/tools/loan-calculator

Sefyllfa 6

Mae grŵp o unigolion ifanc yn siarad am y pethau y dymunant eu gwneud a'u cael megis ffôn symudol newydd, gwyliau gyda ffrindiau ac ati a sut i gael arian am y pethau hynny. Mae un ohonynt yn sôn am yr hysbysebion a glywodd am Wonga. Rydych yn eu hatgoffa fod Wonga, fel y rhan fwyaf o ddarparwyr benthyciadau, yn codi ffi am fenthyca, ac rydych yn awgrymu iddynt edrych ar ffyrdd eraill o fenthyca arian a chymharu'r costau ynghlwm.
www.moneyadviceservice.org.uk/en/articles/borrowing-and-credit-basics

Sefyllfa 7

YRdych yn gweithio gydag unigolyn ifanc sydd newydd gael swydd ac sydd wedi cael gwybod fod angen iddo gael cyfrif banc er mwyn talu ei gyflog i mewn iddo. Mae'n gofyn am eich cyngor ar ba fanc y dylai ei ddefnyddio. Rydych yn awgrymu ei fod yn chwilio am wybodaeth sydd ar gael ar gyfer y gwahanol fathau o gyfrif banc er mwyn iddo fedru dewis yr un mwyaf addas.

www.moneyadviceservice.org.uk/en/categories/choosing-the-right-account

Gallwch wylio fideo ar ddewis cyfrif banc:
www.moneyadviceservice.org.uk/en/videos/how-to-choose-a-bank-account

Gallwch hefyd roi cynnig ar fancio ar-lein drwy ddefnyddio offeryn rhyngweithiol:
www.moneymatterstome.com/1-What-money-is-and-money-exchange/Sub1/BANKING-OnlineBankingSimulator.htm

Sefyllfa 8

Mae grŵp o bobl ifanc yn dadlau wrth drafod a yw cystadlaethau ffonio i mewn yn ffordd o dwyllo arian oddi arnoch. Dywedwch fod amryw o ffyrdd y gallwch golli arian fel hyn, gan gynnwys pethau fel twyll hunaniaeth ac awgrymwch eu bod yn edrych ar ychydig o wybodaeth ar hyn.
www.moneyadviceservice.org.uk/en/articles/beginners-guide-to-scams

Sefyllfa 9

Am y trydydd tro yn ystod y mis diwethaf mae unigolyn ifanc sy'n gweithio gyda chi wedi rhedeg allan o arian cyn ei fudd-daliad nesaf ac mae'n gofyn i chi am gymorth. Rydych yn cytuno i wneud hynny ar yr amod ei fod yn treulio ychydig o amser yn chwilio am ffyrdd i wneud yn siŵr na fydd hyn yn digwydd yn rheolaidd. Rydych yn awgrymu edrych ar-lein am rai awgrymiadau ynglŷn â sut i ymdopi ar incwm isel:***www.moneyadviceservice.org.uk/en/categories/low-income-survival-tips***

Neu ddefnyddio cynllunydd cyllideb ar-lein:
www.moneyadviceservice.org.uk/en/categories/budget-planner

Gallwch gwblhau gwiriad budd-daliadau sydyn hefyd i weld a yw'r unigolyn yn cael popeth sy'n ddyledus iddo:

www.turn2us.org.uk/benefits_search.aspx

Sefyllfa 10

Mae unigolyn ifanc yn dod â llythyr i mewn gan ei landlord sy'n dweud ei fod mewn wedi methu taliadau rhent ac os na fydd yr unigolyn yn rhoi trefn ar hyn bydd y landlord yn dwyn achos llys yn ei erbyn. Mae'n dweud wrthych ei fod mewn dyledion gyda biliau eraill hefyd. Rydych yn awgrymu ei fod yn gwirio ar-lein am ychydig o gyngor ar hyn ac i ganfod a yw'n bosib iddo gael cyngor wyneb yn wyneb os bydd angen hynny.
www.adviceguide.org.uk/england/debt_e/debt_help_with_debt_e/how_to_sort_out_your_debts.htm

Sefyllfa 11

Mae yswiriant wedi codi ei ben fel pwnc mewn trafodaeth rhyngoch chi a grŵp o unigolion ifanc ynglŷn â chyfrifon banc. Mae rhywun yn crybwyll fod ganddo yswiriant wedi ei gynnwys yn ei gyfrif banc ond nid yw'n gwybod ar gyfer beth yn union. Yna mae'r drafodaeth yn symud ymlaen i sôn am yswiriant ffôn symudol. Gallwch egluro mai dull yw yswiriant yn syml o dalu arian allan, yn rheolaidd, i helpu i ddelio â phroblemau neilltuol a all godi yn y dyfodol megis colli'ch ffôn (yswiriant ffôn symudol), anallu i ad-dalu benthyciad oherwydd salwch neu golli'ch swydd (Yswiriant Diogelu Taliadau, gall fanc gynnig neu ei gynnwys yn awtomatig gyda rhai mathau o gyfrifon), bod mewn damwain car (cofiwch ei bod hi'n drosedd peidio â chael yswiriant car 3ydd parti o leiaf os ydych yn gyrru car), gorfod canslo gwyliau neu fod yn sâl ar wyliau (yswiriant gwyliau a/neu iechyd). Pwysleisiwch mai'r peth pwysicaf yw penderfynu, os o gwbl, pa yswiriant allai fod yn bwysig iddo ac yna dod o hyd i'r fargen orau.

Mae gwybodaeth ar gael am yswiriant ffôn symudol yn ***www.moneyadviceservice.org.uk/en/articles/paying-for-and-protecting-your-phone***

A gwybodaeth ar y bargeinion gorau ar gyfer pob math o ddiogelwch yswiriant yn
www.moneysavingexpert.com

© Developing Youth Practice Ltd

Pa bryd a sut i gyfeirio pobl ifanc at gyngor a chymorth arbenigol

O safbwynt gwybodaeth am fudd-daliadau, dyledion a hawliau defnyddwyr (ac amryw o feysydd eraill) mae'n bwysig bod yn ymwybodol y gall gwybodaeth newid yn gyflym iawn. Gall gwybodaeth heddiw fod yn ddi-werth yfory, felly mae'n bwysig i chi wirio bob amser bod yr wybodaeth a rowch i bobl ifanc yn dod o ffynhonnell gyfredol a dibynadwy megis y gwefannau a nodwyd eisoes.

Mae'n bwysig hefyd cyfeirio pobl ifanc at gyngor a chymorth arbenigol yn ôl yr angen gan y bydd rhai materion, megis hawl i gael budd-daliadau a hawliau defnyddwyr angen cyngor arbenigol a bydd amryw o broblemau, fel dyledion, yn gwaethygu'n arw os na weithredir arnynt yn gyflym.

Am gyngor rhad ac am ddim ar fudd-daliadau, dyledion, defnyddwyr ac unrhyw beth arall, wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, gallwch gysylltu â'ch swyddfa Canolfan Cyngor ar Bopeth leol, ac mae'r manylion hynny ar gael yn ***www.citizensadvice.org.uk***

Am gyngor ar ddyledion yn rhad ac am ddim, gallwch ffonio'r Llinell Ddyled Genedlaethol ar 0808 808 4000.

Dylech hefyd wirio pa wasanaethau eraill sy'n cynnig cyngor yn rhad ac am ddim yn eich ardal leol gan gynnwys y rhai sy'n benodol ar gyfer pobl ifanc – gweler ***www.thesite.org/community/localadvicefinder***

Dysgu achrededig

I rai pobl ifanc gall achredu eu dysgu lwyddo i gefnogi nodau a dyheadau eraill. Mae nifer o ddewisiadau ar gael, a dyma ddau, yn ein barn ni, sy'n gweithio'n dda:

UK Youth - Gwobrau Llwyddiant Ieuenctid
www.ukyouth.org/accredited-learning/youth-achievement-awards#.Uxn4sk3iu00

Tra gellir defnyddio'r Gwobrau Llwyddiant Ieuenctid i gydnabod dysgu mewn ystod eang o sefyllfaoedd, mae UK Youth wedi cynhyrchu adnodd i roi cymorth i chi ddarparu ac achredu gweithgareddau ymwybyddiaeth ariannol gyda phobl ifanc (Cost: £15 a phris postio). Gellir prynu'r adnodd hwn drwy gysylltu â UK Youth yn ***publications@ukyouth.org*** neu drwy fynd i: ***www.lulu.com/shop/andrew-cummings-and-mark-reader-and-terry-fiehn/money-aware/paperback/product-13038274.html***

Dysgu achrededig ariannol ASDAN, am ragor o fanylion gweler:
www.asdan.org.uk/Personal_Finance

Adnoddau eraill

Llawlyfr yr hyfforddwr a ysgrifennwyd gan UK Youth yn seiliedig ar raglen wreiddiol Hyfforddiant Pobl ifanc ac Arian. Mae llawer mwy o syniadau am weithgareddau, ac adnoddau yn hwn.

Llawlyfr yr hyfforddwr a ysgrifennwyd gan UK Youth wedi ei ddylunio i'ch galluogi i ddarparu rhaglen hyfforddi undydd i bobl ifanc ynglŷn â materion ariannol (Cost: £11 a phris postio). Mae llawer mwy o syniadau am weithgareddau, ac adnoddau yn hwn.
www.lulu.com/shop/andrew-cummings/trainers-manual-young-people-and-money/paperback/product-11050395.html

13. Be nesaf? - Sefydlu drwy Ymarfer

Bu i'r Rhaglen Gwerthuso Pobl ifanc ac Arian ddangos pwysigrwydd nid yn unig ymarferwyr hyfforddiant ond sicrhau bod ganddynt ddigon o gymorth parhaus a'r adnoddau angenrheidiol i roi'r hyn a ddysgwyd ganddynt ar waith. Er mwyn gwneud hyn roedd yn hanfodol sicrhau bod galluogrwydd ariannol wedi ei sefydlu yn y polisïau, gweithdrefnau ac ymarferion y sefydliadau.

Astudiaeth achos – Centrepoint

Mae Centrepoint yn gweithio gyda phobl ifanc digartref gan ddarparu tai a gefnogir. Mae Centrepoint wedi sefydlu galluogrwydd ariannol drwy ei holl waith, gan asesu gallu pobl ifanc i reoli eu harian o'r cychwyn cyntaf a mesur eu cynnydd drwy'r cyfnod. Mae gan y sefydliad weithwyr arbenigol sy'n rhoi cymorth uniongyrchol i bobl ifanc gael mynediad at gyrsiau a chefnogaeth un i un. Mae gan y gweithwyr arbenigol gyfrifoldeb hefyd am gydgordio galluogrwydd ariannol ar draws y sefydliad, gan hyfforddi a chefnogi'r gweithlu.

Mae Centrepoint yn gweithio gyda phobl ifanc digartref gan ddarparu tai a gefnogir. Mae Centrepoint wedi sefydlu galluogrwydd ariannol drwy ei holl waith, gan asesu gallu pobl ifanc i reoli eu harian o'r cychwyn cyntaf a mesur eu cynnydd drwy'r cyfnod. Mae gan y sefydliad weithwyr arbenigol sy'n rhoi cymorth uniongyrchol i bobl ifanc gael mynediad at gyrsiau a chefnogaeth un i un. Mae gan y gweithwyr arbenigol gyfrifoldeb hefyd am gydgordio galluogrwydd ariannol ar draws y sefydliad, gan hyfforddi a chefnogi'r gweithlu.

Mae pobl ifanc yn cael sesiwn allweddol yn rheolaidd neu unwaith y mis lle gallant osod cynllun gweithredu sydd o gymorth iddynt fedru mesur eu datblygiad. Mae Centrepoint yn mesur y cynnydd ac yn medru cefnogi pobl ifanc i adnabod a deall eu gwendidau neu eu heriau tebygol, ac ymyrryd gyda gweithdy penodol neu gynnig cymorth arbenigol pellach.

Mae gan Centrepoint nifer o raglenni Moneywise ar gael ar hyn o bryd, yn cefnogi pobl ifanc i ddod yn ariannol alluog. Mae'r rhaglenni'n cynnwys:

- Rhaglen Lysgenhadol Moneywise, rhaglen fentora rhwng cymheiriaid, sydd yn rhoi enghreifftiau gwirioneddol o sut y gallant ddod yn ariannol alluog a llwyddo i ddatblygu yn sgil hynny.
- Gweithdai galluogrwydd ariannol a ddarperir gan bartneriaid allanol a staff yn ymdrin â meysydd fel delio â dyledion, byw ar gyllideb, agor cyfrif banc, cynilo a gwneud y mwyaf o incwm.
- Cynghorwyr Ariannol o'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol a Neuadd Toynbee - ar gael i bob unigolyn ifanc Centrepoint yn ôl yr angen.

Mae Centrepoint o'r farn bod galluogrwydd ariannol yn fwyaf effeithiol pan mae pobl ifanc ynghlwm â'r ddarpariaeth a'r strategaeth.

© Developing Youth Practice Ltd

Prosiectau mwy - Ffyrdd eraill o sefydlu pethau'n weithredol

I roi cymorth i sefydlu galluogrwydd ariannol yn fwy sylweddol i mewn i'ch darpariaeth, chwliwch am gyfleoedd eraill ymnysg y pethau y gwnewch eisoes, a chymrwch y cyfleoedd i ddatblygu sgiliau ariannol i'w defnyddio'n bersonol mewn bywyd bob dydd.

Isod rhoddir rhai enghreifftiau o brosiectau eraill sydd wedi gwneud hyn:

Preswyl - Ar gyfer y rhai preswyl, mae pobl ifanc wedi cael cyllideb a bu gofyn iddynt gynllunio'r fwydlen a'r pryd bwyd hefyd. Gallech drefnu hwn fel cystadleuaeth Ready Steady Cook gyda gwahanol grwpiau â'r un gyllideb ar gyfer gwahanol nosweithiau o'r wythnos. Gellir ymestyn y syniad hwn ar gyfer mwy o'r daith - y llety, teithio a gweithgareddau. Gall yr ysgogiad yma olygu cynilo mewn un elfen fel bod ganddynt ragor i'w wario mewn elfen arall y tro nesaf.

Mentrau cymdeithasol - sefydlodd un prosiect ieuenctid raglen o'r enw 'dysgu i gynilo' (learn to earn). Rhoddwyd cyllideb barod i bobl ifanc a gallent ddewis sut i greu rhagor o arian o swm y gyllideb. Sefydlodd un grŵp stondin farchnad yn gwerthu hetiau a sgarffiau, gwnaeth gr□p arall fasgedi crog wedi eu harchebu, ac un arall o'r enw 'funky fancy furniture' yn atgyweirio hen ddodrefn. Yr ysgogiad yma yw gwneud elw i'w ailfuddsoddi i mewn i brosiectau a gweithgareddau'r dyfodol. Gweler astudiaeth achos Keyfind Kerching isod.

Prosiectau Beic - Mae'r elusen 'Life Cycle' yn cynnal gweithdai beic mewn carchardai lle atgyweirir beiciau ail-law a'u gwerthu am elw gyda'r arian hwnnw'n cael ei ailfuddsoddi yn y gweithdy. Mae pobl ifanc yn dysgu sgiliau cynnal beic hefyd a fydd o gymorth yn y dyfodol wrth iddynt geisio cadw dau ben llinyn ynghyd drwy ddefnyddio beicio fel dull o deithio.

Byw'n annibynnol - mae prosiect ieuenctid yn cael mynediad at eiddo sydd mewn cyflwr gwael gan adran dai y cyngor. Mae'r prosiect yn rhedeg ar gyllideb i atgyweirio'r eiddo, ac yn annog pobl ifanc hefyd i ystyried yr holl gostau beunyddiol yn eu tŷ eu hunain.

Babis yn Bipio - fel rhan o raglenni iechyd rhyw mae amryw o brosiectau yn defnyddio'r babis yn bipio i gael pobl ifanc i ystyried sut brofiad fyddai magu babi. Mae rhan o hyn yn ystyried yr effaith hefyd ar wariant petaent yn cael babi, ynghyd â chost hynny.

Mae rhagor o syniadau ar gyfer prosiectau creadigol sy'n cysylltu â galluogrwydd ariannol ar gael ar wefan Her Arian am Byth: ***https://www.moneyforlifechallenge.org.uk***

Astudiaeth Achos: Keyfund Kerching

Yn y DU mae addysg ariannol ar gael yn fwy parod nag erioed ac eto mae'r unigolyn cyffredin 18-21 oed mewn dyled o £8,195 o ddyledion heb eu diogelu ac mae 37% o'r bobl yn y DU sydd mewn dyled yn ifancach na 30 oed. Mae'r elusen Keyfund yn credu bod dyled yn cael ei waethygu gan brofiadau negyddol gydag arian.

Nod rhaglen Kerching yw rhoi cymorth i bobl ifanc, ymarferwyr ieuenctid, rhieni a chymunedau wneud gwell defnydd o wybodaeth ariannol, gan feithrin y newid ymddygiad, gwell hunanymwybyddiaeth, y gallu i drosglwyddo sgiliau a gwell deallusrwydd emosiynol sydd eu hangen i wneud penderfyniadau ariannol doeth yn gyson.

Busnesau cacennau, gwneud gemwaith, llifo crysau t a boreau coffi yw dim ond rhai o'r syniadau busnes a mentrau cymdeithasol y mae pobl ifanc yn eu creu er mwyn datblygu'n ymarferol yr hyn maent yn ei ddysgu drwy'r rhaglen hyfforddiant "Arian a Mi". Gellir sefydlu Kerching ar draws unrhyw sefydliad er mwyn gwella'r berthynas sydd gan pobl ifanc ag arian. Drwy adnabod gwerthoedd personol, eu cysylltu â sgiliau rheoli arian a meithrin y sgiliau hynny'n fewnol ar gyfer y Kerching hirdymor, gellir rhoi cymorth i bobl ifanc osgoi syrthio i mewn i'r twll dyled.

"Yn bersonol rwyf wedi mwynhau'r profiad yn fawr iawn; bu o gymorth i mi greu busnes mewn golau gwahanol a chefais brofiadau gwerthfawr drwy'r cyfan."

Max,
cyfranogwr Kerching ifanc

"Roedd Kerching yn gyfle da i bobl ifanc o'n hoed ni i ddod i ddeall rhagor am gyllidebu a phwysigrwydd cynllunio wrth wireddu nodau."

Emma, Callum, Connor,
cyfranogwyr Kerching ifanc

"Fy hoff ran o'r prosiect cyfan oedd y rhan arian a mi gan ei bod yn egluro i mi sut i reoli fy arian yn gywir a dysgu i gydweithio ag eraill hyd yn oed os nad oeddech yn dymuno gwneud hynny"

Sophie,
cyfranogwr Kerching ifanc

"Rwyf wedi mwynhau gweithio gyda'r gwahanol grwpiau o bobl ifanc a rhoi cymorth iddynt drwy'r broses Kerching. Bu'n broses gyflym i'w chwblhau gyda chanlyniadau amlwg"

Gillian,
hwylusydd Kerching

"Yn fy marn i roedd her Kerching yn ardderchog oherwydd llwyddodd i alluogi pobl ifanc i ddefnyddio'u dychymyg a chryfhau eu hunan-hyder a'u dyheadau a'u cael i ddeall pwysigrwydd cyllidebu a chynllunio o ddifrif."

Andy,
hwylusydd Kerching

Rhagor o fanylion: ***www.keyfund.org.uk***

© Developing Youth Practice Ltd

14. Llyfryddiaeth

Mae fersiwn lawn o'r llyfryddiaeth ar gael yn *www.developingyouthpractice.co.uk.*

Mae'r adolygiad hwn o lyfryddiaeth wedi bwydo'r pecyn cymorth; ymchwil yn seiliedig ar dystiolaeth i mewn i'r hyn sydd wrth wraidd y fethodoleg a'r gweithgareddau drwy'r pecyn cymorth. Rydym wedi cynnwys y llyfryddiaeth allweddol a adolygwyd ynghyd â dolenni i'r ffynonellau lle gallwch ddysgu rhagor.

Trosolwg o'r llyfryddiaeth

1. Cyflwyno sgiliau galluogrwydd ariannol: Astudiaeth beilot gyda Fairbridge West, Bryste
2. Tystiolaeth ryngwladol
3. Newid ymddygiad
4. Mentrau ac ymchwil diweddar yn y DU
5. Strategaethau Gwaith Ieuenctid UE a'r DU
6. Defnyddwyr Bregus
7. Arolygon a chynadleddau OECD
8. Dysgu yn y gweithle
9. Rhagor o ddolenni

1. Cyflwyno sgiliau galluogrwydd ariannol: Astudiaeth beilot gyda Fairbridge West, Bryste

Adroddiad gwerthusol gan Ganolfan Ymchwil Arian Personol, Prifysgol Bryste, Adele Atkinson, Gorffennaf, 2005
www.pfrc.bris.ac.uk/Reports/introducing_financial.pdf

2. Tystiolaeth ryngwladol

Cyflwyniad i Addysg Ariannol i Blant ac Ieuenctid: Datblygu Addysg Ariannol, Cymdeithasol a Bywoliaeth Safonol ar gyfer Plant ac Ieuenctid
Arian Plant a Phobl Ifanc Rhyngwladol 2012
Jeroo Billimoria

http://childfinanceinternational.org/index.php?option=com_mtree&task=att_download&link_id=376&cf_id=200

Arolwg Gwybodaeth ac Ymddygiad Ariannol Mehefin 2013
Canolfan Addysg Ariannol Bersonol Prifysgol Massey ar gyfer Seland Newydd
www.cflri.org.nz/financial-literacy/current-projects/research-projects#s6

Prosiectau ymchwil
Yn rhyngwladol, cyfrannwr cymharol newydd yw Menter Ariannol Plant ac Ieuenctid:
http://childfinanceinternational.org
J.Billimoria et al. Fframwaith OECD 2012 (fframwaith UNICEF). Mae'r prosiect yn berthnasol ar lefel 4 ar gyfer rhai 15+ oed.
http://childfinanceinternational.org/index.php?option=com_mtree&task=att_download&link_id=376&cf_id=200

3. Newid ymddygiad

Llythrennedd Ariannol a Newid Ymddygiadol, Comisiwn Diogelwch a Buddsoddiad Awstralia, Mawrth 2011
www.asic.gov.au/asic/pdflib.nsf/LookupByFileName/rep230-financial-literacy-and-behavioural-change.pdf/$file/rep230-financial-literacy-and-behavioural-change.pdf

Economeg Ymddygiadol
(Ffynhonnell: de Meza,D, Irlenbusch,B and Reyniers,D, 'Financial Capability: a behavioural economics perspective', consumer research 69, FSA 2008)

Nudges
(Ffynhonnell: Thaler,RH a Sunstein,CR, 'Nudge: improving decisions about health, wealth and happiness', Yale University Press, New Haven 2008)

MINDSPACE
(Ffynhonnell: Elliott, A,; Dolan, P; Vlaev,I, Adnaenssens,C a Metcalf,R, 'Transforming Financial Behaviour: developing interventions that build financial capability', CFEB Consumer Research Report 01, Consumer Finance Education Body 2010)

4. Mentrau ac Ymchwil diweddar yn y DU

Bywydau Ariannol: Ymchwil ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori Ariannol (Mawrth 2014)
Ymchwil arloesol ar sut mae pobl yn rheoli eu harian. Dilynwyd 72 o deuluoedd dros gyfnod o naw mis i ddeall eu hagweddau ac ysgogiadau tuag at reoli arian a'r ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar eu gallu i wneud y gorau o'u cyllid.
https://www.moneyadviceservice.org.uk/en/static/money-lives

Galluogrwydd Ariannol pobl ifanc 15-17 oed: Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol 2013
Mae'r adroddiad hwn yn ein helpu i ddeall agweddau tuag at faterion ariannol ac ymddygiadau ariannol ymhlith pobl ifanc 15-17 oed. Bydd yn hysbysu ein ffordd o fynd ati i'w helpu i wneud y mwyaf o'u harian.
https://www.moneyadviceservice.org.uk/en/static/the-financial-capability-of-15-17-year-olds

Arolwg Effaith Addysg Ariannol i Bobl Ifanc 2012
https://www.moneyadviceservice.org.uk/.../research_jun12_impactreview

Habit Formation and Learning in Young Children
Whitebread, David; Bingham, Sue; y Gwasanaeth Cynghori Ariannol a Phrifysgol Caergrawnt 2013
https://www.moneyadviceservice.org.uk/en/static/habit-formation-and-learning-in-young-children

Bywydau o ddyledusrwydd: cymhlethdodau bywyd mewn dyled
Astudiaeth fawr i'r boblogaeth orddyledus yn y DU gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, sy'n datgelu anghenion pobl sydd mewn dyled gan y gwasanaethau cynghori.
https://www.moneyadviceservice.org.uk/en/static/indebted-lives-the-complexities-of-life-in-debt

Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Addysg Ariannol i Bobl Ifanc
www.pfeg.org/sites/default/files/Doc_downloads/APPG/Financial%20Education%20for%20Vulnerable%20Young%20People.pdf

Sgiliau Arian Barclays ar gyfer Plant Ifanc Difreintiedig Asesiad Effaith Annibynnol Awst 2013
www.improvingfinancialconfidence.org/wp-content/uploads/2013/08/Barclays-Money-Skills-for-disadvantaged-young-people-11.pdf

5. Strategaethau Gwaith Ieuenctid yr UE a'r DU

UE
Adroddiad Strategaeth Ieuenctid (2010-18)
Strategaeth UE ar gyfer Ieuenctid – buddsoddi a grymuso
http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=COM:2009:0200:FIN:EN:PDF

Dyfodol polisi ieuenctid Cyngor Ewrop: Agenda 2020
www.coe.int/t/dg4/youth/Source/IG_Coop/Min_Conferences/2008_Kyiv_CEMRY_Declaration_en.pdf

Lloegr
Positive for Youth Rhagfyr 2011
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/210383/Positive-for-Youth-progress-update.pdf

Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Gwasanaethau Pobl Ifanc
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/175476/Framework_of_Outcomes_for_Young_People.pdf

Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid (2012)
www.nya.org.uk/workforce-and-training/national-occupational-standards-in-youth-work

Yr Alban
Ein Huchelgeisiau ar gyfer Gwella Cyfleoedd Bywyd pobl ifanc yn yr Alban
Strategaeth ieuenctid genedlaethol ddrafft 2014-19
www.youthlinkscotland.org/webs/245/documents/YouthStrategyamended%20121213Final.pdf

Model Arfer Cenedlaethol
www.scotland.gov.uk/Resource/0040/00408987-500.jpg

Rhagor o Ddewisiadau Rhagor o Gyfleoedd
www.scotland.gov.uk/Publications/2006/06/13100205/0

Llwyddo ar gyfer Pob Plentyn
www.scotland.gov.uk/Topics/People/Young-People/gettingitright/publications/practice-guide

Cymru
Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion (WLGA, 2013)
www.wlga.gov.uk/publications-and-consultation-responses-lll/youth-work-in-wales-principles-and-purposes

Ymestyn Hawliau: cymorth i rai 11 i 25 oed yng Nghymru (Cyfarwyddyd a Chanllaw, Gorffennaf 2002)
http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/participation/extendingentitlement1/youngpeopledirection?lang=en

Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion : Ymatebion i Gyhoeddiadau ac Ymgynghoriadau : Addysg Gydol Oes, Hamdden a Gwybodaeth : Pynciau : Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Llywodraeth Cymru | Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid – fframwaith newydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pobl ifanc NEET

Cynllun Gweithredu Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid.
Am ragor o wybodaeth ebostiwch:
YouthEngagementandProgression@wales.gsi.gov.uk

Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol i Gymru 2014-2018
http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/national-youth-work-strategy-

© Developing Youth Practice Ltd

for-wales/?lang=en

Y Saith Nod Craidd ar gyfer Plant a Phobl Ifanc
http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/rights/sevencoreaims/?lang=en

http://wales.gov.uk/docs/dcells/consultation/130618-consultation-document-en.pdf
http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/youthworkcurriculum/?lang=en

http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/cypplanning/?lang=en

Gogledd Iwerddon
Blaenoriaethau ar gyfer Ieuenctid mewn Addysg
www.deni.gov.uk/index/support-and-development-2/youth-service/priorities-for-youth

Gwaith Ieuenctid Model ar gyfer Arfer Effeithiol
www.deni.gov.uk/youth_work_-_a_model_for_effective_practice-5.pdf

6. Bregusrwydd Defnyddwyr

Datblygu ymagwedd bartneriaeth gyda sefydliadau defnyddwyr a'r diwydiant
Martin Coppack; Partnerships & Consumer Insight, FCA

MIND, 'Dal yn y coch'
www.mind.org.uk/media/273468/still-in-the-red.pdf

Coleg Brenhinol Seiciatryddion, cyhoeddiadau 'Dyled ac iechyd meddwl' Hafan y wefan Dyled ac iechyd meddwl
www.rcpsych.ac.uk/workinpsychiatry/qualityimprovement/research/debtandmentalhealth.aspx

Rhybudd Olaf – dyled ac iechyd meddwl – yr hyn y mae pobl yn dymuno i weithwyr iechyd a gofal ei wybod a'i wneud.
www.rcpsych.ac.uk/pdf/Final_Demand.pdf

Defnyddiwr Bregus Gwasanaethau Ariannol: Cyfraith, Polisi a Rheoliad (Cartwright, 2011)
www.nottingham.ac.uk/business/forum/documents/researchreports/paper78.pdf

Llais Defnyddwyr - trechu Bregusrwydd Defnyddwyr 2012
www.consumerfocus.org.uk/files/2012/12/Tackling-consumer-vulnerability.pdf

Papur Gwyn BSI – Trechu Bregusrwydd Defnyddwyr
www.bsigroup.co.uk/Documents/customer-service/BSI-Providing-fair-flexible-and-inclusive-services-a-business-perspective-EN-UK.pdf

7. Arolygon a chynadleddau OECD

Materion rhywedd
www.oecd.org/education/48111145.pdf

www.oecd.org/finance/financial-education/financialeducationandwomen.htm

PISA
www.oecd.org/pisa

Cynadleddau OECD diweddar – cynnwys defnyddiol
Cynhadledd OECD a Bwrdd Gwasanaethau Ariannol De Affrica ar Addysg Ariannol 2011

Cynhadledd Sbaen OECD 11/5/2012

Ymchwil Polisi Byd-eang OECD/INFE/GFLEC Symposiwm i wella galluogrwydd ariannol 31/10/13

8. Dysgu yn y gweithle

Dulliau dysgu
Mae Sefydliad Siartredig Datblygu Personél wedi astudio'r ymchwil yn drylwyr ar sut mae pobl yn dysgu ac mae'r wefan yn cynnwys amryw o daflenni gwybodaeth defnyddiol gyda'r damcaniaethau diweddaraf ar seicoleg a niwrowyddorau mewn perthynas â dysgu.
www.cipd.co.uk/hr-resources/factsheets/helping-people-learn.aspx

Ystyrir y materion hyn yn fanylach yn y daflen wybodaeth ar ddulliau dysgu a seicoleg dysgu.
www.cipd.co.uk/hr-resources/factsheets/learning-styles-psychology-learning.aspx

(Coffield,F et al. (2004) Learning Styles and Pedagogy in Post 16 Learning: a systematic and critical review. Canolfan Ymchwil Dysgu a Sgiliau. ***www.lsda.org.uk/files/1543.pdf***

9. Rhagor o ddolenni

Gwerthusir prosiectau pfeg (Grŵp Addysg Arian Personol), er mwyn amlygu'r hyn sy'n effeithiol:
www.pfeg.org/policy-campaigning/evidenceimpact-pfeg%E2%80%99s-work
www.youngscot.net/what-we-do/key-documents/young-scot-impact-report-20122013.aspx#

Yn y maes academaidd, dyma rai erthyglau yn ymwneud yn benodol â phobl ifanc (ond nid yn neilltuol o berthnasol): Mandell a Klein (2009); Walstad et al (2010)

Adnabod eich cwsmer a chynhwysiant:
www.fatf-gafi.org/media/fatf/documents/reports/AML_CFT_Measures_and_Financial_Inclusion_2013.pdf

http://cfi-blog.org/tag/know-your-customerrequirements/

http://documents.worldbank.org/curated/en/2013/10/18477405/global-findex-databasefinancial-inclusion-youth

www.oecd-ilibrary.org/finance-andinvestment/promoting-financial-inclusionthrough-financial-education_5k3xz6m88smpen;jsessionid=42ddarmm81o4r.x-oecd-live-02

www.microcreditsummit.org/uploads/resource/document/cohenm_financial_literacy_39948.pdf

Strategaethau cenedlaethol ariannol ac addysgiadol partneriaid ymddiriededig
www.oecd.org/daf/fin/financial-education/OECD_INFE_High_Level_Principles_National_Strategies_Financial_Education_APEC.pdf

www.oecd.org/finance/financialeducation/48493142.pdf

www.oecd.org/finance/financial-education/Codes_of_Conduct_Private_Non_Profit_Fin_Edu_Public_Consultation_2013_2014.pdf

Confidence
www.bristol.ac.uk/geography/research/pfrc/themes/fincap

Kids and parents
www.wijzeringeldzaken.nl/media/13197/correlations_financial_behaviour_children_parents.pdf

http://annalusardi.blogspot.fr/

Effaith Addysg Ariannol Ysgol Uwchradd Tystiolaeth Arbrofol o Brasil
http://papers.ssrn.com/sol3/papers.cfm?abstract_id=2367083#

Mae pfeg yn arwain ar gydweithrediad o'r enw Take Charge ac fel rhan ohono bu'n cynnal ymarfer mapio ar draws sefydliadau yn y DU sydd yn gweithio â phobl ifanc ac ar alluogrwydd ariannol a mentergarwch. Dyma'r ddolen i'w wefan:
http:// takechargeuk.org/ ac yno fe welwch ddolen i'r map cyflwr y wlad.

© Developing Youth Practice Ltd